# Uned Atal Trais
# Violence Prevention Unit

## Gwerthusiad o Uned Atal Trais Cymru

Cam 1 (2019/20)

Awst 2020

Hannah Timpson, Rebecca Harrison, Charlotte Bigland, Nadia Butler & Zara Quigg

Public Health Institute, Liverpool John Moores University

# Gwerthusiad o Uned Atal Trais Cymru: Cam 1 (2019/20)

Hannah Timpson, Rebecca Harrison, Charlotte Bigland, Nadia Butler, Zara Quigg

Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (PHI)
*Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Atal Trais*
Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU)
Exchange Station
Lerpwl, L2 2QP

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

De Cymru yw un o'r 18 ardal y dyrannwyd cyllid iddynt gan Lywodraeth y DU i sefydlu Uned Lleihau Trais. Gyda chefnogaeth ymrwymiadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru, yn 2019 sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru (VPU). Er mwyn llywio datblygiad parhaus VPU Cymru, a deall ei heffeithiau tymor byr a hirdymor ledled Cymru, ym mis Ionawr 2020, comisiynwyd Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, LJMU, i gefnogi datblygiad fframwaith gwerthuso VPU Cymru, ac i ddarparu mesuriadau llinell sylfaen i gefnogi gwerthusiad hirdymor. Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o allbynnau o'r rhaglen waith hon, ac yn cofnodi'n benodol sefydlu'r VPU yn 2019/20 a'i nodau tymor byr a hirdymor, ac enghreifftiau o ymyriadau a ariennir gan y VPU. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn darparu llinell sylfaen ar gyfer mesur newidiadau yn y system gyfan drwy gydol cyfnod y VPU, a llywio meysydd allweddol ar gyfer monitro a gwerthuso.

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gefnogi gwerthusiad VPU Cymru:

- Y cyllidwyr gwerthuso, VPU Cymru.
- Aelodau o dîm VPU Cymru, partneriaid ehangach a gweithredwyr y rhaglenni a gefnogodd gweithredu'r gwerthusiad.
- Holl gyfranogwyr yr astudiaeth a gymerodd ran mewn cyfweliadau a gweithdai cynadledda.
- Cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru am roi cyngor ar ddatblygu'r astudiaeth a chydweithwyr PHI am gefnogi'r gwaith o weithredu'r astudiaeth a chynhyrchu adroddiad.

## Crynodeb

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru (VPU) yn 2019, yn cynnwys amrywiaeth o aelodau a phartneriaid o sefydliadau yn cynrychioli yr heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCC), iechyd y cyhoedd, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), sefydliadau'r trydydd sector ac arweinwyr cymunedol. Mae VPU Cymru wedi ymrwymo i weithredu dull iechyd cyhoeddus o atal trais, gan ymgorffori cyfleoedd atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol a dulliau strategol allweddol sy'n anelu at lunio'r gwrth-naratif ar gyfer trais yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2020, comisiynwyd Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, LJMU, i gefnogi datblygiad cychwynnol fframwaith gwerthuso VPU Cymru, ac i ddarparu mesuriadau llinell sylfaen i gefnogi gwerthusiad hirdymor. Defnyddiodd y gwerthusiad ystod o ddulliau i gasglu tystiolaeth, gan gynnwys:



Cyfweliadau (n=9) gyda phartneriaid, ymarferwyr a rhanddeiliaid VPU: roedd y rhain yn rhoi cipolwg ar ddatblygiad, gweithrediad ac effaith y VPU. Defnyddiwyd y cyfweliadau hyn hefyd i ddatblygu astudiaethau achos (n=5) i archwilio materion allweddol yn fanylach.



Ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach mewn tri digwyddiad cyn ac yn ystod Cynhadledd Atal Trais Cymru (n=160).



Adolygu dogfennau perthnasol i VPU Cymru, ochr yn ochr â llenyddiaeth ehangach. Casglwyd gwybodaeth am bartneriaid ehangach ac uchelgeisiau strategol hefyd drwy fynychu cyfarfodydd a Chynhadledd Atal Trais Cymru, ac fe'i hymgorfforir yn y gwerthusiad hwn.

## Canfyddiadau

Dadansoddwyd canfyddiadau o'r cyfweliadau â phartneriaid allweddol, ymarferwyr rheng flaen a rhanddeiliaid ehangach gan gyfeirio at y pum egwyddor a nodwyd gan Public Health England (PHE) yn eu dull aml-asiantaeth system gyfan o atal trais difrifol (PHE, 2019): **cydweithio; cyd-gynhyrchu; cydweithredu mewn rhannu data a gwybodaeth; datblygu gwrth-naratif;** a **chonsensws cymunedol**. Archwiliwyd y canfyddiadau i ddeall a ellid dangos tystiolaeth ymarferol o'r egwyddorion hyn, a sut a ble y gellid gwneud hynny.



***Cydweithio*** - Mae dull systemau cyfan o gydweithio yn gofyn am ddull amlasiantaeth ar draws ystod eang o bartneriaid. Mae angen dealltwriaeth gyfunol ar bartneriaid o'r dull iechyd y cyhoedd, ac mae angen iddynt gydweithio i ddatblygu ffyrdd o weithio i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

- Mae VPU Cymru yn defnyddio *dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o leihau trais* sy'n ceisio nodi problemau a mynd i'r afael â ffactorau risg sylfaenol drwy atebion lleol. Dywedodd partneriaid fod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl ganolog yn y dull hwn.
- Ffurfiwyd aelodaeth y VPU o sefydliadau amrywiol. Roedd y VPU yn cael ei ystyried yn *"sefydliad ymbarél"* sy'n dwyn ynghyd unigolion ac asiantaethau. Mae'r ystod o aelodau yn rhoi arweiniad a mewnwelediad i'r VPU am y gweithgareddau mewn mannau lle ceir llawer o weithgarwch ac mae ganddynt wybodaeth ehangach am 'Gymru gyfan'.

- Mae model gweithredu'r VPU yn seiliedig ar fframwaith system gyfan ar gyfer atal. Mae'r model yn defnyddio dull y pedwar A, sef *ymwybodol, eiriol, cynorthwyo a mabwysiadu i sicrhau dull cynhwysfawr o ddarparu ymyriadau.*



***Cyd-gynhyrchu*** **-** Dylai gweithgareddau atal trais gael eu llywio gan ystod eang o safbwyntiau sy'n cynnwys cyd-gynhyrchu a chyd-frandio gweithgareddau. Mae cynnwys y gymuned yn agwedd bwysig ar gyd-gynhyrchu.

- Roedd partneriaid o'r farn bod trais yn fater trawsbynciol ac yn 'fater i bawb'. Ystyriwyd bod cynnwys partneriaid a'r gymuned ehangach yn *hanfodol i gyd-gynhyrchu* VPU Cymru.
- *Anogir sefydliadau partner i ymgysylltu ag eraill a rhannu syniadau* drwy weithdai VPU a chyfarfodydd VPU mewnol ac allanol rheolaidd.
- Wrth ddatblygu mentrau, mae'r VPU wedi gwneud gwaith cyd-gynhyrchu (e.e. mae gwaith gyda Barnardos wedi cynnwys *gwaith gyda charchar lleol a gwaith un-i-un* gyda throseddwyr). Mae cynlluniau ar y gweill i ymgorffori cyd-gynhyrchu ymhellach yn y VPU ar gyfer Cam 2, gan gynnwys gwaith gyda Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) i gefnogi troseddwyr treisgar sy'n oedolion ifanc.



***Cydweithredu o ran Rhannu Data a Gwybodaeth*** - mae cydweithredu wrth ddadansoddi data a rhannu gwybodaeth yn bwysig. Gall y broses hon fod yn her, ond dylai partneriaid weithio'n gydweithredol i ddatblygu dulliau effeithiol o rannu data. Argymhellir bod partneriaid lleol yn cytuno pwy sy'n gyfrifol am gyfuno, dadansoddi a dehongli'r data, a defnyddio'r data'n effeithiol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

- Mae'r VPU wedi datblygu *asesiad strategol o anghenion i ddarparu asesiad llinell sylfaen* o drais difrifol gan bobl ifanc yn Ardal Heddlu De Cymru. Mae VPU Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu *System Gwyliadwriaeth Trais* (VSS), gan ddefnyddio setiau data i nodi'r darlun cywir o drais mewn cymunedau a llywio a chyfarwyddo ymdrechion diogelwch cymunedol lleol.
- Disgrifiwyd heriau logistaidd rhannu data. Cytunodd yr holl bartneriaid fod *parodrwydd i rannu data gyda'r VPU 'mewn egwyddor ac ar lefel uchel'* a bod sefydliadau/gwasanaethau yn edrych ar sut i wneud hynny a pha bolisi a chymorth a allai fod ar waith i helpu i hwyluso hyn.
- Mae'r VPU wedi buddsoddi yn ei swyddogaeth ddadansoddol, gyda dau ddadansoddydd iechyd cyhoeddus yn gallu dadansoddi a dehongli'r data ac adrodd stori gydag ef, gan archwilio'r 'felly beth' yn fanylach, yn hytrach na dim ond cyflwyno siartiau a graffiau. Mae'r swyddogaeth ddadansoddol hon yn cael ei hystyried yn *"rhan wirioneddol allweddol o'r uned"* a bydd yn helpu'r VPU i atal trais ledled Cymru, nid yn unig yn y mannau â llawer o weithgarwch lle mae'r ymyriadau wedi'u hariannu.



***Gwrth-Naratif*** **-** Mae'r gwrth-naratif yn rhoi negeseuon cadarnhaol i bobl ifanc i wrthsefyll unrhyw negeseuon negyddol y gallant eu clywed. Mae angen i bartneriaid ymrwymo i ddatblygu amgylcheddau amddiffynnol sy'n helpu i atal trais ac i hyrwyddo dulliau ataliol er mwyn lliniaru trais.

- Mae'r VPU wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r gwrth-naratif, gan *ddarparu negeseuon amgen, cadarnhaol* a sicrhau mai uchelgais gyffredinol y VPU yw nid atal troseddu yn unig, ond *deall achosion trais a lleihau'r risg o niwed.*
- Cydnabu partneriaid bwysigrwydd *deall y ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored* i drais, a phwysigrwydd gweithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed.
- Roedd ymyriadau VPU yn cael eu hystyried yn gyfleoedd i ddatblygu prosesau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n lleihau'r risg o drais a niwed sy'n gysylltiedig â thrais; gwelwyd y gellid wedyn gyflwyno mentrau llwyddiannus ar raddfa i helpu niferoedd uwch o bobl.




***Consensws Cymunedol*** **-** Diffinnir consensws cymunedol fel gweithio gyda chymunedau lleol ac ar eu cyfer drwy eu grymuso i gymryd rhan mewn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio arnynt. Anogir partneriaid i ddefnyddio sefydliadau lleol i gefnogi ymgysylltu â'r gymuned ac eiriol gweithio gyda'r sector gwirfoddol, gan gynnal digwyddiadau ymgynghori a chysylltu â rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes er mwyn meithrin perthnasoedd ystyrlon a gweithredu â chymunedau lleol.

- Amlygodd cyfweliadau â phartneriaid sut mae'r VPU *wedi ymrwymo i gefnogi sefydliadau i gydweithio yn eu cymunedau.* Adleisiwyd pwysigrwydd datblygu perthnasoedd *a magu ymddiriedaeth* drwyddi draw, yn enwedig o ran cysylltu â darparwyr eraill a chefnogi pobl i gael cymorth pellach gyda phartneriaid ehangach.
- Teimlwyd y byddai'r VPU yn *gwella consensws cymunedol* ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu mentrau lleol a fydd yn creu *canlyniadau ystyrlon.*
- Teimlwyd bod 'brandio' a chyfleu gwaith y VPU yn effeithiol yn bwysig. Roedd hyn yn arbennig o wir er mwyn *sicrhau bod cymunedau'n deall ehangder* gwaith y VPU a bod mentrau a ariannwyd ac a oedd yn gysylltiedig â'r VPU i gyd yn teimlo'n rhan o'r un rhaglen.

## Casgliadau

Mae'r gwerthusiad hwn yn dangos sut y mae VPU Cymru wedi defnyddio dull cymdeithasol-ecolegol o dargedu atal trais ar draws lefelau unigol, teuluol, cymunedol a chymdeithasol, gan ddefnyddio ymyriadau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid yn dangos yr uchelgais i ddarparu ymyriadau VPU ar draws cwrs bywyd, gan ddisgrifio'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u targedu at blant a'r blynyddoedd cynnar, cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc, cymorth ymyrraeth gynnar i grwpiau sy'n agored i niwed, mentrau sy'n benodol i droseddwyr, rhaglenni teuluol, addysg a chymorth yn yr ysgol, mentrau yn y gymuned a gweithgareddau dargyfeiriol.




**VPU Cymru: Dull Iechyd y Cyhoedd Cwrs Bywyd o Atal Trais**

Mae VPU Cymru wedi dechrau creu newidiadau ar lefel system o ran atal trais, gan annog sefydliadau i ganolbwyntio ar atal trais fel mater iechyd cyhoeddus. O ganlyniad, dylai parhau â'r gwaith hwn barhau i adeiladu ar lwyddiannau cynnar o ran atal trais yng Nghymru.

Mae gallu VPU Cymru i gyflawni'r newid arfaethedig yn dibynnu ar sefydlu'r seilwaith i ysgogi'r gweithgareddau strategol a gweithredol. Er y gwelwyd bod yr arian a ddyrannwyd i'r VPU ar gyfer buddsoddi yn fach, gwelwyd bod y gefnogaeth i'r dull iechyd y cyhoedd wedi denu llawer o bartneriaid, a oedd am weithio gyda'i gilydd yn hytrach nag mewn seilo. Fodd bynnag, disgrifiwyd natur tymor byr y cyllid fel cyfyngiad ar gyflwyno mentrau yn yr hirdymor. Dylai archwilio cyfleoedd i wella cynaliadwyedd a darparu ymyriadau ar raddfa fod yn ffocws ar gyfer gwerthuso'r VPU yn y dyfodol.

## Argymhellion i wella darpariaeth ac effaith y VPU

**Ehangu a dyfnhau cydweithio:** Er mwyn cyflawni/cryfhau'r dull systemau cyfan, archwilio cyfleoedd i gynnwys rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys cymorth mewn ysgolion (e.e. Nyrsys Ysgol), ymarferwyr o'r Tîm Troseddu Ieuenctid, seicoleg fforensig ac iechyd meddwl, tai, lles, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

**Datblygu consenswS cymunedol:** Datblygu cyfleoedd pellach i weithio gydag ymarferwyr a all ddatblygu ymddiriedaeth gyda phobl sy'n anodd ymgysylltu â nhw. Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys y gwaith a wneir gan yr Eiriolwyr Nyrsio a Barnardos.

**Datblygu cyd-gynhyrchu:** Adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i integreiddio i'r VPU hyd yma (e.e. gan Barnardos) a datblygu hyn ymhellach gyda sefydliadau eraill (e.e. HMPPS).

**Cynaliadwyedd:** Ymgysylltu â phartneriaid ehangach yng Nghymru i ddangos tystiolaeth o effaith y VPU a chost trais, er mwyn archwilio cyfleoedd i gael rhagor o arian. Dylid gwerthuso ymyriadau sy'n derbyn cyllid VPU i archwilio cynaliadwyedd a nodi lle y gellid darparu mentrau ar raddfa.

## Argymhellion ar gyfer monitro a gwerthuso

**Monitro a dadansoddi data:** Disgrifiodd partneriaid y VPU yr angen i ddatblygu dull safonol o ymdrin ag effaith tystiolaeth. Archwilio strwythurau llywodraethu a rhwystrau i rannu data. Cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision rhannu data unigol a data ar lefel y boblogaeth ar draws sawl asiantaeth er mwyn gallu nodi patrymau trais mewn ardaloedd penodol. Sicrhau bod unrhyw fonitro, gwerthuso ac ymchwil yn cynhyrchu tystiolaeth ymarferol sy'n cael ei throsglwyddo i'r VPU mewn amser real.

**Gwerthuso:** Ymgorffori gwerthuso prosesau a chanlyniadau parhaus i archwilio a yw'r VPU yn gwneud gwahaniaeth o ran gweithredu mesurau atal trais ledled Cymru, ac wrth gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

## Argymhellion ar lefel system ac ehangach

**Atal trais ym mhob polisi:** Sicrhau bod atal trais yn cael ei adlewyrchu ym mlaenoriaethau a pholisïau llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Dylid canolbwyntio hefyd ar ddatblygu tystiolaeth ar gyfer rhaglenni ataliol sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

**Rôl y VPU wrth lywio'r system ehangach**: Sicrhau bod y VPU mewn sefyllfa strategol i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan gyrff a sefydliadau cyllido eraill i weithredu gweithgareddau atal trais yng Nghymru.

**Brandio VPU:** Darparu gwybodaeth glir am ba ymyriadau sydd wedi derbyn cyllid VPU. Bydd hyn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r 'brand' ond hefyd yn sicrhau tryloywder, yn fewnol ac yn allanol i'r VPU.

# Cynnwys


Crynodeb ..... iii

1. Cyflwyniad ..... 9

   1.1 Dull iechyd y cyhoedd o atal trais ..... 9

   1.2 Uned Atal Trais Cymru ..... 10

   1.3 Gwerthusiad o Uned Atal Trais Cymru ..... 11

   1.4 Dulliau ..... 12

2. Archwilio Graddfa a Chwmpas Gweithgareddau VPU ..... 14

3. Datblygu, Gweithredu ac Effaith VPU Cymru 2019/20: Safbwyntiau Partner a Rhanddeiliaid ..... 17

   3.1 Cydweithio ..... 17

   3.2 Cyd-gynhyrchu ..... 24

   **3.3** Cydweithio mewn Dadansoddi Data a Rhannu Gwybodaeth ..... 26

   **3.4** Gwrth-Naratif ..... 31

   3.5 Consensws Cymunedol ..... 33

4. Astudiaethau Achos ..... 35

   **4.1 Parallel Lives** (Media Academy Cymru) ..... 35

   4.2 Fearless (Ymddiriedolaeth Crimestoppers) ..... 39

   **4.3** Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ..... 41

   4.4 Eiriolwyr Nyrsio ..... 44

   4.5 Dysgu gan Randdeiliaid Ehangach ..... 47

5. Mapio Rhaglen Waith VPU Cymru ..... 49

6. Ystyriaethau ar gyfer gweithredu a chynaliadwyedd gweithgareddau VPU ..... 55

   6.1 Effaith ac Ymateb VPU i COVID-19 ..... 57

7. Argymhellion ..... 60

   7.1 Argymhellion i wella darpariaeth ac effaith y VPU ..... 60

   7.2 Argymhellion ar gyfer Monitro a Gwerthuso ..... 62

   7.3 Argymhellion lefel system ac ehangach ..... 63

8. Atodiad 1 Digwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ..... 65

Cyfeiriadau ..... 66

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Dull iechyd y cyhoedd o atal trais

Mae corff cynyddol o ymchwil fyd-eang wedi nodi'r baich trwm y mae trais rhyngbersonol yn ei roi ar iechyd a rhagolygon cymdeithasol unigolion ar draws cwrs bywyd [1] (Blwch 1). Yn ogystal â'r effeithiau unigol hyn, mae trais yn effeithio ar deuluoedd, cymunedau a'r gymdeithas ehangach, gan roi effeithiau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol a sectorau eraill fel addysg. O'r herwydd, mae trais rhyngbersonol yn fygythiad cynyddol ddifrifol i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, yn enwedig y rhai sy'n targedu iechyd a llesiant, cydraddoldeb rhywiol, a heddwch a chyfiawnder. Mae angen gweithredu ar draws pob sector a lleoliad i atal ac ymateb i drais rhyngbersonol, a lleddfu'r effeithiau ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**Blwch 1: Trais rhyngbersonol**

Mae ***trais rhyngbersonol*** yn cyfeirio at drais rhwng unigolion, ac mae wedi'i isrannu'n *drais teuluol a phartneriaid agos a thrais cymunedol*. Mae'r categori blaenorol yn cynnwys cam-drin plant; trais gan bartneriaid agos; a cham-drin yr henoed, tra bod yr olaf wedi'i rannu'n *drais cydnabod a dieithriaid* ac yn cynnwys trais ieuenctid; ymosodiad gan ddieithriaid; trais sy'n gysylltiedig â throseddau eiddo; a thrais mewn gweithleoedd a sefydliadau eraill [2].

Yn Strategaeth Trais Difrifol 2018, diffiniodd Llywodraeth y DU **drais difrifol** fel a ganlyn: *"specific types of crime such as homicide, knife crime, and gun crime and areas of criminality where serious violence or its threat is inherent, such as in gangs and county lines drug dealing. It also includes emerging crime threats faced in some areas of the country such as the use of corrosive substances as a weapon" [3].*

Mae dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais yn darparu fframwaith i ddeall achosion trais, ac yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu gweithgarwch atal drwy weithredu ar y cyd. Mae dull iechyd y cyhoedd yn ceisio deall sut mae penderfynyddion cymdeithasol a ffactorau strwythurol yn effeithio ar drais, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu ymyriadau effeithiol. Yr allwedd i hyn mae gwaith ar y cyd, amlddisgyblaeth ar draws unigolion, cymunedau, sefydliadau a systemau. Drwy fynd ar drywydd partneriaethau ar draws gwahanol ddisgyblaethau, gellir defnyddio setiau sgiliau ehangach i sicrhau newid a gwella iechyd, diogelwch a llesiant y boblogaeth.

Argymhellir y model cymdeithasol-ecolegol (SEM) fel fframwaith i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar drais ar draws lefelau unigol, teuluol, cymunedol, sefydliadol a chymdeithasol yr amgylchedd ac yn dylanwadu arnynt. Gellir defnyddio'r SEM i ddeall pa ffactorau y gellir ac na ellir eu rheoli drwy ymyriad neu gyfres o ymyriadau. Yn achos atal trais, gellir defnyddio'r SEM fel fframwaith i edrych ar sut y gellir darparu ymyriadau ar draws pob lefel o'r amgylchedd er mwyn creu newid effeithiol a chynaliadwy [4].

Ym maes iechyd y cyhoedd, mae tair prif lefel lle gellir gweithredu ymyriadau: sylfaenol, eilaidd a thrydyddol. Mae gan bob un o'r dulliau hyn rôl wahanol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â phroblem iechyd cyhoeddus benodol. Argymhellir defnyddio'r tri math fel rhan o gyfres o ymyriadau o fewn rhaglen benodol [5]. Dengys Blwch 2 sut y gellir defnyddio'r mathau hyn o atal er mwyn lleihau goblygiadau hirdymor trais.

**Blwch 2: Defnyddio dull iechyd y cyhoedd o atal trais**

**Sylfaenol:** Camau a gymerwyd i atal trais rhag digwydd yn y lle cyntaf.


**Eilaidd:** Camau a gymerwyd i ymyrryd ac ymateb i drais, i atal hyn rhag digwydd eto. Mae atal eilaidd yn cynnwys cymorth i bobl sydd wedi profi trais, yn ogystal ag ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn aildroseddu.

**Trydyddol:** Camau parhaus i gefnogi pobl y mae trais wedi effeithio arnynt, i fynd i'r afael â chanlyniadau hirdymor trais. Mae atal trydyddol hefyd yn cynnwys ymyriadau i atal pobl rhag aildroseddu.

### Dull pedwar cam o atal trais

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio dull pedwar cam o ymdrin â thrais sy'n darparu fframwaith i ymchwilio ac ymateb i drais. Y cam cyntaf yw deall natur y broblem drwy ymchwil a chasglu data systematig; yr ail yw nodi ffactorau sy'n cynyddu neu'n lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrais; y trydydd yw datblygu a gwerthuso ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â risgiau a hyrwyddo ffactorau amddiffynnol; ac yn olaf, ehangu ymyriadau effeithiol ac i werthuso eu heffaith a'u cost-effeithiolrwydd [1]. Mae'r dull iechyd y cyhoedd yn gylch parhaus o asesu, deall ac ymateb i drais o fewn poblogaeth ac mae wedi llywio strategaethau diweddar Llywodraeth y DU [6].

**Ffigur 1: Dull iechyd y cyhoedd o atal trais** [1]




## 1.2 Uned Atal Trais Cymru

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Trais Difrifol [6], gan annog dull iechyd y cyhoedd system gyfan aml-asiantaeth o atal trais. Er mwyn cefnogi ardaloedd lleol i fabwysiadu'r dull hwn, cynigiwyd mesurau amrywiol, gan gynnwys:

- 'Dyletswydd iechyd y cyhoedd' newydd sy'n cwmpasu'r heddlu, cynghorau, cyrff iechyd, cynrychiolwyr addysg a gwasanaethau troseddau ieuenctid i sicrhau bod gwasanaethau perthnasol yn cydweithio i rannu data a gwybodaeth i ddeall a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais difrifol gan gynnwys troseddau cyllyll.
- Diwygiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn i sicrhau bod trais difrifol yn flaenoriaeth benodol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, drwy sicrhau bod ganddynt strategaeth ar waith i fynd i'r afael â throseddau treisgar.
- Dyrannu cyllid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn 18 o ardaloedd lleol i sefydlu unedau lleihau trais amlasiantaeth (VRU) gan ddod â'r heddlu, llywodraeth leol, iechyd, arweinwyr cymunedol a rhanddeiliaid allweddol eraill at ei gilydd.
- Lansio Cronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar i gymunedau fynd i'r afael â throseddau treisgar drwy atal yn gynnar.

De Cymru yw un o'r 18 ardal y dyrennir cyllid iddynt i sefydlu VRU. Gyda chefnogaeth ymrwymiadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru, yn 2019 sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru (VPU). Ar adeg y gwerthusiad, roedd y VPU yn cynnwys:

- 18 aelod craidd (a ariennir gan y VPU sydd â chyfrifoldeb strategol dros lunio datblygiad yr Uned),
- 25 aelod cyswllt (sy'n cynrychioli sefydliadau sy'n chwarae rhan allweddol mewn atal trais. Nid yw'r rolau hyn yn cael eu hariannu gan y VPU ond maent yn dylanwadu ar ddarpariaeth a chyfeiriad cyffredinol yr Uned),
- Rhanddeiliaid (n=272) sy'n cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys yr heddlu, iechyd, awdurdodau lleol, iechyd y cyhoedd, arweinwyr cymunedol a phartneriaid allweddol eraill.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn dwyn ynghyd ystod eang o brofiadau ac arbenigedd i alluogi'r VPU i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon i atal pob math o drais drwy weithredu dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Gan adeiladu ar hanes o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, nod yr uned yw nodi achosion sylfaenol trais a darparu ymateb cydgysylltiedig i atal trais drwy ymyrraeth gynnar a chamau i ddargyfeirio pobl oddi wrth drais.

## 1.3 Gwerthusiad o Uned Atal Trais Cymru

Ym mis Ionawr 2020, comisiynwyd y Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, LJMU, i gefnogi datblygiad cychwynnol fframwaith gwerthuso VPU Cymru, ac i ddarparu mesuriadau llinell sylfaen i gefnogi gwerthusiad hirdymor. Yr amcanion allweddol oedd:

1. Deall a chofnodi datblygiad cychwynnol VPU Cymru, gan gynnwys ffactorau hwyluso a chyfryngu.
2. Adolygu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r dull iechyd y cyhoedd o atal trais, gan ystyried safbwynt cwrs bywyd.
3. Mapio rhaglen waith VPU Cymru a'i pherthynas â systemau ehangach a strategaethau atal trais ac iechyd a llesiant ledled Cymru.
4. Archwilio safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ar y VPU a rhaglenni gwaith cysylltiedig.
5. Nodi mesurau perthnasol i fonitro effaith VPU Cymru a rhaglenni gwaith cysylltiedig yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.
6. Datblygu fframwaith gwerthuso safonol ar gyfer y VPU a rhaglenni gwaith cysylltiedig.
7. Sefydlu prosesau ar gyfer casglu data llinell sylfaen, a lle y bo'n ymarferol casglu data llinell sylfaen, i lywio gwaith monitro a gwerthuso hirdymor o'r VPU a rhaglenni gwaith cysylltiedig.

Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o allbynnau o'r rhaglen waith gychwynnol hon. Bydd canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac ymgynghoriad ychwanegol gyda rhanddeiliaid allweddol ledled VPU Cymru yn cael eu defnyddio i lunio Fframwaith Gwerthuso Safonol a sefydlu systemau ar gyfer monitro a gwerthuso'r VPU yn y tymor byr a'r hirdymor a rhaglenni gwaith cysylltiedig, yn 2020.

## 1.4 Dulliau

Er mwyn mynd i'r afael ag amcanion y gwerthusiad, defnyddiwyd dull dulliau cymysg i gasglu tystiolaeth.

Cynhaliwyd naw cyfweliad ffôn lled-strwythuredig gyda phartneriaid VPU ac ymarferwyr rheng flaen rhwng Mawrth-Mai 2020:

- 3 x cyfweliad gyda phartneriaid VPU.
- 4 x cyfweliad ag ymarferwyr rheng flaen.
- 2 x cyfweliad â rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli partneriaid VPU ac ymarferwyr rheng flaen.

Casglodd y cyfweliadau wybodaeth am weithredu a chyflwyno gweithgareddau VPU, a chanfyddiadau o effaith a chanlyniadau.

Cynhwyswyd data hefyd o un cyfweliad a gynhaliwyd gan VPU Cymru, a gynhaliwyd gyda dau eiriolwr nyrsio yn cyflwyno ymyriad (cynhaliwyd y cyfweliad hwn ym mis Chwefror 2020).

Roedd y dadansoddiad data wedi'i strwythuro o amgylch dull iechyd y cyhoedd 4 cam Sefydliad Iechyd y Byd o atal trais, a'r pum egwyddor allweddol a amlinellwyd gan Public Health England (PHE) yn eu dull amlasiantaeth system gyfan o atal trais difrifol [6]: cydweithio, cyd-gynhyrchu, cydweithredu mewn rhannu data a gwybodaeth, datblygu gwrth-naratif, consensws cymunedol. Diffiniwyd y pum egwyddor allweddol hyn gan PHE i helpu VRUs i ystyried anghenion eu cymunedau lleol a sefydlu dulliau amlasiantaeth o weithio mewn partneriaeth. Mae dadansoddi'r data gan gyfeirio at yr egwyddorion hyn yn darparu fframwaith i nodi i ba raddau y mae'r arferion presennol yn cyd-fynd ag argymhellion y Swyddfa Gartref, yn amlygu meysydd o arfer da, ac yn nodi bylchau/gwendidau. Defnyddiwyd y dull hwn gan y tîm ymchwil wrth werthuso Unedau a Phartneriaethau Lleihau Trais eraill.

Cyflwynir y canfyddiadau gan gyfeirio at y themâu allweddol hyn, a defnyddir dyfyniadau i ddangos pwyntiau allweddol. Mae dyfyniadau wedi'u labelu yn unol â rôl y cyfranogwr (partner neu ymarferydd rheng flaen).

Defnyddiwyd y cyfweliadau gyda'r ymarferwyr rheng flaen i ddatblygu astudiaethau achos i roi disgrifiad manwl o ddatblygiad, gweithrediad ac effaith mentrau atal trais o fewn sefydliadau VPU penodol.

Cynhaliwyd cyfweliad ychwanegol gan randdeiliaid ehangach, yn cynrychioli sefydliad sydd â phrofiad o gyflawni mentrau atal trais (Street Games).

Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Mawrth 2020 i archwilio'r amrywiaeth o weithgareddau atal trais sy'n cael eu gweithredu ledled Cymru, deall y canlyniadau disgwyliedig a llywio strategaeth yn y dyfodol. Cafodd y digwyddiadau eu hintegreiddio yng Nghynhadledd Atal Trais Cymru er mwyn sicrhau'r ymgysylltu mwyaf posibl ag amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol. Cynhaliwyd un digwyddiad llai gydag aelodau craidd ac aelodau cysylltiedig o'r VPU (n~30) er mwyn casglu gwybodaeth benodol am weithgareddau a chanlyniadau VPU, a dau ddigwyddiad mwy gyda holl fynychwyr y gynhadledd (n=160) i gasglu gwybodaeth am ddyheadau VPU a gweithgareddau ehangach.

Datblygwyd y fformat ar gyfer y digwyddiadau gan dîm gwerthuso LJMU mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o VPU Cymru. Manylir ar ddiben a strwythur pob digwyddiad yn Atodiad 1. Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y digwyddiad i ddatblygu model rhesymeg a theori newid (gweler Adran 6).

Adolygwyd dogfennau sy'n berthnasol i VRU Cymru ochr yn ochr â llenyddiaeth ehangach. Casglwyd gwybodaeth am bartneriaid ehangach ac uchelgeisiau strategol hefyd drwy fynychu cyfarfodydd a Chynhadledd Atal Trais Cymru.

Cyflwynir canfyddiadau'r gwerthusiad hwn gan gyfeirio at ddwy ddogfen strategaeth allweddol, gyda'r nod o ddeall cryfderau'r model a'r dull VPU, nodi meysydd o arfer da, nodi bylchau yn y system a gwneud argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Mae **Adran 2** yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r VPU, gan gyfeirio at ddull iechyd y cyhoedd 4 cam Sefydliad Iechyd y Byd o leihau trais [1]. Mae hyn yn dangos i ba raddau y mae'r VPU yn ymgorffori gweithgareddau gwyliadwriaeth, yn gweithio i nodi risg a ffactorau amddiffynnol, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i weithredu a monitro ymyriadau.

Mae **Adran 3** yn symud ymlaen i archwilio profiadau partneriaid a rhanddeiliaid VPU wrth ddatblygu a gweithredu'r VPU, gan gyfeirio at y pum egwyddor a nodwyd gan PHE yn eu dull aml-asiantaeth system gyfan o atal trais difrifol [6] a chanfyddiadau o effaith. Drwy gyflwyno'r canfyddiadau fel hyn, mae'n darparu tystiolaeth am y graddau y mae'r VPU yn ymgorffori cydweithio, cyd-gynhyrchu, cydweithredu mewn dadansoddi data a rhannu gwybodaeth, y gwrth-naratif, a chonsensws cymunedol wrth gynllunio eu model gweithredu.

Mae **Adran 4** yn rhoi enghreifftiau o astudiaethau achos i ddangos ymhellach ddatblygiad, gweithrediad ac effaith y VPU.

## 2. Archwilio Graddfa a Chwmpas Gweithgareddau VPU

Casglwyd gwybodaeth am y gweithgareddau sy'n cael eu paratoi a'u cefnogi gan VPU Cymru yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i hategu gan waith ansoddol ychwanegol gyda phartneriaid. Mae gweithgareddau'r VPU wedi'u hystyried gan gyfeirio at ddull iechyd y cyhoedd 4 cam Sefydliad Iechyd y Byd o leihau trais [1] i helpu i ddeall cryfderau VPU Cymru, dangos enghreifftiau o arfer da, a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r ymarfer hwn yn ategu ymarfer mapio cynhwysfawr a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac a gyflwynir ochr yn ochr ag enghreifftiau o astudiaethau achos o fentrau penodol, a gefnogir ar hyn o bryd gan VPU Cymru (gweler Adran 4).

Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad hwn yn dangos sut mae'r gweithgareddau a gyflawnir gan VPU Cymru yn cyd-fynd yn glir â dull iechyd y cyhoedd 4 cam Sefydliad Iechyd y Byd o atal trais:

### 1. Gwyliadwriaeth: diffinio'r broblem drwy gasglu gwybodaeth a data am drais.

Mae VPU Cymru wedi dangos eu hymrwymiad i gasglu gwybodaeth a rhannu gwybodaeth drwy ddatblygu systemau gwyliadwriaeth a chasglu data cadarn a chynhwysfawr a buddsoddi mewn arbenigedd dadansoddol i ddehongli'r data.

Yn unol â mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais, mae VPU Cymru wedi datblygu asesiad strategol o anghenion. Mae'r proffil problemau cynhwysfawr hwn yn darparu asesiad llinell sylfaen o drais difrifol ymhlith pobl ifanc yn Ardal Heddlu De Cymru, ac yn dwyn ynghyd ddata o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys systemau heddlu De Cymru; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS); Yr Arolwg Troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr; Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC); data byrddau iechyd lleol; data ansoddol gan grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol a phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad byw o drais difrifol gan bobl ifanc, ac ymchwil eilaidd i'r llenyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol sy'n ymwneud â thrais difrifol gan bobl ifanc. Defnyddiwyd yr asesiad strategol hwn o anghenion gan y VPU i lywio dealltwriaeth yr Uned o drais yng Nghymru ymhellach, i lywio strategaeth y VPU ac fe'i defnyddiwyd i roi gwybodaeth well i randdeiliaid (fel bwrdd atal trais Cymru a Llywodraeth Cymru) am natur y broblem yng Nghymru. Bydd yr asesiad strategol o anghenion yn parhau i gael ei ddefnyddio fel dogfen allweddol i lywio gweithgarwch VPU yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithiol ymhellach, mae VPU Cymru yn datblygu System Gwyliadwriaeth Trais (VSS) sy'n bodoli eisoes, gan dynnu data ynghyd i ddarparu asesiad cynhwysfawr o'r darlun presennol. Mae'r system hon yn darparu gwybodaeth gyfoes barhaus i lywio a chyfarwyddo mentrau lleol. Mae datblygu'r VSS yn adeiladu ar lwyddiant Cymru wrth ddatblygu Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais. Ceir rhagor o wybodaeth am Fodel Caerdydd a'r VSS ym Mlwch 3.

**Blwch 3: Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais**

Datblygwyd Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais ym 1997 mewn ymateb i'r canfyddiad nad yw hanner yr holl ddigwyddiadau treisgar sy'n arwain at driniaeth frys mewn ysbytai yn cael eu hadrodd i'r heddlu. Y model oedd y cyntaf i gasglu data trais yn rheolaidd er mwyn helpu i lywio newidiadau mewn arfer sy'n ymwneud ag economi'r nos. Mae'r model yn argymell rhannu gwybodaeth rhwng adrannau achosion brys a'r heddlu. Yn yr adran achosion brys, cesglir data anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais (gan gynnwys lleoliad ymosodiad, amser, dyddiad a mecanwaith) a'u cyfuno'n barhaus â gwybodaeth yr heddlu. Defnyddir y data i fapio lle mae trais yn digwydd yn aml ac arwain ymateb integredig i atal trais. Cafodd y model ei weithredu'n llawn yng Nghaerdydd yn 2001 ac roedd gwerthusiad yn cymharu canlyniadau yn y ddinas â 14 o ddinasoedd cymharu ledled Cymru a Lloegr. Yn ogystal â phlismona wedi'i dargedu'n well, yn ystod y cyfnod ymyrryd, gweithredwyd amrywiaeth o strategaethau atal hefyd gan gynnwys troi rhannau o stryd yng nghanol y ddinas gyda chrynodiad uchel o fariau a thafarndai yn fan i gerddwyr yn unig, defnydd gorfodol o wydrau plastig mewn safleoedd trwyddedig dethol, a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus hwyr mwy mynych. Yn y tair blynedd ar ôl gweithredu'r model, dangosodd y canlyniadau fod y model yn gysylltiedig â gostyngiad sylweddol yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd ymosodiad, o'i gymharu â chynnydd dros yr un cyfnod yn y dinasoedd cymhariaeth [7]. Asesodd astudiaeth yn 2014 gostau a manteision Model Caerdydd [8]. Ar ôl ystyried costau gweithredu, dangoswyd bod y model wedi lleihau costau cysylltiedig â thrais yn sylweddol. Y gymhareb cost/budd gyffredinol oedd 1:82, sy'n dangos bod £82 mewn buddion yn cael ei wireddu am bob punt a wariwyd ar gyflawni'r rhaglen.

**System Gwyliadwriaeth Trais**

Defnyddiwyd Model Caerdydd i lywio datblygiad System Gwyliadwriaeth Trais (VSS) i Gymru. Nod y VSS yw darparu monitro a gwybodaeth i'w defnyddio gan grwpiau atal trais amlasiantaeth lleol i lywio atebion lleol i atal trais. Mae'r VSS yn adeiladu ar lwyddiant Model Caerdydd i drawsbaru data'r heddlu, iechyd ac ambiwlans a datblygu adroddiadau. Er ei fod yn dal ar gam cynnar, gobeithir cynnwys mwy o setiau data o fewn y VSS, megis data ychwanegol gan yr heddlu ac iechyd ac ymgorffori data a gesglir gan aelodau cyswllt VPU (fel Cymorth i Fenywod, er enghraifft). Cydnabyddir bylchau mewn data gofal cymdeithasol ac addysg, ond mae'n anodd eu hymgorffori oherwydd materion sy'n ymwneud â llywodraethu data. Mae adroddiadau cychwynnol yn awgrymu bod adroddiadau VSS wedi nodi problemau nad oedd yr heddlu'n gwybod amdanynt ar lefelau lleol, gan arwain at weithredu mentrau i fynd i'r afael â materion lleol. Er enghraifft, nododd y VSS ymosodiadau ar benwythnosau mewn ardal fach yng Nghwm Cynon ac yna ymatebodd partneriaid lleol drwy sicrhau cyllid ar gyfer rhoi cynllun marsial tacsi ar waith i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Yn unol â dull iechyd y cyhoedd o barhau i fyfyrio a datblygu, caiff y VSS ei asesu i nodi'r ffyrdd mwyaf effeithlon o gasglu, adrodd a lledaenu data, i gefnogi effeithlonrwydd y system, ac i ddangos effaith.

## 2. Nodi ffactorau risg ac amddiffynnol: defnyddio ymchwil i edrych ar achosion trais, ffactorau risg ar gyfer trais a lle gallai ymyriadau fod yn effeithiol.

Cefnogir amrywiaeth o weithgareddau gan VPU Cymru sy'n dangos dull iechyd y cyhoedd o atal trais (gweler Adran 3 am ragor o fanylion am y dull gweithredu). Mae rôl ganolog Iechyd Cyhoeddus Cymru o fewn y VPU yn rhan annatod o hyn.

Dengys tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn y ffordd y mae'r VPU yn defnyddio gwybodaeth i benderfynu sut a ble i gyfeirio gweithgarwch. Mae datblygu'r asesiad strategol o anghenion yn rhoi gwell

dealltwriaeth o'r ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer trais, yn enwedig o fewn Ardal Heddlu De Cymru.

Mae'n amlwg bod y VPU yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â ffactorau risg ar gyfer trais difrifol ar draws pob lefel o'r model ecolegol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), cyfranogiad gangiau, anghydraddoldebau ac amddifadedd. Drwy'r cyfweliadau ansoddol, cydnabu partneriaid y potensial i gael mwy o effaith drwy gryfhau gweithgareddau i fynd i'r afael â ffactorau risg ymhlith partneriaid a chyflwyno'r rhain ar raddfa ehangach. **Datblygu a gwerthuso ymyriadau: darganfod beth sy'n gweithio i atal trais drwy gynllunio, gweithredu a gwerthuso ymyriadau.**


Mae'r dull cydweithredol o gyd-gynhyrchu a gweithredu'r VPU yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ymyriadau arloesol ac effeithlon. Mae aelodaeth eang y VPU yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau ac arbenigedd sy'n rhoi cyfle i ddatblygu mentrau effeithiol sy'n berthnasol i'r cymunedau a'r poblogaethau y cânt eu darparu ar eu rhan. Mae'r VPU wedi ymrwymo i werthuso gweithrediad ac effaith eu mentrau, a ddangosir drwy gasglu data cynhwysfawr ymhlith partneriaid a datblygu fframwaith gwerthuso safonol i'w ymgorffori ar draws Cam 2 o ddarpariaeth y VPU. Mae VPU Cymru wedi dangos sut y bydd y dystiolaeth a gesglir gan sefydliadau partner yn cael ei defnyddio i lywio sut a ble y gellir cynyddu ymyriadau.

3. **Gweithredu ymyriadau effeithiol: hefyd monitro effeithiau'r ymyriadau hyn ar ffactorau risg a gwerthuso eu heffaith a'u cost-effeithiolrwydd.**

Mae theori newid y VPU (Adran 5) yn dangos sut y mae'r VPU wedi defnyddio dull cymdeithasol-ecolegol o dargedu atal trais ar draws lefelau unigol, teuluol, cymunedol a chymdeithasol, gan ddefnyddio ymyriadau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol. Mae Adran 3 yn rhoi mwy o fanylion am y ffyrdd penodol o weithio.

Mae gwybodaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau ansoddol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dangos yr uchelgais i ddarparu ymyriadau VPU ar draws y cwrs bywyd gan amrywiaeth o sefydliadau. Cyflwynir y gweithgareddau hyn ar draws y cylch bywyd i dynnu sylw at y ffordd y caiff gweithgareddau atal trais eu dosbarthu ar draws y cwrs bywyd, gan gynnwys ffocws ar deuluoedd ac oedolion hŷn. Nod gweithgareddau VPU yw cynnwys ymyriadau wedi'u targedu tuag at blant a'r blynyddoedd cynnar; gweithgareddau dargyfeiriol; cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc; cymorth ymyrraeth gynnar i grwpiau sy'n agored i niwed; mentrau sy'n benodol i droseddwyr; rhaglenni teuluol; addysg a chymorth yn yr ysgol; mentrau yn y gymuned a gweithgareddau ehangach i godi ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau.

**Ffigur 2: Dull Iechyd y Cyhoedd Cwrs Bywyd o Atal Trais yng Nghymru**




# 3. Datblygu, Gweithredu ac Effaith VPU Cymru 2019/20: Safbwyntiau Partner a Rhanddeiliaid

Dadansoddwyd canfyddiadau o'r cyfweliadau â phartneriaid allweddol, ymarferwyr rheng flaen a rhanddeiliaid ehangach gan gyfeirio at y pum egwyddor a nodwyd gan PHE yn eu dull aml-asiantaeth system gyfan o atal trais difrifol. [6]. Darperir trosolwg cryno o bob egwyddor, ac yna archwiliad o os, sut a ble y gwelir tystiolaeth ymarferol o'r egwyddorion hyn.

## 3.1 Cydweithio

**Mae'r WHO yn nodi bod dull systemau cyfan o gydweithio yn gofyn am ddull amlasiantaeth ar draws ystod eang o bartneriaid. Mae angen dealltwriaeth gyfunol ar bartneriaid o'r dull iechyd y cyhoedd, ac mae angen iddynt gydweithio i ddatblygu ffyrdd o weithio i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.**

Archwiliodd y cyfweliadau ddatblygiad ac aelodaeth VPU yng Nghymru. Cyflogwyd Cyfarwyddwr VPU Cymru o fis Rhagfyr 2019 drwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyda chyllid yn dod o grant y Swyddfa Gartref. Roedd gan y Cyfarwyddwr gyfoeth o brofiad a gwybodaeth am drais difrifol, atal trais a gwrthderfysgaeth. Dywedwyd bod datblygiad VPU Cymru yn dod ar adeg pan oedd sgyrsiau a meddyliau eisoes yn canolbwyntio ar ffurfio uned atal trais ledled Cymru, sut olwg fyddai ar hyn a phwy y gallai ei gynnwys.

*"Yng Nghymru, roeddem eisoes wedi penderfynu ffurfio uned ac roeddem yn dechrau meddwl pwy ddylai fod ynddi a rhai o'r rolau a chyfrifoldebau. Yn fuan ar ôl hynny, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y cyllid oedd ar gael felly daeth y cyfan at ei gilydd ar adeg dda iawn i fod yn gwbl onest." (partner VPU 1)*

## Dull iechyd y cyhoedd o atal trais

Dywedwyd mai nod VPU Cymru oedd mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o leihau trais a oedd yn ceisio nodi problemau a mynd i'r afael â ffactorau risg sylfaenol drwy atebion lleol. Er bod y Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i'r unedau dargedu trais difrifol gan bobl ifanc, nid oeddent yn rhagnodol o ran y garfan boblogaeth na'r mathau o drais a gwmpaswyd. Yng Nghymru, yr amcanion cychwynnol oedd targedu troseddau cyllyll yn y garfan 18-24 oed. Fodd bynnag, roedd yr amcanion wedi ehangu ers sefydlu'r VPU i gynnwys unrhyw fath o drais gan gynnwys cam-drin domestig (DA) ac ar unrhyw oedran. Teimlwyd bod llawer o weithgarwch atal trais yn cael ei wneud yng Nghymru a bod y VPU yn gallu dod â phopeth at ei gilydd o dan un ymbarél yn strategol ac yn weithredol. Mae hyn yn cynnwys nodi'r hyn sydd ar gael yng Nghymru, y bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir, a chydlynu mesurau ataliol ar draws sectorau a sefydliadau. Fodd bynnag, ar adeg y gwerthusiad roedd y VPU yng nghamau cynnar y broses sefydlu, ac er eu bod wedi dwyn ynghyd sefydliadau allweddol (e.e. yr heddlu, PCC, iechyd y cyhoedd, HMPPS a sefydliadau'r trydydd sector), mae angen gwneud rhagor o waith i ehangu cylch gwaith yr uned i gyflawni statws 'sefydliad ymbarél'. Mae ymgysylltu â sefydliadau newydd a sefydlu rhwydweithiau newydd yn gylch gwaith allweddol yn ail gam y VPU.

*"Mae cylch gwaith y VPU yn mynd rhagddo'n llawer ehangach fel y bydd yn cwmpasu pob trais waeth pa oedran." (Partner VPU 2/Ymarferydd Rheng Flaen 1)*

*"Ni fu unrhyw newid ar wahân i ehangu trais i edrych ar fwy na throseddau cyllyll yn unig yn awr, ond rwy'n credu ei bod yn iawn canolbwyntio ar droseddau cyllyll ar y dechrau er mwyn ein canolbwyntio." (Ymarferydd Rheng Flaen 5)*

*"Rydyn ni'n dweud bod pob trais yng Nghymru o fewn graddfa. Nid trais difrifol yn unig ydyw oherwydd rydym yn credu, er mwyn atal trais, fod angen i chi fod yn ymwybodol o'r holl achosion. Mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o ACE. Rydym yn cydnabod hyd yn oed fod llawer o'n troseddwyr troseddau cyllyll wedi bod yn destun cam-drin yn y cartref neu wedi'i gyflawni. Felly credwn er mwyn bod yn effeithiol bod yn rhaid i ni edrych ar bob math o drais ac rydym yn defnyddio diffiniad eang Sefydliad Iechyd y Byd o hynny." (partner VPU 1)*

Er mwyn adlewyrchu dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais a dyheadau'r uned, defnyddiwyd y gair atal, yn hytrach na lleihau. Dywedwyd bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl ganolog a helpodd y VPU i ddatblygu damcaniaeth newid lle cafodd model gweithredu'r VPU ei leoli. Teimlwyd bod dull systemau cyfan a oedd yn mynd i'r afael â thrais difrifol a phob math o drais drwy lens wedi'i lywio gan drawma yn hanfodol.

*"Rydym yn ei alw'n uned atal trais yng Nghymru oherwydd ein bod yn credu bod mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd yn golygu atal trais yn hytrach na'i leihau yn unig, felly ein dyhead yw atal trais." (partner VPU 1)*

## Aelodaeth VPU

Disgrifiwyd VPU Cymru fel 'tîm bach', yr oedd rhai ohonynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan grant y Swyddfa Gartref (h.y. y Cyfarwyddwr, Dirprwy Gyfarwyddwr, plismona, tîm PCC a dadansoddwyr) ac roeddent yn aelodau craidd ond rhai a oedd wedi *"cael eu secondio'n wirfoddol o sefydliadau eraill".*

Gan fod aelodaeth y VPU wedi'i ffurfio o gefndiroedd sefydliadol amrywiol, roedd yn bwysig teilwra'r dull VPU i sefydliadau unigol fel y gallai pawb uniaethu â'r uchelgeisiau craidd. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer mapio cychwynnol i edrych ar bolisïau, blaenoriaethau ac uchelgeisiau asiantaethau eraill, gyda phopeth yn cael ei wneud mewn cydweithrediad.

> *".. felly, y prif beth yn y bôn, yw bod hon yn ffordd, rydym yn un o'r VPUs neu VRUs leiaf yn y wlad a chredwn mai dyma un o'r ffyrdd y gallwn gael yr effaith fwyaf mewn gwirionedd drwy gael nifer fawr o bobl eraill sy'n gweithio gyda ni ar sail wirfoddol neu secondiad bron." (partner VPU 1)*

> *"Yn hytrach na gofyn i bawb ddod i helpu i atal trais....efallai y byddwn yn mynd i ddweud ein bod am eich helpu i leihau'r camddefnydd o gyffuriau, neu rydym am eich helpu i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu rydym am eich helpu i ddiogelu plant... ei roi yn ôl yn iaith y partneriaethau sefydliadol eraill yn hytrach na dod â rhywbeth sy'n gwbl newydd y byddent am gael help ag ef oherwydd mewn gwirionedd mae popeth yn gysylltiedig â'i gilydd felly rydym wedi canfod mai dyna'r dull gorau." (Partner VPU 1)*

Cydnabuwyd, cyn y VPU, fod mentrau atal trais yn cael eu cyflwyno ledled De Cymru. Er bod y gwaith hwn yn 'dda', dywedodd partneriaid fod hyn yn cael ei ddarparu 'mewn pocedi' gyda diffyg llwybrau atgyfeirio cydgysylltiedig.

> *"... bydd gan yr Heddlu wythnosau gweithredol... ac rwy'n credu ei fod wedi eu helpu i feddwl am bethau ychydig yn wahanol ac edrych ar sut y gallant wneud pethau ychydig yn fwy cyfannol, felly yn hytrach na dim ond anfon taflenni allan gyda'u Swyddogion Cymorth Cymunedol, rwy'n credu eu bod wedi bod yn estyn allan atom ychydig yn fwy ac yn dweud a allwch ddod i'n helpu gyda'r wythnos weithredol hon a sut y gallwch godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n flaenoriaethau i ni. Rwy'n credu ei fod wedi helpu i weld ein bod i gyd yn gweithio ar yr un pethau a phob un yn gweithio gyda'i gilydd... Felly, rwy'n credu bod angen dysgu'r pwyntiau cyswllt hynny ynghylch ble y gallwn atgyfnerthu a helpu ein gilydd drwy fod yn bartneriaid." (Ymarferydd Rheng Flaen 3)*

Roedd y VPU yn cael ei ystyried yn 'sefydliad ymbarél' a ddaeth ag unigolion ac asiantaethau at ei gilydd fel aelodau cyswllt o'r VPU; roedd y rhain yn cynnwys Barnardos, Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ACEs, a Rhaglen Heddlu'r Ysgolion (SchoolBeat). Er nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y VPU, cyfrannodd yr aelodau hyn at ddiwrnodau tîm ac maent wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ar draws aelodau'r VPU (a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli) am y rhaglenni a'r gwasanaethau a

> *" ... mae'r cysylltiadau gan bobl eraill yn yr uned atal trais wedi bod yn dda iawn. Felly, er enghraifft, cafodd rywun ei drywanu yng Nghaerdydd dros y penwythnos, ond nawr oherwydd bod gennym y cysylltiadau hynny â'r Heddlu gallwn ddweud yn well beth oedd yn digwydd. Os oes gennym bobl mewn prawf a allai fod â gwybodaeth gallwn ei rhannu'n well. Felly, rwy'n credu ei bod yn dda meithrin y cysylltiadau hynny â phobl, ac mae'n dda cael y pwyntiau cyswllt hynny." (Ymarferydd Rheng Flaen 4)*

oedd ar gael. Teimlai partneriaid fod cael aelodau cyswllt yn ffordd dda o wella ei phŵer, cryfder ac effaith gydweithredol heb orfod dibynnu ar gyllid ychwanegol. Disgrifiodd partneriaid hefyd fod aelodaeth o'r grŵp hwn yn tyfu drwy'r amser.

Siaradodd un partner yn benodol am fanteision ymyriad a ariannwyd gan y VPU a oedd yn rhedeg o fewn adran achosion brys, o ran cydweithio:

> *"Maen nhw'n cynnal ymyriad yn yr ysbyty, felly os bydd pobl yn dod i mewn gydag anafiadau o ganlyniad i ymosod neu drywanu, maen nhw'n cysylltu â nhw i geisio gwneud rhywfaint o waith dargyfeiriol ac mae hynny'n dda iawn. Fe wnes i gyfarfod â hwy ac rydym yn edrych ar sut y gallwn gysylltu os oes unrhyw un ar brawf. Felly roedd ganddynt rywun a ddaeth i mewn ar brawf, felly siaradodd â ni wedyn ac egluro am bethau yn yr ysbyty, oherwydd ei fod yn poeni y gallai gael ei alw'n ôl neu dorri amodau pe na bai'n mynd i'w apwyntiad ac rwy'n credu iddo ddweud pe na bai wedi gwneud hynny yna mae'n debyg y byddai dianc a byddem wedi'i alw'n ôl. Felly gallwch weld yn bendant sut y gall pobl gysylltu i geisio ein hatal rhag cymryd camau gorfodi yn ddiangen neu gydnabod bod pobl yn profi trawma.  Rwy'n credu mai dyna un cyswllt yn sicr yr wyf wedi'i weld y gallwn ei wneud." (Ymarferydd Rheng Flaen 4)*

Disgrifiodd un o'r cyfranogwyr sut yr oedd y VPU wedi cefnogi cydweithio ac wedi dileu rhwystrau rhwng sefydliadau: *".. rydym wedi cael cymorth a rhwystrau wedi'u tynnu i lawr. Rydym wedi cael cyflwyniadau wedi'u gwneud felly rwyf wedi'i chael yn eithaf defnyddiol. Hefyd o ran ein cyflawni, oherwydd bod gennym ddarpariaeth ehangach na'r prosiect hwn yn unig, mae hefyd wedi rhoi ychydig o sicrwydd ansawdd i ni felly mae wedi bod yn dda iawn i ni."*

## Model gweithredu'r VPU

Mae model gweithredu'r VPU yn seiliedig ar fframwaith system gyfan ar gyfer atal. Mae hyn yn ymgorffori dull pedwar cam Sefydliad Iechyd y Byd o atal trais a darparu ymyriadau lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ar draws lefelau unigol, perthynas, cymunedol a chymdeithasol yr amgylchedd. Ar draws nifer o bartneriaid, mae camau gweithredu ar draws y system yn dwyn ynghyd y gyfres o ymyriadau yn y rhaglen atal trais.   Mae'r model yn defnyddio dull y pedwar A, sef ymwybodol, eiriol, cynorthwyo a mabwysiadu i sicrhau dull cynhwysfawr o ddarparu ymyriadau. Disgrifiodd partneriaid y VPU y broses y tu ôl i'r dull hwn yn ystod 2019/20:

- **Ymwybodol:** Disgrifiwyd hyn fel y lefel ysgafnaf o gyfranogiad lle mae'r VPU yn dod yn 'ymwybodol' o'r holl fentrau a chyfleoedd atal trais drwy fapio ac ymchwil. Disgrifiodd partneriaid fod hyn wedi bod yn heriol ar adegau, oherwydd *"natur seilo gweithio".*
- **Eiriol:** Mae hyn yn golygu cael y wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio, beth mae hyn yn ei olygu, a sut y caiff hyn ei hyrwyddo wedyn i eiriol dros y VPU a'i waith i eraill megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau unigol.

- **Cynorthwyo:** Mae hyn yn cynnwys gwyliadwriaeth a dadansoddi data a defnyddio gwybodaeth a setiau data cyfunol i ddatgelu niwed cudd. Disgrifiodd partneriaid ddatblygiad y System Gwyliadwriaeth Trais, gyda rhai yn tynnu sylw at hanes hyn gan gyfeirio at Fodel Caerdydd (gweler Adran 2, Blwch 2 am fanylion).
- **Mabwysiadu:** Ystyriwyd mai dyma lefel uchaf y model, gan ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth ar draws sawl asiantaeth, ac mae'n cyfeirio at y gwaith a wnaed gan aelodau tîm y VPU ac at y gwaith a gomisiynir yn uniongyrchol.

> *"Mae gan Gymru hanes hir o weithio mewn partneriaeth ac mae'r angen i atal niwed wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth fel llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Felly mae'r hyn y gallwn ei wneud yn eithaf dylanwadol ym maes y partneriaethau oherwydd ein bod yn canolbwyntio cymaint ar atal, ac felly mae llawer o'r gwaith a wnawn yn gysylltiedig â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd strategol allweddol ac ati, a helpu pawb i fod yn fwy effeithiol o ran atal trais yn hytrach na bod yn dîm bach ar ffurf seilo sy'n gwneud ein pethau ein hunain gyda chomisiynu." (Partner VPU 1)*

Cydnabu'r partneriaid VPU fod gwahaniaeth mewn strwythurau gweithredu o ran yr hyn sy'n cael ei 'fabwysiadu' a'r hyn sy'n cael ei 'gomisiynu' gan y VPU. Daeth y mentrau a gomisiynwyd yn 2019/20 o 'gronfa gyfyngedig' o gyllid, ac fe'u disgrifiwyd fel rhai a dargedwyd at atal trais difrifol yn drydyddol a gweithio'n bennaf gyda'r rhai o dan 24 oed, gan fod hynny'n cyfateb i'r proffil problemau trais difrifol a'r proffil troseddau cyllyll. Teimlwyd, fodd bynnag, fod y rhain hefyd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau ehangach y VPU o ran bod yn 'ataliol ac yn llawer yn gynt yn y broses' ac yn canolbwyntio ar 'drais yn ei gyfanrwydd'.

## Ariannu a buddsoddi

Gweithiodd y VPU i gefnogi dulliau arloesol o atal trais ledled Cymru, yn rhannol, drwy gefnogi sefydliadau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth bresennol, neu ddatblygu a gweithredu ymyriadau newydd. Teimlwyd bod llawer o'r cysylltwyr VPU hyn yn "*hyrwyddwyr atal trais angerddol yn eu rhinwedd eu hunain* eisoes" a bod cyllid yn gweithredu fel 'galluogwr' i unigolion ddatblygu dull gweithredu yn hytrach na bod yn gwbl ddibynnol. Mae cyllid y VPU wedi galluogi rhai unigolion i neilltuo eu hamser i reoli a chyflawni eu rhaglenni gwaith; roedd hyn yn galluogi sefydliadau i ystyried ffyrdd arloesol o weithio. Siaradodd un o'r cyfranogwyr am fanteision dyrannu cyllid i'r trydydd sector gan ddweud eu bod yn gallu *"mynd drwy'r fiwrocratiaeth a dechrau cyflawni'n llawer cynt na'r rhan fwyaf o fathau eraill o sefydliadau, cyhoeddus, statudol ac rydym yn gallu dechrau cyflawni a chyrraedd lle mae ar y cymunedau ein hangen."*

Dywedodd un cyfranogwr fod ganddynt syniadau ar gyfer ymyriad a bod y chwistrelliad o gyllid gan y VPU wedi'u galluogi i ysgogi hyn. Roedd yn amlwg, heb y VPU, na fyddai'r adnoddau wedi bod ar gael gan wahanol adrannau i staff gael eu secondio i weithio ar ddarparu'r ymyriad.

Roedd yn amlwg o'r cyfweliadau bod y VPU wedi ymrwymo i ddeall sut roedd ymyriadau'n cael eu darparu 'ar lawr gwlad' a dysgu am brofiadau a heriau'r bobl sy'n eu darparu. Roedd y VPU wedi ymrwymo i sicrhau y gallai ymyriadau fwydo'n ôl a rhannu eu barn am yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu; disgrifiwyd hyn fel rhywbeth 'braf'.

*"[Mae gan y VPU] ddiddordeb mawr yn sut mae pethau ar lawr gwlad, beth rydyn ni'n ei glywed, beth yw'r heriau ac mae'n dda iawn gallu bwydo rhai o'r heriau i mewn....fel arfer pan fydd gennych heriau neu fod pethau na allwch eu rheoli mae elfen 'beth yw'r ots', ond oherwydd nad oes cyllid mae bron fel nad ydych am ofyn y cwestiynau oherwydd does dim y gallwch ei wneud am y peth... gyda'r uned drais mae ganddynt ddiddordeb pendant yn yr hyn sy'n digwydd, beth sydd angen ei wneud, beth sydd angen i ni fod yn edrych arno wrth symud ymlaen, sy'n eithaf braf mewn gwirionedd." (Ymarferydd Rheng Flaen 2)*

Darparwyd nifer o enghreifftiau lle'r oedd y VPU wedi galluogi i ymyriad gael ei gyflwyno. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth am sut yr oedd cydweithio wedi'i ysgogi ar draws y VPU, ac yn archwilio rhai o'r heriau a wynebir gan bartneriaid lleol (ceir enghreifftiau pellach yn yr Astudiaethau Achos (Adran 4):

- Siaradodd un cyfranogwr am sut yr oedd cyllid y VPU wedi eu galluogi i **ddatblygu ymyriad ymhellach**, a oedd wedi'i redeg yn bennaf o lwyfan digidol cyn hynny. Gyda'r arian VPU roeddent wedi gallu **cyflogi gweithiwr ieuenctid ychwanegol** ar gyfer de Cymru a fyddai'n mynd i ysgolion i hyrwyddo eu gwasanaeth ar gyfer adrodd yn ddienw am droseddu a darparu gwersi ynghylch blaenoriaethau'r heddlu megis troseddau cyllyll a llinellau sirol, a chynyddu ymwybyddiaeth o wahanol fathau o droseddu.
- Siaradodd ail gyfranogwr am greu dangosfyrddau ar gyfer carfan o droseddwyr yr oeddent yn gweithio gyda hwy, a **oedd yn eu galluogi i ddatblygu** argymhellion ynghylch mesurau ychwanegol y gallai'r rheolwyr troseddwyr eu gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar batrymau troseddu presennol a blaenorol, ACEs a'u hanghenion troseddol ac yna edrych ar sut beth oedd ar eu cynllun dedfryd a'u goruchwyliaeth gyfredol.
- Trafododd trydydd cyfranogwr sut yr oedd cyllid y VPU wedi eu galluogi **i adfywio ymyriad blaenorol a'i ddiweddaru yn unol â'r safonau presennol.** Roedd gan yr ymyriad hwn aelod o staff wedi'i dalu gan y VPU a oedd wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer hysbysebu eu gwasanaeth, gan arwain at ei lansio i fwy o bobl allanol nag y gellid bod wedi'i wneud fel arall (gan ei wneud yn fwy hygyrch i sefydliadau atgyfeirio i mewn fel y gellid gweld mwy o deuluoedd), ateb cwestiynau a chyfarfod â phobl ifanc a rhieni. Dywedasant eu bod yn gallu dechrau rhedeg yn gyflym oherwydd eu profiad blaenorol o gyflawni'r ymyriad: *"roeddem yn gallu dal y bêl a rhedeg gyda hi o le o safbwynt gwybodus".*

*"Nodwyd bod trais cynyddol yn y cartref gan blant a phobl ifanc i'w rhieni ac nad oedd unrhyw lwybrau atgyfeirio yng Nghymru mewn gwirionedd, felly dechreuon ni gyflwyno rhaglen o'r enw [enw], sy'n gweithio gyda'r rhieni yn meithrin eu hyder, eu hunan-barch a'u sgiliau rhianta. Gweithio gyda phlant o gwmpas yr hyn sy'n iawn, beth sydd yn erbyn y gyfraith, yr hyn sy'n gyfreithlon ac yna dod â hwy at ei gilydd. Wedi hynny, ar ôl tua thair blynedd o gyflawni hynny, nodwyd cryn dipyn o arian a'i roi i drais glasoed at rieni ac felly cawsom gryn dipyn o fewnlifiad o raglenni eraill yn dod i mewn i gyflwyno trais glasoed at rieni yng Nghymru. Felly, gan nad ydym byth yn ymwneud â dyblygu gwasanaethau, cymeron ni gam yn ôl a defnyddio canolfannau atgyfeirio.....ac yna daeth y cyllid i ben am nad oedd yn ffasiynol. ...ac yna fe'n gadawyd eto heb unrhyw wasanaethau felly bu'n rhaid i ni ail-greu bywydau cyfochrog, sef yr un sy'n cael ei ariannu mewn gwirionedd gan y VPU. (Ymarferydd Rheng Flaen 2)*

## Heriau i weithredu

Yn gyffredinol, cytunodd partneriaid fod VPU Cymru wedi datblygu'n effeithiol a'i fod i gyd wedi dechrau 'dod at ei gilydd' yn ystod y misoedd diwethaf. Fel y disgwyliwyd, roedd nifer o heriau wedi'u profi wrth weithredu'r VPU a gweithgareddau cysylltiedig.

Disgrifiwyd **tirwedd y bartneriaeth** yn 'aml yn heriol', gan y gallai fod yn 'anhygoel o anniben' ac roedd yn edrych yn wahanol ym mhob ardal. Disgrifiodd partneriaid VPU bwysigrwydd gallu sefydlu gwaith atal trais gyda phartneriaid ehangach yn yr ardaloedd lle ceir llawer o weithgarwch yng Nghaerdydd ac Abertawe, ond cydnabu hefyd fod materion fel llywodraethu a gwneud penderfyniadau yn cymryd 'cryn dipyn o waith i'w datrys'; fodd bynnag, nodwyd 'nad yw hyn yn wahanol i unrhyw le arall'.

Roedd **cyd-leoli** yn cael ei ystyried yn rhwystr posibl, gydag un cyfranogwr yn dweud nad oes lleoliad ganolog ar gyfer y VPU ar hyn o bryd, ond bod swyddfa wedi'i nodi. Teimlwyd y byddai lleoliad canolog yn galluogi mwy o ddealltwriaeth a chydweithio agosach â'r rhai yn swyddfa'r PCC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Teimlwyd y byddai bod yn yr un adeilad yn galluogi sgyrsiau i ddigwydd yn fwy rheolaidd ac yn annog gwell dealltwriaeth o atal trais a'r hyn yr oedd hyn yn ei olygu'n strategol ac yn weithredol.

> *"Mae gallu bod yn yr un adeilad â rhywun a gallu cael y sgyrsiau hynny lle rydych chi'n eistedd gyferbyn â rhywun yn llawer mwy buddiol na gweld rhywun unwaith yr wythnos. Ond mae hynny'n mynd i gael ei gywiro, mae gennym swyddfa yr ydym yn aros i fynd i mewn iddi felly rwy'n credu y bydd hynny'n helpu. Rwy'n credu bod ffin denau rhwng trosolwg strategol y prosiect fel canolfan ragoriaeth a bod yn rhywle y gall pobl fynd i ddeall am atal trais; a'r gangen weithredol lle rydym yn mynd allan ac yn gwneud rhywbeth i fynd i'r afael ag atal trais. Rwy'n credu bod angen gwneud ychydig o waith o hyd o gwmpas hynny." (Partner VPU 2/Ymarferydd Rheng Flaen 1)*

Disgrifiodd dau o'r ymarferwyr rheng flaen sut yr oeddent wedi'i chael yn anodd yn ystod mis cyntaf o weithredu eu menter gan na fu gwasanaeth blaenorol i seilio eu hymyriad arno. Yma, disgrifiodd yr ymarferwyr sut y byddent wedi elwa ar fwy o arweiniad gan asiantaethau allanol am yr hyn yr oeddent yn ei ddymuno. Er gwaethaf eu heriau cychwynnol, roedd yr ymarferwyr hyn yn mynd i'r afael â'r materion ac wedi datblygu ymyriad cryf.

> *"Doedden ni erioed wedi cwrdd â'n gilydd, cawsom ein rhoi gyda'n gilydd gydag ychydig iawn o arweiniad gan unrhyw un i'w sefydlu felly fe wnaethom ni gael trafferth, do, am y mis cyntaf. Oherwydd doedden ni ddim yn gwybod beth i'w wneud mewn gwirionedd." (Ymarferwyr Rheng Flaen 6 a 7)*

Cynhaliwyd y gwerthusiad hwn cyn ac yn ystod pandemig COVID-19. Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19 a bu llawer o gyfweleion yn myfyrio ar eu profiadau o'r sefyllfa hon. Mae Adran 6.1 yn rhoi rhagor o fanylion am effaith ac ymateb COVID-19.

## Cydweithio ychwanegol i'w hystyried gan VPU Cymru

Tynnodd nifer o'r cyfranogwyr sylw at y ffaith y byddai'n fuddiol cynnwys gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau ychwanegol yn y VPU. Yma, roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- **Defnyddio'r gwasanaeth nyrsys ysgol**: awgrymwyd, gan fod nyrsys iechyd ysgol ynghlwm wrth bob ysgol uwchradd yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro ac yn cael eu hadnabod gan y plant, y gallent ddarparu cyfleoedd diogelu o ran datgelu, a hefyd fod yn ffynhonnell wybodaeth y gellid ei chasglu

a'i defnyddio yn y dyfodol. Awgrymwyd y gallent weithio ar y cyd/cydweithio ag Fearless[1] a oedd hefyd yn mynd i ysgolion.

> *"... bydd y disgyblion yn aml wrth eu bodd yn cael sgwrs, ond efallai na fyddant mor agored gyda swyddogion yr heddlu'n dod i mewn i ysgolion ac ati, tra bod y nyrsys ysgol yn gwneud gwasanaethau galw heibio o fewn yr ysgolion felly awgrymais wrth symud ymlaen fod angen i ni fod yn defnyddio'r gwasanaeth nyrsio ysgol, nid eu bod yn cymryd drosodd oddi wrth Fearless, ond yn gweithio mewn cydweithrediad â nhw felly pan fydd Fearless yn mynd i mewn i ysgolion uwchradd mae'r nyrs ysgol yno gyda nhw oherwydd bod y nyrs ysgol yno bob wythnos yn galw heibio, a gall y bobl ifanc fynd i'w gweld a gallent ddatgelu gwybodaeth. Efallai na fyddant o reidrwydd yn ffonio 101 na llinell gymorth Fearless ac ati, ond o weld y nyrs ysgol honno o amgylch yr ysgol mae'n fwy tebygol o'u hannog i ymgysylltu..." (Ymarferydd Rheng Flaen 5)*

- Cynnwys ymarferwyr o'r **YOT/YOS (Tîm/Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid), seicoleg fforensig** a **chymorth iechyd meddwl**: teimlwyd y byddai'r rolau hyn yn helpu gwasanaethau i ymgysylltu'n well â dioddefwyr a chyflawnwyr trais domestig. Awgrymwyd hefyd y byddai rhywun o'r **cyngor lleol** â mynediad at dai a budd-daliadau, er enghraifft, yn ei gwneud yn *"haws rhoi gwasanaeth cofleidiol o amgylch y person"*.
- Canolbwyntiodd trafodaeth gan un cyfranogwr ar fylchau mewn cyflwyno'r VPU yn dactegol ac uno popeth gyda'i gilydd er mwyn gweithredu'r theori, gan esbonio *"Rwy'n credu mai dyna lle nad ydym wedi cyrraedd eto"*. Teimlai'r unigolyn hwn hefyd y dylai'r VPU gynnwys cynrychiolaeth gan yr **awdurdod lleol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac addysg** – roeddent yn teimlo bod hyn yn bwysig iawn wrth edrych ar blant sy'n derbyn gofal **a** gwaharddiadau – a nododd fod Pennaeth y VPU yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a fyddai'n ceisio rhoi rhywun ar waith.

## 3.2 Cyd-gynhyrchu

> Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn datgan y dylai gweithgareddau atal trais gael eu llywio gan ystod eang o safbwyntiau sy'n cynnwys cyd-gynhyrchu a chyd-frandio gweithgareddau. Mae cynnwys y gymuned yn agwedd bwysig ar gyd-gynhyrchu.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) [9] yn gosod gofyniad statudol ar wasanaethau yng Nghymru i ymgorffori cyd-gynhyrchu wrth ddarparu gwasanaethau, ac yn hynny o beth, mae gwasanaethau (e.e. gwasanaethau amddiffyn plant) yn cyflwyno sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig' i ddeall anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae cyd-gynhyrchu yn egwyddor allweddol a argymhellwyd gan y Swyddfa Gartref i sicrhau bod lleisiau ac anghenion cymunedau lleol yn cael eu hadlewyrchu mewn mentrau.

[1] Mae Fearless yn rhan o Crimestoppers – dechreuodd fel gwasanaeth addysg ac yng Nghymru mae'n bartner i School Beat a'r Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan. Mae eu gweithwyr ieuenctid yn mynd i ysgolion ac yn siarad â phobl ifanc am wahanol droseddau ac adrodd am droseddau. Mae hyn wedi cynnwys datblygu gwersi o amgylch llinellau sirol a throseddau cyllyll ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau plismona allweddol sy'n ymwneud â thrais difrifol.

## Cyd-gynhyrchu â sefydliadau eraill

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell bod partneriaid lleol yn gweithio i gyd-gynhyrchu cynllun gweithredu a strategaeth sy'n cwmpasu ystod eang o safbwyntiau. Nod VPU Cymru yw datblygu ymateb systemau cyfan i atal trais, gan weithio mewn partneriaeth i nodi sut i ddatblygu systemau, prosesau ac arferion er mwyn atal trais yng Nghymru yn well.

Yn ystod y cyfweliadau â rhanddeiliaid, rhoddwyd enghreifftiau penodol i ddangos sut mae sefydliadau partner yn cael eu hannog i ymgysylltu ag eraill a rhannu syniadau drwy weithdai VPU a chyfarfodydd rheolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd a byrddau y tu allan i'r VPU (fel Byrddau Diogelwch Cymunedol a rhannu gwybodaeth). Gobeithiai partneriaid y byddai'r VPU yn ddylanwadol ac yn effeithio ar benderfyniadau polisi, buddsoddi ac ymyrryd a gwelwyd tystiolaeth o hyn drwy gydol yr holl gyfweliadau. Gwelwyd bod manteision y VPU yn bellgyrhaeddol ac i bawb yng Nghymru ar draws pob cymuned, gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector.

Disgrifiodd partneriaid sut roedd y VPU yn datblygu rhwydweithiau i alluogi sefydliadau i rannu enghreifftiau o arfer gorau a disgrifiodd sut y byddai hyn yn galluogi sefydliadau i gael profiad mewn agweddau eraill ar atal. Er enghraifft, disgwylid y byddai gwybodaeth yr heddlu yn elwa drwy gael gwell dealltwriaeth o niwed cudd mewn cymunedau. Disgrifiodd cyfranogwr arall sut yr oedd eu hymyriad yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu prosesau cyfredol ar waith gyda'r adran achosion brys i symleiddio'r broses o nodi unigolion sy'n cael eu derbyn ag anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais.

Gwelwyd rhannu arfer gorau hefyd drwy gyfathrebu ag Unedau Lleihau Trais (VRU) eraill. Er enghraifft, disgrifiodd Pennaeth y VPU ei fod mewn cysylltiad â VRU yr Alban gan geisio "meithrin eu *naw neu ddeng mlynedd o ddysgu i sut y gallem fwrw ati ar unwaith ac roeddent yn hynod o gymwynasgar ac ymarferol iawn yn rhai o'r pethau y gallem eu gwneud yn y lle* cyntaf ". Roedd elfennau penodol yr ystyriwyd eu bod yn syml ac yn hawdd i'w gweithredu ac a oedd wedi gweithio'n dda, yn cynnwys:

- Bod lle allweddol ar gyfer cydbwyso gorfodi'r gyfraith a gweithgarwch ymchwydd ac arestio pobl sy'n cario cyllyll fel rhan allweddol o atal trais, felly ymuno'n agos â'r heddlu; a
- Wrth chwilio am hyrwyddwyr a gweithio gyda ffrindiau, peidiwch â threulio llawer o amser yn ceisio argyhoeddi pobl nad ydynt am weithio gyda chi i weithio gyda chi, cadwch at y rhai sydd am wneud hynny.

## Cyd-gynhyrchu o fewn y gymuned

> *"Mae'n gymysgedd gwirioneddol i aelodau cyswllt...... ond rydym wedi cyrraedd tua 20 aelod ar hyn o bryd... rydym am fod yn ddylanwadol ledled Cymru felly mae gennym gydlynwyr trais difrifol hefyd wedi'u hymgorffori yn Heddluoedd eraill Cymru ac roedd hynny'n sgwrs gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eraill i ariannu'r rôl honno felly mae gennym gyswllt ar lawr gwlad ag ardaloedd eraill Cymru." (Partner VPU 1)*

Roedd cyfweliadau â phartneriaid yn dangos bod trais yn cael ei ystyried yn fater trawsbynciol ac yn 'fater i bawb'. Ystyriwyd bod cynnwys partneriaid a'r gymuned ehangach yn hanfodol i gyd-gynhyrchu VPU Cymru. Nid ystyriwyd bod cael cefnogaeth i fynd i'r afael â mater yr un fath â'r mater hwnnw'n cael ei weld yn 'flaenoriaeth

sefydliadol', felly **roedd ymgorffori trais fel blaenoriaeth** ym mhob sefydliad yn nod cyffredin.

Adlewyrchwyd hyn o fewn y gwahanol lefelau o aelodaeth a oedd yn bresennol o fewn y VPU (a nodir yn Adran 1. Cydweithio). Roedd yr ystod o aelodau yn rhoi arweiniad a mewnweledial i'r VPU am y gweithgareddau mewn mannau lle ceir llawer o weithgarwch ac roedd ganddynt wybodaeth ehangach am 'Gymru gyfan'. Dywedodd Pennaeth y VPU fod ymwybyddiaeth o'u gwybodaeth eu hunain am unigolion a oedd yn gweithio yn y maes a oedd yn 'hollol wych' a'r rhai yr oeddent yn gwybod eu bod '*am eu cynnwys oherwydd... byddent yn ddefnyddiol*'. Cysylltodd Pennaeth y VPU yn uniongyrchol â'r aelodau (cyswllt) hyn o'r VPU, ac anfonwyd llythyr ffurfiol atynt hefyd. Roedd y llythyr hwn yn rhoi manylion penodol ynghylch pam yr oeddent [y Cyfarwyddwr] am iddynt ymuno, yr hyn yr oeddent yn gobeithio y byddai'r VPU yn ei gael drwy eu cael yn aelod a'r hyn yr oeddent yn gobeithio y byddai'r unigolion yn ei gael yn gyfnewid, er enghraifft, cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus a chyfleoedd iddynt fod yn fwy dylanwadol yn y tirlun atal trais. Un o'r sefydliadau a drafodwyd oedd Cymorth i Fenywod Cymru (WWA); yma teimlwyd bod tebygrwydd gan eu bod yn gweithredu fel sefydliad ymbarél ar gyfer atal DA yng Nghymru a theimlwyd y byddai'r WWA, fel uned newydd, yn gallu cynghori'r VPU o amgylch DA ond hefyd o'u profiad o'r hyn a oedd yn gweithio iddynt hwy.

### Cyd-gynhyrchu ymyriadau gyda defnyddwyr gwasanaethau

Mae'r VPU wedi ymrwymo i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau i ddeall yn well sut i fynd ati i atal trais yng Nghymru a'r materion allweddol y mae angen eu hystyried. Mae gwaith cyd-gynhyrchu yn cael ei wneud gan Barnardos; enghraifft yma yw lle bu Barnardos yn gweithio gyda phobl ifanc yn ystod cynhadledd VPU Cymru, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli a'u hystyried o fewn cylch gwaith y VPU.

Yn ystod y cyfweliadau, siaradodd dau o'r cyfranogwyr am eu hymyriad a sut yr oeddent yn gweithio gyda'r rhai mewnol ac allanol i'w rhaglen/sefydliad i ddatblygu'r ymyriad. Er enghraifft, roeddent wedi gwneud gwaith cyd-gynhyrchu gyda Barnardos a oedd yn golygu mynd i garchar lleol i gynnal rhai grwpiau ffocws; roeddent yn rhannu gwybodaeth a phryderon gyda'r Heddlu ynghylch unrhyw rai o'r unigolion a oedd yn cymryd rhan yn eu peilot o'r rhaglen; a siaradasant hefyd am weithio gyda rheolwyr troseddwyr i gyflawni gwaith un-i-un gyda throseddwyr.

> *"Felly roeddwn wedi cael amser i gamu'n ôl ychydig ac edrych ar bopeth sydd allan yno ac awgrymu ffyrdd o weithio gyda nhw ac yna'r nod oedd eistedd i lawr gyda'r rheolwyr troseddwyr, mynd drwy'r peth gyda nhw i weld beth oedden nhw'n teimlo y gallai weithio. Pe baent yn meddwl mai fi oedd yn y sefyllfa orau, yna gallwn wneud rhywfaint o'r gwaith un i un gyda hwy, pe bai gan y rheolwr troseddwyr berthynas dda iawn â hwy efallai mai mater iddynt hwy oedd gwneud hynny, ac yna wrth fynd ymlaen roeddwn yn nodi unrhyw asiantaethau eraill yn y trydydd sector i weld a oes ganddynt bethau a byddai'n golygu cysylltu â hwy a chael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sydd ar gael." (Ymarferydd Rheng Flaen 4)*

## 3.3 Cydweithio mewn Dadansoddi Data a Rhannu Gwybodaeth

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn datgan bod cydweithredu wrth ddadansoddi data a rhannu gwybodaeth yn bwysig ar gyfer unrhyw ddull iechyd y cyhoedd. Cydnabyddir y gall y broses hon fod yn her, ond dylai partneriaid weithio'n gydweithredol i ddatblygu dulliau effeithiol o rannu data.

Argymhellir bod partneriaid lleol yn deall y data a gesglir ar draws y system, yn cytuno pwy ddylai fod yn gyfrifol am gyfuno, dadansoddi a dehongli'r data, a defnyddio'r data'n effeithiol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Fel y disgrifiwyd yn Adran 2, mae VPU Cymru wedi datblygu asesiad strategol o anghenion i ddarparu asesiad llinell sylfaen o drais difrifol gan bobl ifanc yn Ardal Heddlu De Cymru, gan ddwyn ynghyd ddata o amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y VPU i sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae VPU Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu System Gwyliadwriaeth Trais (VSS), gan ddefnyddio setiau data i adrodd y darlun cywir o drais mewn cymunedau a llywio a chyfarwyddo ymdrechion diogelwch cymunedol lleol. Gweithredwyd y VSS i ddechrau yng Nghaerdydd, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf i'w gynyddu'n ddiweddarach i gynnwys Cymru gyfan. Hysbyswyd y VSS gan Fodel Caerdydd. Gweler Adran 2, Blwch 3 am ragor o fanylion. Cyflwynir safbwyntiau partneriaid ar gydweithio wrth ddadansoddi data a rhannu data isod.

### Rhannu Data

Disgrifiodd yr holl bartneriaid fod parodrwydd i rannu data gyda'r VPU 'mewn egwyddor ac ar lefel uchel' a bod sefydliadau/gwasanaethau yn edrych ar sut i wneud hynny a pha bolisi a chymorth cyfredol a allai fod ar waith i helpu i hwyluso hyn. Disgrifiwyd heriau logistaidd rhannu data. Siaradodd un o bartneriaid y VPU am y VSS a sefydlwyd i ddechrau yn 2014, a oedd yn eistedd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac a oedd bellach yn cael ei ariannu gan y VPU. Dywedwyd mai diben hyn oedd dwyn ynghyd ddata'r heddlu ac iechyd i ddarparu *"cynrychiolaeth fwy cyfannol o drais ar lefel leol*". Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith ei bod yn bwysig edrych ar sut i ymgysylltu â phartneriaid a nodi pwy allai fod y mwyaf defnyddiol i ddarparu data.

> *"daeth y [cyllid] i ben y llynedd ond teimlwyd, ar ôl sefydlu'r system gwyliadwriaeth trais yn ne Cymru ac i lefel benodol mae'n gweithio ac yn cael ei defnyddio gan rai partneriaid ond nid pob partner, teimlwyd ei fod yn rhywbeth y byddem yn gallu ei ddatblygu ac roedd yn rhywbeth a oedd yn unigryw iawn i Gymru." (Partner VPU 3)*

Cydnabuwyd y gallai diffyg posibl o ran cyfleoedd ariannu ar y cyd atal partneriaid rhag cymryd rhan yn y VSS. Teimlai'r cyfranogwr fod gallu mynd at y partneriaid hynny (fel HMPPS, Cymorth i Fenywod Cymru, Barnardos) a oedd eisoes wedi rhoi lefel o ymrwymiad i'r VPU yn bwynt da a rhesymegol i ddechrau. Ystyriwyd bod cael *"yr unigolion cywir o amgylch y bwrdd....ac ar y lefel gywir"* yn ffactor hanfodol o ran sicrhau cynaliadwyedd y system gwyliadwriaeth. Allbwn cyffredinol ar gyfer yr holl ddata a gasglwyd oedd creu system dangosfwrdd fel y gallai partneriaid ddod i mewn a chael gafael ar yr hyn yr oedd ei angen arnynt. Y gobaith oedd y byddai'r holl ddata a gasglwyd wedyn yn galluogi'r dadansoddwyr i allu creu darlun gwybodus (drwy, er enghraifft, trawsbroffilio data) o sut roedd ymddygiadau yn y mannau o weithgarwch yn newid, gan ddarparu tystiolaeth, er enghraifft, i bartneriaid ei defnyddio mewn grwpiau atal trais lleol.

### Casglu data

Siaradodd pob un o'r cyfranogwyr am y gwahanol fathau o ddata a gasglwyd ar draws mentrau'r VPU, gydag ymarferwyr yn rhoi enghreifftiau o ddatblygu a diweddaru systemau i gasglu gwybodaeth am eu hymyriadau. Roedd pwysigrwydd casglu data cadarn yn flaenoriaeth glir.

> *"[mae'r system wyliadwriaeth] yn ceisio creu'r ddealltwriaeth honno ledled e Cymru i'r rhai sydd mewn perygl o drais er mwyn galluogi atebion lleol a darparu llwyfan i aml-asiantaethau ddefnyddio data a gesglir fel mater o drefn i fesur effaith ymyriadau....ac mae hyn yn sicr yn rhywbeth y mae angen ei ddatblygu o ran gallu mesur effaith y system gwyliadwriaeth." (Partner VPU 3)*

Rhoddodd dau ymarferydd rheng flaen enghreifftiau o ddiweddaru eu systemau casglu data i gasglu gwybodaeth am gleifion troseddau cyllyll, gan gynnwys ble y digwyddodd eu hymosodiad, o ble yr oeddent yn dod, unrhyw waith/cyfeirio ychwanegol, unrhyw agweddau agored i niwed ac unrhyw waith diogelu.

> *"Ni roddwyd unrhyw ofynion i ni o ran data i ddechrau gan yr Heddlu, ni wnaethant ddweud wrthym beth fyddai ei angen arnynt ar ddiwedd y prosiect, ni wnaethant roi llinell ganlyniadau na dim byd tebyg i hynny i ni felly am y ddau neu dri mis cyntaf roeddem yn dilyn ein trwynau" (Ymarferwyr Rheng Flaen 6 a 7)*

Disgrifiodd dau ymarferydd rheng flaen arall sut yr oedd ganddynt brofiad o gasglu'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar y Bwrdd Iechyd ynghylch caniatâd, cyfrinachedd a risg, a'u bod hefyd wedi datblygu eu ffurflen casglu data eu hunain ar y cyd â sefydliad arall a oedd â gweithiwr ieuenctid mewn swydd yn yr adran frys i sicrhau bod y wybodaeth yr oeddent yn *'ei choladu gyda chleifion yn symleiddio atgyfeiriad ymlaen* atynt'.

> *"... rydym wedi bod ar daith ddysgu mewn gwirionedd oherwydd dyma flwyddyn 1af y prosiect. Rydyn ni wedi... wedi bod yn defnyddio'r ffurflenni adborth syml hyn ar y diwedd, sy'n ymwneud â gwirio'r hyn y maent yn ei wybod am [enw'r ymyriad] a pha mor hyderus y byddent i'w ddefnyddio. Ond yr hyn nad ydym wedi'i fesur mewn gwirionedd....[yw] eu pellter a deithiwyd o ran eu gwybodaeth am droseddau cyllyll a thrais difrifol.. ... (Ymarferydd Rheng Flaen 3)*

Siaradodd yr ymarferwyr hyn hefyd am ddefnyddio system rhannu gwybodaeth PARIS, a oedd yn gysylltiedig ag ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, paediatregwyr, iechyd meddwl cymunedol a gwasanaeth iechyd meddwl plant fel y gallent gael y wybodaeth ddiweddaraf am gleifion. Trafododd yr ymarferwyr hefyd ddefnyddio'r Canolfannau Aml-asiantaeth (MASH) i rannu gwybodaeth, gan ddisgrifio hyn fel *"lle mae'r gwasanaethau plant, iechyd, yr heddlu, yn adolygu'r holl drais yn y cartref a ffurflenni atgyfeirio amlasiantaeth*".

> *"Maen nhw'n gallu ei weld hefyd felly gallan nhw weld ein nodiadau ni, nodiadau pawb arall a gallwn ni wneud cymhelliant uniongyrchol hefyd felly mae gen i glaf sydd wedi bod i mewn heddiw ac rwyf wedi hysbysu ei waith CAMHS, felly ei weithiwr Iechyd Meddwl Cymunedol ei fod yn yr adran a dyna sut rydym yn hysbysu'r nyrsys ysgol os ydym wedi cael person ifanc yn dod i mewn sydd wedi bod yn taro waliau am eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â materion gartref." (Ymarferydd Rheng Flaen 6 a 7)*

## Prosesu a dadansoddi data

Disgrifiodd partneriaid fod ganddynt lawer o ddata ond nid o reidrwydd yr adnoddau i allu eu dadansoddi a'u deall. Darparwyd enghraifft lle mae gan yr awdurdodau lleol ddata, ond oherwydd toriadau, nid oes ganddynt ddadansoddwr o reidrwydd. Yn ogystal, er y gall fod cytundebau'n cael eu gwneud mewn egwyddor ynghylch rhannu'r data hyn, yna roedd ystyriaethau ynghylch llywodraethu gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol am y data hyn a sut yn union y bydd/y gellir eu rhannu, a olygai fod data gan bartneriaid megis gofal cymdeithasol ac addysg ar goll. Ystyriaeth arall oedd lle'r oedd dadansoddwyr yn bresennol, ond nid oeddent yn gwybod beth i'w wneud â'r data. Tynnodd un o'r cyfranogwyr sylw hefyd at bwysigrwydd darparu data mewn modd amserol fel bod gan holl aelodau'r VPU ymwybyddiaeth o'r data a oedd yn cael ei gasglu.

*"Rhwystr gwirioneddol yw dod o hyd i rywun o fewn y sefydliad sy'n gwybod pa ddata sydd ganddynt, sy'n gwybod beth mae'n ei olygu a sut y gellir ei ddehongli fel ein bod yn gwybod ein bod yn gofyn am y wybodaeth gywir... sut mae dod o hyd i'r person cywir hwnnw sy'n gwybod pa ddata y maent yn ei gasglu, ond a fyddai wedyn yn gallu cael gafael arno ar ein rhan. Nid yr un ydyw person bob amser a chyda'r Heddlu gyda'r diffyg dadansoddwyr sydd ganddynt a gall eu trosiant pan fydd ganddynt ddadansoddwyr fod yn eithaf cyflym. Er y gall rhywun fod ar waith ac yna mae'n gadael ac mae'n rhaid i chi aros i rywun arall ddod i mewn." (Partner VPU 3)*

Gwelwyd bod cael gafael ar ddata 'lefel bersonol' yn rhwystr i rannu/casglu data. Teimlai un cyfranogwr fod angen gwaith o amgylch 'newid diwylliannau' o amgylch data a bod y 'pryderon' ynghylch data yn dal yno. Gwelwyd y byddai goresgyn y rhwystrau hyn yn helpu i allu datblygu proffiliau unigolion a fyddai'n galluogi gwasanaethau/sefydliadau i gymryd rhan mewn gwaith ataliol.

*"Felly doeddwn i ddim yn ymwybodol, ac rydych chi'n ceisio cadw ymlaen at bobl o gwmpas y data hwnnw'n gyson, felly ers mis Ionawr rwyf newydd ddarganfod bod pedair ar hugain o ymosodiadau cyllyll wedi mynd drwy'r adran achosion brys, ond pwy yw hynny, efallai fod hynny wedi'i rannu gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer eu data o ran creu'r adroddiadau, ond nid yw hynny wedi'i rannu fel uned...." (Partner VPU 4)*

Gwelwyd bod y VPU wedi buddsoddi'n helaeth yn ei swyddogaeth ddadansoddol, gyda dau ddadansoddwr iechyd cyhoeddus yn gallu dadansoddi'r data a dechrau adrodd stori gydag ef, dehongli'r data a'i gymhwyso i arfer strategol a gweithredol o safbwynt iechyd y cyhoedd yn hytrach na dim ond cyflwyno siartiau a graffiau. Teimlwyd bod y swyddogaeth ddadansoddol hon yn *"rhan wirioneddol allweddol o'r uned"* a bydd yn helpu'r VPU i atal trais ledled Cymru, nid yn unig yn y mannau â llawer o weithgarwch lle mae'r ymyriadau wedi'u hariannu.

*"Felly, er enghraifft pe baech yn edrych ar blant 16 oed, pa blant sydd wedi'u gwahardd neu blant sy'n derbyn gofal, pa blant sydd â marciwr ar gyfer trais neu iechyd meddwl efallai neu ba un bynnag y byddech yn ei ddefnyddio, ac yna defnyddio rhyw fath o dechnoleg yn y cefndir byddech wedyn yn dweud wel gan ddefnyddio'r holl ffactorau hyn ar gyfer yr ardal ddaearyddol hon yn seiliedig ar eich asesiad o anghenion, y pump, deg, pymtheg o blant hyn fyddai'r rhai sydd fwyaf mewn perygl yn ein barn ni. Beth am fynd i ryngweithio â nhw a gweld a allwn ddod i mewn yn gynnar yn hytrach nag aros iddynt droseddu cyn i ni roi'r holl brosesau hynny ar waith, chi'n gwybod mae atal yn well na gwella on'd ydy" (Partner VPU 4)*

Roedd y VPU hefyd wedi cynnal gweithdai data a gweithgorau gyda nifer dda yn bresennol ynddynt *ond "trosglwyddo'r parodrwydd hwnnw i rannu yn ddeunydd yn cyrraedd, mae'n rhaid i'n dadansoddwyr wneud cryn dipyn o waith ar hynny... rydym yn gobeithio yn y dyfodol y bydd hynny'n*

*dod yn haws fyth."* Roedd y VPU wrthi'n recriwtio dadansoddwr gwybodaeth yr heddlu. Teimlwyd y byddai cael y dadansoddwyr iechyd cyhoeddus a dadansoddwyr yr Heddlu yn darparu '*tîm pwerus iawn'* oherwydd y gwahanol setiau sgiliau y byddent yn eu cynnig. Gwelwyd eu bod yn gallu lleihau ymchwiliadau mawr i argymhellion diriaethol, gydag iechyd y cyhoedd yn cael ei ystyried yn *"arbenigwyr o ran gallu mynd i lawer o wahanol systemau a thrin data mawr".*

Gwelwyd bod rôl y dadansoddwyr yn helpu i ddatgelu niwed cudd y teimlwyd eu bod yn bwysig eu hymgorffori mewn atal trais, er enghraifft, camddefnyddio cyffuriau a phobl yn '*marw'n dawel*' o orddosau cyffuriau.

## Datblygu fframwaith gwerthuso

Ystyriwyd bod datblygu proses safonol i ddangos tystiolaeth o effaith VPU Cymru yn flaenoriaeth er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio a llywio penderfyniadau ariannu yn y dyfodol.

> *"Nid yw hyn yn unigryw i ni, ond un mater yw bod bwlch gwirioneddol o ran gwerthuso a'r hyn sy'n gweithio o ran atal trais. Roeddwn i'n gwybod bod rhai bylchau yno, ond mewn gwirionedd, y mwyaf rydym wedi gweithio fel VPU rydym wedi sylweddoli hyd yn oed pan fydd pobl yn dweud bod ymyriadau penodol yn cael eu gwerthuso pan fyddwch chi'n crafu'r wyneb, dydyn nhw ddim, mae'n arwynebol iawn. Felly un o'r pethau wrth weithio gydag ef, gyda LJMU yw fframwaith gwerthuso priodol ar gyfer yr holl waith a wnawn ni a'n darparwyr a bydd hynny'n rhoi darlun llawer mwy cyfannol i ni o'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud a'r effaith rydym yn ei chael ac mae'r darparwyr yn ein cael ac yn bwysig yn ein helpu i dargedu'r cronfeydd cyfyngedig yn llawer mwy effeithiol." (Partner VPU 1)*

Byddai gwerthuso hefyd yn darparu tystiolaeth i lywio ble a sut y gellid cynyddu ymyriadau, er enghraifft, o fewn cwmpas comisiynu awdurdodau lleol. Dywedodd un cyfranogwr fod yr holiadur a ddatblygwyd gan y tîm gwerthuso (fel rhan o ddatblygiad y fframwaith gwerthuso safonol) mewn sefyllfa dda gan ei fod yn cynnwys cwestiynau ynghylch llesiant ac nid dim ond am yr hyn yr oeddent wedi'i wneud (o ran gweithgarwch troseddol) a ble maent yn awr, *ond "teimlo'n ddiogel yn y gymuned neu'n teimlo'n bryderus",* yr oeddent yn eu hystyried yn '*bwysig iawn*'. Fodd bynnag, trafododd un cyfranogwr ei bod yn bwysig cael cydbwysedd rhwng 'yr ymchwil' a gallu ei weithredu'n amserol; gan dynnu sylw at yr angen i droi argymhellion ymchwil yn '*weithredu tactegol a gweithredol*'.

Cydnabu partneriaid fod yn rhaid bod yn ofalus wrth ymdrin â data o ran yr hyn sy'n cael ei ddadansoddi a'r tybiaethau a dynnir ohono, ac na ddylai mesurau fod yn '*rhy syml*'. Gwelwyd ei bod yn '*gwneud synnwyr*' mesur allbynnau fel nifer y troseddau cyllyll a gofnodwyd, ond cydnabuwyd ei bod yn bwysig edrych ar yr hyn a oedd yn digwydd y tu ôl i'r ffigurau hyn er mwyn adrodd y stori lawn. Er enghraifft, gwelwyd bod yr Eiriolwyr Nyrsio yn ymgysylltu'n llwyddiannus â phobl ar *'adeg y gellir eu haddysgu*', na fyddent o reidrwydd yn y gorffennol wedi adrodd beth oedd wedi digwydd iddynt, felly '*niwed cudd*', ac o ganlyniad i hyn, roedd adrodd wedi cynyddu mewn gwirionedd. Ymyriad newydd oedd hwn, y teimlwyd ei fod yn arwain at ganlyniadau da iawn am '*gost isel iawn*'.

> *"Bydd yn helpu gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach i wneud penderfyniadau da iawn ynghylch ble i gael yr enillion gorau ar gyfer eu buddsoddiad gydag arian cyfyngedig." (Partner VPU 1)*
>
> *"Os nad ydyn ni'n gwybod beth sy'n gweithio yna gallem fod yn bwrw ymlaen â rhywbeth nad yw'n cael unrhyw effaith o gwbl ac nid yw hynny'n helpu neb." (Partner VPU 2/Ymarferydd Rheng Flaen) 1)*

*"Un o'r ymyriadau arbennig o effeithiol sydd gennym yw ein Heiriolwyr Nyrsio sy'n gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys brysur yng Nghaerdydd ac sy'n gweld y rhan fwyaf o'r anafiadau troseddau cyllyll a bydd pob un o'r eiriolwyr hynny ar gyfer y partïon a anafwyd yn y foment addysgu honno, yn siarad â nhw am yr hyn sydd wedi mynd o'i le ac yn gweithio'n agos iawn â nhw. Mae gennym drefniant lle gellir eu derbyn yn dechnegol i'r ysbyty i atal y cloc A & E a rhoi amser iddynt wneud hynny ac yna llwybr atgyfeirio i Ymddiriedolaeth St Giles hefyd. Rydym wedi canfod, er enghraifft, fod 96% o'r bobl y maent yn ymgysylltu â hwy yn barod i siarad â hwy ond mewn gwirionedd bydd y rhan fwyaf ohonynt yn y pen draw hefyd yn adrodd i'r heddlu am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt. Felly eto ar yr adeg addysgu honno, mae'r cyfle hwnnw yno a'r gwir amdani yw nad oedd hynny yno nes i ni ei gomisiynu ac mae'n gost isel iawn mewn gwirionedd." (Partner VPU 1)*

Nodwyd bod adrodd a dehongli data'n gywir yn rhan annatod o ddeall effaith VPU Cymru. Darparwyd enghraifft o ran y posibilrwydd o dangofnodi ffigurau a gasglwyd yn yr ysbytai ynghylch troseddau cyllyll, tra nododd un arall y gallai canlyniad cofnodi gwell fod yn gynnydd mewn trais domestig, trais difrifol a thrais sy'n gysylltiedig â gangiau.

*"Os ydym yn siarad am atal gwirioneddol, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn nad ydym yn mesur y pethau anghywir nac yn cael rhyw fframwaith perfformiad rhyfedd sy'n annog cydio mewn pethau sy'n edrych yn wych ar bapur ond nad ydynt yn y hirdymor yn cadw cymunedau'n fwy diogel." (Partner VPU 1)*

## 3.4 Gwrth-Naratif

**Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio'r gwrth-naratif fel un sy'n rhoi negeseuon cadarnhaol i bobl ifanc i wrthsefyll unrhyw negeseuon negyddol y gall pobl ifanc eu clywed. Mae angen i bartneriaid ymrwymo i ddatblygu amgylcheddau amddiffynnol sy'n helpu i atal trais ac i hyrwyddo dulliau ataliol er mwyn lliniaru trais. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys adnabod a nodi data a ffactorau amddiffynnol a darparu llwybrau amgen, yn enwedig i blant a phobl ifanc.**

### Nodi agweddau agored i niwed, risg a ffactorau amddiffynnol

Gwelwyd tystiolaeth o weithgareddau i hyrwyddo gwrth-naratif drwy gydol y cyfweliadau â phartneriaid allweddol, a ddisgrifiodd sut mai uchelgais gyffredinol y VPU yw nid yn unig atal troseddu, ond deall achosion trais a lleihau'r risg o niwed. Roedd y cyfweleion o'r farn bod atal trais yn drawsbynciol, gan roi cyfle i sefydliadau gael sgyrsiau am faterion heriol, gan gynnwys iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc.

Cydnabu partneriaid bwysigrwydd deall y ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i drais, megis camddefnyddio cyffuriau, a phwysigrwydd gweithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed. Siaradodd pob un o gyfranogwyr y cyfweliad hefyd

*"Rwy'n credu nad yw difrifoldeb y peth yn cael y sylw cywir gan rai sefydliadau ar hyn o bryd. Er mwyn atal trais mae'n rhaid i ni hefyd ganolbwyntio'n wirioneddol ar gamddefnyddio cyffuriau ac yn enwedig dargyfeirio ac ymyrryd o amgylch hynny."* (Partner VPU 1)

am yr angen i weithio gydag unigolion sydd mewn perygl uchel neu uchel iawn o fod yn ddioddefwyr ac yn gyflawnwyr trais. Cydnabu partneriaid rôl ACEs fel dull datblygedig o ddeall sut mae'r rhain yn dylanwadu ar risg unigolyn o fod yn ddioddefwr a/neu'n gyflawnwr, a disgrifiodd sut y cafodd yr holl waith ei wneud drwy 'lens wedi'i lywio gan drawma ACEs'. Roedd ymyriadau VPU yn cael eu hystyried yn gyfleoedd i ddatblygu prosesau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n lleihau'r risg o drais a niwed sy'n gysylltiedig â thrais; gwelwyd y gellid wedyn gyflwyno mentrau llwyddiannus ar raddfa i helpu niferoedd uwch o bobl.

Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith bod angen ymyriadau llawer mwy penodol yn ymwneud â risg a ffactorau amddiffynnol, ond bod hyn yn gofyn am wahanol fathau o ddata yn 'dod i mewn' fel y gallant *"adeiladu darlun mwy i ddechrau fel bod asiantaethau eraill yn cyd-fynd â'r ymyriad hwnnw. Nid yr heddlu neu iechyd yn unig ydyw."* Teimlwyd ei bod yn bwysig archwilio/nodi sut roedd defnyddio gwybodaeth i lywio penderfyniadau yn y meysydd hyn yn cael effaith.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi bod yn datblygu'r gwrth-naratif, drwy fentrau fel y prosiect ymyrraeth gynnar ac atal (De Cymru, 2016-2018) a'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, Cymru gyfan, 2018-2021 [10], drwy fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o blismona. Disgrifiodd partneriaid sut yr oedd y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (EAT) yn enghraifft o'r gwaith da sy'n cael ei wneud i ddeall agweddau agored i niwed a nodi risgiau drwy fynd i'r afael â'r gwrth-naratif. Fel rhan o'r rhaglen EAT, cynhaliwyd ymchwil i ddeall y naratif presennol yng Nghymru ynghylch unigolion agored i niwed a phroblemus (e.e. troseddwyr a'r rhai sy'n dod i gysylltiad yn aml â'r heddlu). Defnyddiwyd yr ymchwil hon i weithredu mentrau i newid y naratif er mwyn nodi agweddau agored i niwed a thrawma posibl (h.y. ACEs), a gwella'r cymorth a roddir i ddarparu mynediad i ymyrraeth gynnar ac atal. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni ar draws sectorau (fel addysg, tai, yr heddlu, awdurdodau lleol) gan ddefnyddio dull system gyfan i gryfhau systemau, prosesau ac arferion i adlewyrchu'r gwrth-naratif. Mae'r dull hwn yn rhoi sylfaen dda i'r VPU adeiladu arni yng Nghymru gan ei bod yn rhoi cyfle i wasanaethau ddeall y gall yr unigolion y maent yn gweithio gyda hwy, gan gynnwys cyflawnwyr, fod yn ddioddefwyr neu fod ganddynt fywydau cymhleth, a bod meithrin cydnerthedd a darparu mynediad at gymorth yn allweddol.

### Y dull iechyd y cyhoedd a defnyddio'r iaith gywir

Roedd cyfweliadau â rhanddeiliaid yn cynnig canfyddiadau a dealltwriaeth o'r dull iechyd y cyhoedd o atal trais, a'r naratif ynghylch hyn. Ystyriwyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgorffori atal trais fel blaenoriaeth cyn ffurfio'r VPU a gwelwyd hefyd ei fod yn *"ddylanwadol gyda chydweithwyr yn y GIG a llywodraeth Cymru*". Roedd partneriaid o'r farn bod cael Iechyd Cyhoeddus Cymru fel partner allweddol wedi bod yn eithriadol o bwysig o ran helpu i hyrwyddo ac argymell y dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais.

> *"Yr hyn sydd wedi bod yn ddefnyddiol yw, hyd yn oed cyn i ni ffurfio'r VPU, eu bod wedi rhoi blaenoriaeth i atal trais. Felly unwaith eto, nid oedd yn rhaid i ni ddadlau, ar ôl sefydlu'r uned, y dylai hynny fod yn digwydd, i bob pwrpas roedd gennym hyrwyddwyr datganoledig pwerus iawn a oedd yn gallu bod yn ddylanwadol gyda chydweithwyr yn y GIG a llywodraeth Cymru, felly mae'n ymdrech a dull tîm go iawn... petaem wedi bod yn sôn am ddull iechyd y cyhoedd heb i iechyd y cyhoedd ei ddweud, byddai wedi bod yn eithaf anodd."* (Partner VPU 1)

Mae'r dull iechyd y cyhoedd o atal trais (fel y disgrifir yn Adran 1.1) yn ystyried cyfleoedd atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ac mae'n seiliedig ar ddulliau strategol allweddol sy'n anelu at lunio'r naratif; mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Pum Ffordd o Weithio [9] a Gwneud i Ofal Iechyd Darbodus Weithio [11] yn cyflwyno safbwyntiau hirdymor ar ddarpariaeth iechyd a llesiant

gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar gydweithio a chynnwys cymunedau mewn cyd-gynhyrchu. Cydnabu partneriaid bwysigrwydd defnyddio'r iaith gywir, sy'n gysylltiedig â'r dull iechyd y cyhoedd, o fewn strategaeth a pholisi ac yn fwy cyffredinol mewn sgwrs i ymgysylltu â phobl. Teimlwyd bod y dull iechyd y cyhoedd yn ffordd strwythuredig o weithio nad oedd yn 'radical' nac yn 'ailddyfeisio'r olwyn'. Roedd yr ymarferwyr iechyd y cyhoedd o fewn y VPU yn gallu adrodd y 'stori' ychydig yn wahanol a throsglwyddo rhywfaint o'r ddarpariaeth weithredol y mae'r VPU am ei gwneud yn ddull ataliol iechyd y cyhoedd.

> *"Mae addasu'r hyn rydym yn ei wneud yn iaith iechyd y cyhoedd wedi bod yn llawer mwy dylanwadol, yn enwedig pan fyddwn wedi siarad â phartneriaid datganoledig eraill fel iechyd, fel gofal cymdeithasol. Mae'n llawer mwy dealladwy o ran iaith atal ac mae'n ein sefydlu mewn gwirionedd fel tîm amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar wella iechyd y genedl mewn gwirionedd."*
> (Partner VPU 1)

### Darparu negeseuon amgen, cadarnhaol

Amlygwyd pwysigrwydd darparu negeseuon amgen, cadarnhaol a sut i wneud hyn drwy gydol y cyfweliadau. Siaradodd Pennaeth y VPU am drafodaethau rhagarweiniol a oedd wedi digwydd gyda Google i edrych ar y potensial o gael gafael ar ddata mawr i ddatblygu sgiliau o amgylch theori 'annog' a theilwra cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau marchnata. Rhagwelwyd y byddai'r dull hwn yn galluogi'r VPU i gael ei 'thargedu'n llawer mwy' tuag at grwpiau mewn perygl a datgelu meysydd lle mae'n amlwg bod angen darparu gwrth-naratif, megis lle mae fideos yn cael eu postio ar gyfryngau cymdeithasol sy'n mawrygu trais. Byddai'r data hwn yn darparu tystiolaeth ynghylch ble i ymyrryd a gellid ei ddefnyddio ar gyfer ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus eraill.

Roedd ansicrwydd, fodd bynnag, a yw'r 'data mawr' hwn yn darparu swyddogaeth ychwanegol i'r dadansoddwyr ac a ellir defnyddio 'detholiad a chymysgedd' o'r dulliau gweithredu. Teimlwyd bod gan y VPU gyfrifoldeb i bob un o'r cymunedau yng Nghymru, nid dim ond y mannau lle mae llawer o weithgarwch ac y gallai hyn ddarparu enghraifft o sut y gallent geisio gwneud hyn.

#### Heriau i ddatblygu'r gwrth-naratif

Disgrifiodd un cyfwelai bwysigrwydd mapio a nodi'r holl weithgareddau atal trais sy'n cael eu gweithredu ledled de Cymru, yn enwedig er mwyn deall ehangder a graddau'r gwaith ehangach nad yw'n cael ei ariannu gan y VPU. Roedd eu profiadau yma yn adlewyrchu'r heriau o ddatblygu'r gwrth-naratif yn erbyn cefndir o ddisgwyliadau cymdeithasol-ddiwylliannol ehangach y mae gan y VPU bŵer cyfyngedig i fynd i'r afael â hwy.

Disgrifiodd y partner hwn bwysigrwydd cynnwys y VPU mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am fentrau atal trais er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyfarnu i fentrau priodol a oedd yn cyd-fynd â strategaethau'r VPU i ddefnyddio dull gweithredu wedi'i lywio gan iechyd y cyhoedd a thrawma. Disgrifiwyd hefyd sut y byddai'r gweithgaredd hwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o weithgareddau ehangach sy'n cael eu cynnal ac yn sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygu ymdrechion.

## 3.5 Consensws Cymunedol

**Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio consensws cymunedol fel gweithio gyda chymunedau lleol ac ar eu cyfer drwy eu grymuso i gymryd rhan mewn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio arnynt. Anogir partneriaid i ddefnyddio sefydliadau lleol i gefnogi ymgysylltu â'r gymuned ac eiriol gweithio gyda'r sector gwirfoddol, gan gynnal digwyddiadau ymgynghori a chysylltu â rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes er mwyn meithrin perthnasoedd ystyrlon a gweithredu â chymunedau lleol.**

Amlygodd cyfweliadau â phartneriaid sut mae'r VPU wedi ymrwymo i gefnogi sefydliadau i gydweithio yn eu cymunedau. Adleisiwyd pwysigrwydd datblygu perthnasoedd a magu ymddiriedaeth drwyddi

draw, yn enwedig o ran cysylltu â darparwyr eraill a chefnogi pobl i gael cymorth pellach gyda phartneriaid ehangach (megis cymorth ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, cael mynediad at feddyg teulu a thai).

Dangosodd cyfweliadau ag Eiriolwyr Nyrsio bwysigrwydd meithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth â'r bobl y maent yn bwriadu ymgysylltu â hwy o fewn yr adran frys; mae hyn yn cynnwys help i gofrestru gyda meddyg teulu, materion addysgol, swyddi a swyddi gwirfoddol. Yma, disgrifiodd yr Eiriolwyr Nyrsio wahanol anghenion a phroffiliau dioddefwyr ymosodiadau a dioddefwyr trywanu, gan ganolbwyntio ar waith ataliol i atal trais rhag gwaethygu.

> *"Yr hyn rydym wedi'i weld yw bod y claf yn aml yn y categori ugeiniau hwyr neu dridegau cynnar ac mae rhai ohonynt yn ddynion ifanc caled nad ydynt am ddatgelu unrhyw wybodaeth. Felly mae'r dull sydd ganddynt yn golygu tipyn o ddyfalbarhad... gwthio a thynnu mewn gwirionedd. Felly byddan nhw'n mynd i gwrdd â nhw ychydig o weithiau ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn y mwyafrif o achosion, maen nhw wedi gallu chwalu rhai rhwystrau gyda'r unigolion yna lle maen nhw'n gallu eu cefnogi." (Ymarferydd Rheng Flaen 5)*

> *"Rydym yn gweithio gyda dioddefwyr anafiadau sy'n gysylltiedig â chyllyll ac ymosodiadau treisgar. Rydym yn meithrin perthynas ac ymddiried gyda hwy, a gweld a oes unrhyw gymorth y maent yn chwilio amdano. Efallai nad ydynt yn chwilio amdano ond mae ei angen arnynt ac yna byddwch yn dechrau plannu'r hadau hynny a gweithio tuag ato. Er enghraifft heddiw, mae fy nghlaf sydd i fod i weld, yfory, prawf, felly mae'n gam bach iawn ond mae am i mi gysylltu â'i swyddog prawf felly mae'n fy ngweld i fel rhywun y gall ymddiried ynddo i ddatrys hynny ar ei gyfer yn awr. Dyma'r cam cyntaf ond mae'n gam rwyf wedi'i wneud i ennill ei ymddiriedaeth a'i gael i ymgysylltu'n ôl â mi." (Ymarferwyr Rheng Flaen 6 a 7)*

Teimlwyd y byddai'r VPU yn gwella consensws cymunedol ac yn cefnogi datblygiad mentrau lleol a fydd yn creu canlyniadau ystyrlon.

> *"Fy ngobaith yw y bydd cael un pot cydgysylltiedig yng Nghymru ar gyfer trais yn cefnogi cymunedau mewn gwirionedd oherwydd yn flaenorol un o'r pethau anodd oedd, cawsom ein hariannu'n flaenorol gan y Swyddfa Gartref, roeddem yn un o ddim ond dau sefydliad yng Nghymru a gafodd eu hariannu ac mae disgrifio'r amgylchedd gweithredu i'r Swyddfa Gartref yn Llundain yn anodd iawn gan fod polisïau'n wahanol, mae rhai agweddau wedi'u datganoli er dyw Cyfiawnder Troseddol heb ei ddatganoli, ond mae iechyd ac addysg wedi'u datganoli ac mewn gwirionedd mae cyfiawnder troseddol i blant yn ymwneud ag iechyd, addysg, sy'n gymhleth iawn ac sy'n cymryd ychydig mwy o waith i'w ddatrys. Mae cael yr uned drais yng Nghymru maen nhw'n deall y math hwnnw o amgylchedd gweithredu felly mae gen i obeithion mawr y bydd yn caniatáu i'r rhai mwyaf anghenus yng Nghymru gael y gefnogaeth a chael yr ymateb sydd ei angen yn hytrach na chael ymateb generig gan lywodraeth y DU nad yw'n addas i'r diben mewn gwirionedd i Gymru. Dyna beth yw fy ngobaith." (Ymarferydd Rheng Flaen 2)*

Rhoddodd yr astudiaethau achos dystiolaeth bellach am sut mae VPU Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau lleol mewn cymunedau er mwyn meithrin perthnasoedd ystyrlon a hwyluso ymgysylltu. Yma, darperir enghreifftiau o ble y darperir ymyriadau ar draws rhwydweithiau ysgolion a lle mae ymyriadau wedi'u targedu yn cysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid ehangach.

*"Rydym yn ariannu hyn i gyd, nid oes gen i syniad, rwy'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud, yn fras, ond nid oes gennyf fanylion am yr hyn maen nhw'n ei wneud ac rwy'n credu hynny i mi a dywedais wrth y Cyfarwyddwr fod hynny'n wendid. Mae sefydliadau eisoes ar waith sy'n darparu gyda'n cyllid ni o bosibl, ond i mi nid yw wedi'i nodi fel VPU. Rwy'n gwybod mewn VRUs eraill, mewn achosion eraill, y gallwch weld ac roedd Glannau Mersi yn un ohonynt a ddywedodd mewn gwirionedd rydym yn darparu x,y a z o dan y VRU, felly rwy'n credu bod diffyg cysylltiad rhwng hynny a'i nodi oherwydd eu bod eisoes yn bodoli ac maent wedi newid eu ffrydiau ariannu ac ati, felly efallai na fyddant yn cyd-fynd ag ef. Felly, rwy'n credu bod lle i hynny a pherchnogaeth a llywodraethu yn y cefndir." (Partner VPU 4)*

Teimlwyd bod pwysigrwydd 'brandio' a chyfleu gwaith y VPU yn effeithiol yn bwysig. Roedd hyn yn arbennig o wir er mwyn sicrhau bod cymunedau'n deall ehangder gwaith y VPU a bod mentrau a ariannwyd ac a oedd yn gysylltiedig â'r VPU i gyd yn teimlo'n rhan o'r un rhaglen.

# 4. Astudiaethau Achos

Defnyddiwyd cyfweliadau gyda nifer o bartneriaid sy'n ymwneud â darparu ymyriadau VPU i ddatblygu astudiaethau achos, er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am sut mae'r VPU yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o weithredu mentrau atal trais a chreu canlyniadau cadarnhaol.

## 4.1 Parallel Lives (Media Academy Cymru)

### Trosolwg

*"O ran dielw mae'n debyg bod gennym un o'r nifer o ymwelwyr mwyaf sy'n bobl ifanc yn ne Cymru"* (Ymarferydd Rheng Flaen)

Mae Media Academy Cymru yn sefydliad dielw sy'n gweithio ar draws de Cymru gyda phobl ifanc sy'n agored i niwed rhwng wyth a 25 oed. Y llynedd yn unig buont yn gweithio gyda chwe mil o bobl ifanc ledled de Cymru. Mae'r sefydliad yn gweithio'n bennaf mewn tri maes allweddol; cyfiawnder troseddol; addysg a hyfforddiant; a gweithgareddau celfyddydol i bobl ifanc. Mae'r elfen cyfiawnder troseddol yn golygu gweithio'n bennaf gyda phobl ifanc sydd ar y cyrion neu sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Mae'r sefydliad hefyd

yn darparu rhai o'r gwarediadau y tu allan i'r llys ar gyfer dau Wasanaeth Troseddau Ieuenctid yng Nghymru.

Mae addysg a hyfforddiant yn chwarae rhan allweddol yng ngweithgareddau'r sefydliad, ac yn canolbwyntio ar gyfryngau i bobl ifanc sydd wedi'u heithrio o addysg neu sy'n methu â mynd i goleg am o leiaf chwe mis. Nod y Media Academy yw gweithio gyda phobl ifanc i ddarparu achrediad a'u cefnogi mewn hyfforddiant ehangach, tra'n mabwysiadu dull cyfannol gyda chymorth cwnselwyr a gweithwyr camddefnyddio sylweddau lle y bo'n briodol. Yn ogystal, rhoddir cryn bwysau ar ddarparu addysg gelfyddydol i blant a phobl ifanc nad ydynt efallai'n gallu manteisio ar y gweithgareddau hyn fel arfer, oherwydd cyfyngiadau ariannol. Rhoddir cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn sgiliau drama, dawns, canu, theatr a chefn llwyfan, sy'n helpu i hybu hyder ac ennill sgiliau.

Datblygwyd y rhaglen Parallel Lives o ganlyniad i gyllid ychwanegol a roddwyd i'r Media Academy gan VPU Cymru. Mae Parallel Lives yn gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd ifanc sy'n nodi bod ganddynt broblem o fewn yr aelwyd sy'n ymwneud â thrais. Anogir cyfranogwyr i gydweithio â'r nodau o leihau amlder trais yn y cartref, cefnogi rhieni i adeiladu gwell ffiniau a'u cefnogi yn eu sgiliau rhianta.

> *"Yr hyn a welwn yw nad yw llawer o rieni am geisio cymorth gan eu bod yn teimlo cywilydd ac euogrwydd oherwydd eu plant hwy ydyw. Felly mae'n ymwneud â chael gwared ar y stigma a'r euogrwydd hwnnw a rhoi'r sgiliau iddynt ymdopi a mynd i'r afael â thrais yn y cartref neu ei herio."* (Ymarferydd Rheng Flaen)

Adeg y gwerthusiad, roedd cyfanswm o 12 teulu wedi ymgysylltu ag ymyriad Parallel Lives, gyda phob un o'r 12 person ifanc wedi profi pedair neu fwy o ACEs. Cyfeiriwyd y teuluoedd at yr ymyriad drwy amrywiol ganolfannau cyfeirio[2]. Mae'r sesiynau gyda phobl ifanc a rhieni o'r teuluoedd atgyfeirio yn rhedeg ar wahân ac yn ymdrin â saith pwnc:

1. **Sesiwn Groeso** - Mae'r sesiwn hon yn ceisio datblygu hyder a pherthynas o fewn y cylch. Tynnir sylw at Drais a Cham-drin Pobl Ifanc i Rieni (APVA), a tynnir sylw at wasanaethau.
2. **Ymddygiad -** Mae'r sesiwn hon yn archwilio'r theori a'r wyddoniaeth y tu ôl i ymddygiad ymosodol drwy ddefnyddio Model Llaw Dan Siegel o'r Ymennydd a'r ymateb Cilio, Ymladd neu Rewi.
3. **Anghenion** - Mae'r sesiwn hon yn archwilio rolau a disgwyliadau teuluol, hawliau'r plentyn, yr angen y tu ôl i'r ymddygiad, a thechnegau dad-ddwysáu.
4. **Cyfathrebu** - Mae'r sesiwn hon yn archwilio sut i ddefnyddio technegau cyfathrebu di-drais i ddatblygu empathi.
5. **Emosiynau** - Mae'r sesiwn hon yn archwilio theori ymddygiad gwybyddol, gan ddangos sut mae meddyliau'n gyrru ein hemosiynau ac yn dylanwadu ar ein hymddygiad.
6. **Dicter a Chyfrifoldeb** - Mae'r sesiwn hon yn archwilio cymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd a'ch gweithgareddau a'ch trafodaethau meddwl canlyniadol.
7. **Symud Ymlaen** - Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac mae'n cynnwys gosod nodau y cytunwyd arnynt gan y naill ochr a'r llall ar gyfer teuluoedd, gweithdy myfyriol a gweithgareddau a gwerthusiadau o ran y cynnydd a wnaed.

[2] More information about referral sources to be obtained.

Yn ogystal â'r gweithgareddau manwl uchod, mae pob sesiwn hefyd yn cynnwys cyswllt a myfyrio i roi lle i unigolion drafod sut maen nhw'n teimlo a sut mae'r teulu'n rheoli trais a cham-drin yn y cartref. Gellir gweld strwythur y gweithgareddau a gynhelir, yn ogystal â'r adnoddau sydd eu hangen ym Mlwch 4.

**Blwch 4: Gweithgareddau, deunyddiau ac adnoddau Media Academy Cymru**

**Gweithgareddau**

- Ymchwilio a datblygu dogfennau ar gyfer prosiectau
- Dosbarthu taflenni gwybodaeth, ffurflenni atgyfeirio, ffurflenni asesu
- 7 sesiwn ymyrryd

**Deunyddiau/adnoddau**

Mae adnoddau addysg Parallel Lives yn cynnwys:

- Cynlluniau gwersi ac adnoddau
- "Canllaw goroesi" ynysu Coronfeirws i deuluoedd sydd wedi ymgysylltu

## Ffactorau hwyluso

*"Yr heriau fu hysbysebu mewn gwirionedd ein bod ni yno. Hysbysebon ni yn 2012 ac yna stopio, felly mae ei ailgychwyn eto wedi bod yn her gan ei fod bron fel mynd yn ôl i'r dechrau wrth hysbysebu'r gwasanaeth."* (Arweinydd Prosiect)

Mae'r cynnydd yn y cyllid a gafwyd gan VPU Cymru wedi galluogi'r rhaglen i gael ei diweddaru ac yn unol â safonau cenedlaethol. Mae hefyd wedi hwyluso lansio'r rhaglen i nifer fwy o bobl. Mae'r cysylltiadau gwaith a chysylltiadau cynyddol a wnaed â gwasanaethau eraill wedi bod yn gymorth mawr i weithredu'r prosiect, a chyfeirio cyfranogwyr yn y dyfodol. Cafodd fframwaith sylfaenol y rhaglen ei dreialu i ddechrau yn 2012 gyda rhywfaint o lwyddiant ac fe'i hailddatblygwyd yn ddiweddarach i'r rhaglen gyfredol a weithredir. Mae'r 'ail-lansio' hwn wedi gofyn am farchnata newydd ac mae gan y sefydliadau un person penodedig sydd bellach yn hysbysebu'r gwasanaeth, yn ogystal ag ateb cwestiynau a chyfarfod â rhieni a theuluoedd cyn ac ar ôl ymyrraeth. Gwnaed hyn yn bosibl oherwydd yr adnoddau ychwanegol a ddarparwyd drwy gyllid y VPU.

## Rhwystrau

Oherwydd Covid-19, mae gweddill sesiynau'r rhaglen Parallel Lives yn cael eu datblygu ar gyfer darpariaeth ddigidol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn lle mae cyswllt wyneb yn wyneb yn gyfyngedig, cysylltwyd â theuluoedd ac mae cysylltiadau unigol wedi'u trefnu gyda rhieni, gofalwyr a'r person ifanc. Hefyd, anfonwyd "canllaw goroesi" electronig at deuluoedd yn ystod ynysu a gwybodaeth yn cyfeirio i'r gwasanaethau sydd ar gael i gael cymorth neu gymorth y tu allan i oriau.

## Canlyniadau ac effeithiau

Mae ffigurau a gafwyd gan y Media Academy yn dangos:

- Gwnaed pedwar ar ddeg o atgyfeiriadau i Parallel Lives, gyda 12 teulu yn cymryd rhan yn y rhaglen (roedd un wedi ymddieithrio ar ôl atgyfeirio ac roedd un yn atgyfeiriad amhriodol oherwydd bod eu hanghenion yn rhagori ar anghenion y rhaglen).
- Cafodd pedwar teulu eu cyfeirio at wasanaethau ychwanegol gan gynnwys gwasanaeth cwnsela MAC, y gwasanaeth Emosiynol a Llesiant, ac Adoption UK.

Er mwyn gwerthuso canlyniadau ac effeithiau'r prosiect, casglwyd deunyddiau gwerthuso gan y Media Academy, yn ogystal â chynnal cyfweliadau ffôn un-i-un rhwng arweinwyr y prosiect a'r tîm gwerthuso. Cofnodwyd adborth gan gleientiaid yn ymwneud â'u teimladau cyn ac ar ôl ymyrraeth ac mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar y man cychwyn y cafodd y teuluoedd eu hunain ynddo, cyn cymryd rhan yn y rhaglen.

*Dyfyniadau uniongyrchol gan deuluoedd APVA cyn ymyrraeth, a gasglwyd gan dîm y prosiect:*

> *"Mae fy mhen yn lle peryglus. Mae fy mhen bob amser yn rasio, byth yn arafu." (Gwryw APVA, 13 oed)*
>
> *"Rwy'n casáu fy rhieni, rwy'n eu caru ond yn eu casáu. Maen nhw'n ceisio fy neall ond dydyn nhw ddim. Maen nhw'n fy nhrin fel babi ac nid ydyn nhw'n hoffi i mi fynd allan." (Benyw APVA, 16 oed)*
>
> *"Mae ein perthynas yn iawn... allwch chi ddim dweud na wrtho, nid yw'n hoffi'r gair NA." (Rhiant/Gofalwr gwryw, 13 oed)*
>
> *"Dydw i ddim yn gwybod beth sy'n digwydd, rwy'n mynd yn wyllt fel lafa." (Gwryw APVA, 9 oed)*
>
> *"Mae'n newid ffrindiau llawer, nid oes ganddo gyfeillgarwch parhaus, mewn gwirionedd dim ffrindiau yr wyf yn gwybod amdanynt." (Rhiant/Gofalwr gwryw 13 oed)*

Roedd tystiolaeth a roddwyd i'r tîm gwerthuso hefyd yn manylu ar achosion unigol lle mae pobl ifanc sy'n derbyn yr ymyriad wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda pherthnasoedd teuluol. Er enghraifft, dywedwyd bod gan un person ifanc berthynas negyddol iawn â'i dad, a arweiniodd weithiau at ymddygiad ymosodol gan y person ifanc. O ganlyniad i waith y prosiect gyda'r teulu, mae eu perthynas wedi gwella a gostyngodd nifer yr achosion o ymddygiad ymosodol yn y cartref. Mae dyfyniadau gan y teuluoedd hynny sydd wedi derbyn yr ymyriad yn dangos y newidiadau cadarnhaol a wnaed:

> *"Weithiau dydych chi ddim yn sylweddoli bod y byd yn lle caled iddyn nhw (pobl ifanc) hefyd." (Rhiant/Gofalwr benyw 16 oed)*
>
> *"Mae e'n gwneud yn dda iawn; rydym yn falch iawn ohono... Cerddodd i ffwrdd yn hytrach na tharo'n ôl a gwelodd y plentyn arall yn cael canlyniad oherwydd yr ymddygiad." (Rhiant/Gofalwr gwryw 14 oed)*
>
> *"Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn, does neb yn eich barnu chi, mae pawb yn gwrando ac yn helpu ei gilydd allan." (Gwryw APVA, 15)*
>
> *"Mae mor braf cwrdd â phobl eraill mewn sefyllfa debyg, i wybod nad chi yw'r unig un a rhannu'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. Er fy mod yn teimlo embaras mawr i ddechrau, fel pe byddwn yn rhiant gwael, roedd pawb mor garedig ac anfeirniadol, mae mor dda cael siarad." (Rhiant/Gofalwr gwryw 16 oed)*

## Cynaliadwyedd a'r camau nesaf

Mynegodd ymarferwyr rheng flaen y gred bod gan yr ymyriad y gallu i gael ei gyflwyno ar draws ardaloedd ehangach Cymru, pe bai cyllid ar gael. Yn ogystal, trafodwyd hefyd, er mwyn i'r ymyriad barhau yn yr hirdymor, fod cyllid ychwanegol yn hanfodol, gan fod angen i

> *"Ein nod fyddai i hyn gael ei fabwysiadu gan bob awdurdod lleol neu mewn clystyrau ledled Cymru oherwydd ein bod yn credu y bydd manteision cost mawr, ac mae angen i ni gael y dystiolaeth i edrych ar gost a budd."* (Ymarferydd Rheng Flaen)

hwyluswyr gael arbenigedd mewn gweithio mewn pynciau sy'n ymwneud â thrais.

## 4.2 Fearless (Ymddiriedolaeth Crimestoppers)

### Trosolwg

Mae Crimestoppers yn rhoi gwybodaeth ddienw i'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill na fyddent yn ei chael fel arall, yn ogystal â hwyluso'r cyhoedd i gael llwybr i adrodd am bethau 100% yn ddienw. Ffurfiwyd yr elusen dros 30 mlynedd yn ôl ac mae'n diwallu'r angen am adroddiadau dienw os yw unigolion yn ofni sgil-effeithiau adrodd, neu'n amheus o gynnwys yr heddlu. Yn ogystal, mae'r elusen hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau plismona a chymdeithasol penodol gyda'r nod o gael gwybodaeth am droseddau cudd, ac annog pobl i ddweud eu dweud. Er mwyn ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc, teimlwyd y byddai angen brandio penodol, a fyddai'n cael ei deilwra i wella eu gwaith addysgol fel elusen hefyd. Mewn ymateb i hyn, lansiwyd Fearless.org, yn 2010, a gynlluniwyd fel llwyfan i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau addysgol i bobl ifanc fel y gallant ddeall gwahanol fathau o droseddu, gan fod hyn wedi'i nodi fel un o'r rhesymau pam nad yw pobl ifanc efallai'n weithgar wrth adrodd.

> *"Dydyn ni ddim yn arbenigwyr, felly beth fydden ni'n ei wneud yw cyfeirio i ddarparwyr eraill. Felly, er enghraifft, os yw'n ymwneud â chyffuriau, byddem yn cyfeirio at Talk to Frank er mwyn iddynt allu cael gwybod mwy am gyffuriau."* (Rheolwr Prosiect)

Nod Fearless yw addysgu a grymuso pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed i deimlo y gallant roi gwybod am droseddu'n ddienw. Mae Fearless yn darparu A-Z o droseddau, gyda phob un yn dwyn disgrifiad o'r hyn ydynt mewn ffordd ddiduedd, ac anfeirniadol. Yna, mae pob un o'r adrannau hyn yn cyfeirio'r defnyddiwr at sefydliadau i gael rhagor o wybodaeth h.y. am droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, byddent yn cael eu cyfeirio at 'Talk to Frank' neu wasanaethau sylweddau eraill.

Yng Nghymru, dechreuwyd datblygu elfen ieuenctid i gylch gwaith Crimestoppers yn 2016, mewn cydweithrediad â nifer o sefydliadau ieuenctid presennol (h.y. School Beat) a oedd eisoes yn mynd i ysgolion ac yn ymgysylltu â phobl ifanc. Roedd y sefydliadau hyn mewn sefyllfa berffaith i ddatblygu trafodaethau gyda phobl ifanc am wahanol droseddau, ac adrodd am droseddau yn gyffredinol. Roedd yn bwysig cydnabod nad yw pob person ifanc am siarad â'r heddlu, felly yr oedd rhoi gwybodaeth iddynt am sut i adrodd yn ddienw drwy Fearless yn allweddol er mwyn eu hymgysylltu.

Yng Nghymru, mae pob ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglen atal troseddu ar sail addysg, sy'n darparu gwaith ychwanegol wedi'i dargedu mewn ysgolion drwy gyfres o weithdai rhyngweithiol sy'n ymdrin â materion allweddol megis camfanteisio ar blant, cludo cyffuriau a throseddau cyllyll. Rhoddir pwyslais hefyd ar bwysigrwydd adrodd, a sut y gellir hwyluso gwneud hyn yn ddienw drwy ddefnyddio gwasanaeth Crimestoppers. Y gobaith oedd y byddai hyn yn grymuso pobl ifanc i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymunedau eu hunain drwy siarad.

> *"Rwy'n credu ei bod yn anodd iawn i bobl ifanc ddeall ac ymddiried yn ein gwasanaeth dienw ac i ni allu mynd allan a siarad â phobl ifanc am y gwasanaeth hwnnw, rwy'n credu ei fod wedi helpu i egluro sut mae'n gweithio ac egluro'r anhysbysrwydd."* (Rheolwr Prosiect)

### Ffactorau hwyluso

Mae profiad ac arbenigedd Crimestoppers wedi eu galluogi i ddatblygu a chynnal perthynas dda â sefydliadau perthnasol ac mewn ysgolion. Mae hyn wedi hwyluso cydweithio effeithiol rhwng Fearless ac amrywiaeth o rwydweithiau, er enghraifft mae Fearless yn aelod o Wasanaeth Gwirfoddol Ieuenctid

Cymru, sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc drwy gylchlythyrau a chyfarfodydd, er enghraifft. O ganlyniad i'r aelodaeth hon, bu ymgyrch i hysbysebu proffil Fearless.org, gan gynyddu ei gyrhaeddiad.

### Rhwystrau

Dywedodd rheolwr y prosiect ei bod weithiau'n anodd trefnu ymweliadau ysgol oherwydd cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer arholiadau a sefydliadau ac elusennau eraill hefyd yn cystadlu am amser mewn ysgolion. Weithiau roedd hefyd yn anodd cysylltu â'r person cywir wrth geisio trefnu ymweliadau.

Disgrifiwyd cynaliadwyedd cyllid hefyd fel rhwystr posibl i gyflawni. Disgrifiodd arweinwyr y prosiect fod gan Fearless bedwar gweithiwr ieuenctid ar hyn o bryd; un i gynrychioli pob heddlu a pherson ychwanegol a ariennir yn benodol ar gyfer de Cymru. O fis Ebrill 2020, efallai mai dim ond tri neu bedwar gweithiwr ieuenctid fydd, oherwydd gostyngiad mewn cyllid, a gallai hyn o bosibl arwain at nifer is o bobl ifanc yn cael cymorth.

> *"Gall fod yn eithaf anodd i ddechrau i gael y cyswllt cywir, i fynd i mewn, ond unwaith y byddwn ni i mewn yna gallwch fynd i mewn a siarad â dosbarth arall, blwyddyn arall ac ati."* (Rheolwr Prosiect)

### Canlyniadau ac effeithiau

Mae Fearless yn casglu ffurflenni adborth i archwilio effaith y cymorth y maent yn ei ddarparu. Disgrifiodd arweinydd y prosiect effaith eu hymyriad: *"yr hyn rydyn ni'n ei glywed gan bobl ifanc yw mai un o'r pethau annisgwyl yw nad ydyn nhw bob amser yn gwybod y gallan nhw adrodd ac nad ydyn nhw bob amser yn gwybod y gallan nhw adrodd gan ddefnyddio 101 felly'r hyn rydyn ni'n ei glywed nawr yw eu bod nhw'n hapus eu bod nhw'n gwybod am y gwahanol ffyrdd y gallant adrodd am drosedd. Maen nhw'n dweud wrthym y byddent yn defnyddio Fearless.org os oeddent am roi gwybod am drosedd yn ddienw a'u bod yn teimlo ychydig yn fwy diogel ac yn fwy hyderus nawr eu bod yn gwybod gwahanol ffyrdd y gallant adrodd am droseddu."*

Mae hwyluswyr hefyd yn teimlo y bu cynnydd hefyd yn yr ymwybyddiaeth o Crimestoppers ei hun drwy'r gwaith Fearless. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i roi gwybod am droseddu'n ddienw.

> *"Yr hyn rydym hefyd wedi'i ganfod o ran yr effaith ehangach yw bod y gweithwyr Fearless yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ehangach o Crimestoppers, sydd, rwy'n meddwl o ran pobl yn gwybod bod ganddynt y llwyfan dienw hwn y gallant ei ddefnyddio i adrodd am bethau."* (Rheolwr Prosiect)

### Cynaliadwyedd a'r camau nesaf

Disgrifiodd Fearless eu cynlluniau ar gyfer cefnogi cynaliadwyedd eu menter. Wrth wraidd hyn, mae cynhyrchu adnoddau digidol y gellir eu lawrlwytho'n llwyddiannus ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a drafodwyd yn ystod cyfweliad â'r hwylusydd. Y gobaith yw y bydd y rhain yn parhau i addysgu pobl ifanc, hyd yn oed os nad yw'r adnoddau staffio yno yn y dyfodol.

## 4.3 Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

### Trosolwg

Cafodd swyddog prawf a rheolwr troseddwyr o Wasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) eu secondio i fod yn rhan o grŵp aelodau craidd y VPU. Roedd cynnwys aelod o staff o HMPPS yn y VPU wedi hwyluso'r broses o nodi ardaloedd o fewn HMPPS a allai elwa o newidiadau mewn arferion a diwylliannau gwaith i ddilyn egwyddorion dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Un maes a nodwyd ar gyfer newid oedd gwaith gydag oedolion ifanc sy'n droseddwyr treisgar (18-24 oed). Er bod troseddwyr o'r fath bob amser yn cael model goruchwylio safonol ac yn gweithio gyda swyddog prawf/rheolwr troseddwyr, nod y rhaglen beilot oedd darparu model goruchwylio gwell a oedd wedi'i deilwra i anghenion pob unigolyn. Mae'r dull hwn wedi'i weithredu'n flaenorol gyda mathau eraill o droseddwyr (e.e. troseddwyr rhyw a throseddwyr â dedfrydau oes).

> *"Felly yn sicr mae'n golygu cydnabod bod unigolion treisgar yn achosi rhai o'r problemau hynny mewn cymdeithas ac efallai fod angen i ni edrych ychydig yn fanylach arnynt."* (Ymarferydd Rheng Flaen)

Crëwyd dangosfwrdd ar gyfer pob un o'r unigolion ar y rhaglen beilot a oedd yn cynnwys gwybodaeth am hanes troseddu, trosedd gyfredol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, cynllun dedfryd, gweithgarwch goruchwylio ac anghenion troseddol (h.y. nodweddion, problemau neu faterion unigol sy'n ymwneud â'r tebygolrwydd o aildroseddu). Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r dangosfwrdd, a mewnbwn gan reolwyr troseddwyr, datblygir argymhellion ar gyfer rheoli risg a chynllun ar gyfer darparu gweithgarwch goruchwylio ac ymyrryd ar gyfer pob troseddwr unigol. Goruchwylir y dangosfwrdd a'r cynllun ar gyfer cyflawni pob troseddwr ar y rhaglen beilot gan un swyddog prawf allweddol. Penderfynir pwy sy'n darparu gweithgareddau unigol ar sail unigol, er enghraifft os yw'r berthynas rhwng y troseddwr a'i reolwr troseddwyr yn dda, efallai mai'r rheolwr troseddwyr sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gweithgareddau, fel arall gall y swyddog prawf allweddol sy'n goruchwylio'r rhaglen ddarparu gweithgareddau, tra bod sefydliadau'r trydydd sector hefyd yn cael eu nodi a'u defnyddio fel y bo'n briodol.

Nodwyd carfan o ddeg unigolyn i ffurfio rhaglen beilot. Ystyriwyd unigolion a oedd wedi'u cael yn euog o droseddau treisgar o fewn y flwyddyn ddiwethaf, naill ai yng Nghaerdydd neu Abertawe, i'w cynnwys ar y rhaglen. Roedd y meini prawf eithrio yn cynnwys: bod yn fenyw (dim carcharorion benywaidd yng Nghymru), roedd y drosedd yn ddigwyddiad untro a/neu nid oedd unigolion wedi'u collfarnu. Dewiswyd deg dyn, chwech o Garchar Parc (carchar categori B a sefydliad troseddwyr ifanc) a phedwar o'r gymuned (ar brawf) i'w cynnwys. Roedd wyth o'r dynion yn dod o Gaerdydd a dau o Abertawe.

Oherwydd COVID-19, nid yw HMPPS wedi gallu gweithio'n uniongyrchol gyda'r garfan wreiddiol yn y ddalfa na'r gymuned. Fodd bynnag, bydd y gwaith ar y cyd sydd wedi'i gwblhau gyda Charchar Parc yn dal i fynd yn ei flaen unwaith y caiff y cyfyngiadau symud eu llacio; mae hyn yn cynnwys gwaith cyd-gynhyrchu gyda Barnardo's a chydgysylltu'r gwaith y mae Parc yn ei gwblhau gydag oedolion ifanc yn y ddalfa.

Fel rhan o raglen oruchwylio uwch y peilot, datblygwyd pecyn cymorth i staff, a oedd yn nodi'r adnoddau a oedd ar gael i reolwyr troseddwyr eu defnyddio gyda throseddwyr ifanc. Roedd pecyn hyfforddi ar gyfer staff hefyd yn cael ei ddatblygu i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith rhagfarn ddiarwybod, barn bersonol neu brofiad blaenorol a allai ddylanwadu'n andwyol ar arferion gwaith. Nod yr hyfforddiant oedd cynyddu hyder staff i weithio gyda phobl ifanc a gweithredu'n seiliedig ar gryfderau, gyda'r gobaith y bydd hyn yn grymuso'r holl staff i deimlo'n hyderus wrth weithio gyda phobl iau waeth beth fo'u profiad blaenorol neu farn bersonol, a allai fod wedi dylanwadu ar eu harfer.

Ar adeg gwerthuso, roedd naw rheolwr troseddwyr wedi bod yn ymwneud â'r 10 troseddwr, gyda thri wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymorth wyneb yn wyneb gyda hwylusydd y prosiect.

> *"Roeddwn wedi cael amser i gamu'n ôl ychydig ac edrych ar bopeth sydd allan yno ac awgrymu ffyrdd o weithio gyda nhw ac yna'r nod oedd eistedd i lawr gyda'r rheolwyr troseddwyr, mynd drwy'r peth gyda nhw i weld beth oedden nhw'n teimlo y gallai weithio.* (Ymarferydd Rheng Flaen)

Datblygodd HMPPS becyn cymorth hefyd ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc, ac maent hefyd wrthi'n datblygu hyfforddiant normaleiddio a rhagfarn ddiarwybod gyda'r tîm llwybr personoliaeth.

Mae gwaith HMPPS hefyd yn llywio ffocws gweithredol y VPU, gan weithio gyda'r heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid i helpu i nodi pobl ifanc sydd ar fin cymryd rhan mewn trais difrifol. Drwy'r gwaith amlasiantaeth hwn yn y VPU, nod HMPSS yw hyfforddi staff i reoli'r risg hon yn well a rhannu arbenigedd wrth reoli'r achosion hyn, a hwyluso cyfarfod aml-asiantaeth i helpu i nodi a rheoli'r rhai sydd mewn perygl.

### Ffactorau hwyluso

Mae cyllid y VPU wedi galluogi ariannu aelod penodol o staff yn llawn amser i gysylltu â rheolwyr troseddwyr, a darparu'r ymyriad manwl uchod. Mae ffactorau hwyluso eraill yn cynnwys cydweithio â sefydliadau eraill fel Cyngor Caerdydd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a sefydliadau elusennol eraill, a ddefnyddiwyd i gyfeirio unigolion at wasanaethau arbenigol, neu gymorth ychwanegol. Mae'r dull cydweithredol gan aelodau eraill o'r VPU wedi bod o fudd i'r gwasanaeth drwy ddarparu perthynas rhannu gwybodaeth well.

> *"Os oes gennym bobl mewn prawf a allai fod â gwybodaeth gallwn ei rhannu'n well, felly rwy'n credu bod adeiladu'r cysylltiadau hynny â phobl yn dda i gael y pwyntiau cyswllt hynny."*
> (Ymarferydd Rheng Flaen)

### Rhwystrau

Un o'r prif rwystrau, a drafodwyd yn ystod cyfweliadau â hwyluswyr, oedd cyfyngiadau amser o fewn y gwasanaeth prawf. Mae gan lawer o reolwyr troseddwyr lwythi achosion uchel, a gall amser i reoli achosion fod yn brin. Yn ystod yr ymyriad, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y gallu i gysylltu â phobl ac nid yw llawer o reolwyr troseddwyr yn gorfforol yn eu man gwaith. Nid yw'r hwylusydd ychwaith wedi gallu parhau i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â rheolwyr troseddwyr sydd wedi golygu bod y cynnydd ar gyfer y gwaith ymyrryd wedi'i atal rywfaint, er bod hwyluswyr wedi cadw'r cyfle i gynghori o bell lle y bo'n bosibl.

## Canlyniadau ac effeithiau

Teimlai hwylusydd y prosiect ei bod yn ymddangos bod rheolwyr troseddwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ymyriad, a chredodd fod y ffaith ei fod yn cefnogi troseddwyr a staff yn ffactor allweddol. Soniwyd eto bod y berthynas well o ganlyniad i fod yn rhan o VPU wedi cael effaith gadarnhaol ar y cyfathrebu cyffredinol rhwng sefydliadau. Bydd effeithiau'r rhaglen oruchwylio well yn cael eu monitro gan ddefnyddio gwerthusiad o ddata rheolaidd (e.e. cyfraddau aildroseddu). Y gobaith yw y byddant yn gallu mesur effeithiolrwydd yn y rhaglen drwy bethau fel dyfarniadau a'u hymddygiad (os yn y ddalfa), eu hymgysylltiad â staff ac unrhyw welliannau yn y maes hwnnw. Ar gyfer cyfranogwyr sydd wedi'u lleoli yn y gymuned, bydd archwiliad neu atgwymp a'u perthynas â staff yn cael eu harchwilio i asesu effeithiolrwydd. Cyfres bwrpasol o fesurau hunan-adrodd sy'n asesu effaith y rhaglen ar amrywiaeth o fesurau gan gynnwys: llesiant a chydnerthedd, agweddau at drais, erledigaeth, cysylltiad â chyfoedion gwyrdroëdig, gweld trais a chanfyddiadau o gymuned leol, profiadau yn ystod plentyndod, a theimladau o ddiogelwch. Bydd canfyddiadau troseddwyr o'r rhaglen oruchwylio well hefyd yn cael eu casglu.

> *"Rwy'n credu yng Ngharchar y Parc, yr ydym yn cysylltu ag ef hefyd, maent eisoes wedi gwneud gwaith eithaf da o amgylch amnest arfau a chodi ymwybyddiaeth o effaith cario cyllell a phethau felly. Rwy'n credu eu bod gweld pobl yn dod i sylweddoli ychydig mwy beth hynny'n ei olygu."* (Hwylusydd y Prosiect)
>
> *"Unwaith eto, mae'r cysylltiadau gan bobl eraill yn yr uned atal trais wedi bod yn dda iawn. Felly, er enghraifft, cafodd rywun ei drywanu yng Nghaerdydd dros y penwythnos, ond nawr oherwydd bod gennym y cysylltiadau hynny â'r heddlu gallwn ddweud yn well beth oedd yn digwydd." (Hwylusydd y Prosiect)*

## Cynaliadwyedd a'r camau nesaf

Unwaith y bydd arferion gwaith arferol wedi ailddechrau (ar ôl i gyfyngiadau symud COVID-19 gael eu codi), bydd y prosiect peilot gyda'r deg troseddwr yn ailddechrau. Bwriedir ailddechrau cyfarfodydd rhwng y swyddog prawf sy'n goruchwylio'r rhaglen a rheolwyr troseddwyr hefyd, gydag adborth gan reolwyr troseddwyr ar weithredu'r rhaglen yn bwysig o ran llywio datblygiad pellach. Bydd adborth a chanlyniadau'r rhaglen beilot yn cael eu hystyried ac os byddant yn llwyddiannus, caiff y rhaglen ei graddio i'w gweithredu gydag ystod ehangach o droseddwyr. Yn benodol, y bwriad yw defnyddio proffil troseddwyr a ddatblygwyd gan yr heddlu sy'n tynnu sylw at ba fathau o droseddau (e.e. lladrata a throseddau cyffuriau) sy'n gwaethygu i droseddau treisgar lefel uwch. Y nod yw gweithio gyda'r troseddwyr hyn gan ddefnyddio'r model goruchwylio unigol gwell i atal ymddygiad rhag gwaethygu i droseddau mwy difrifol. Nodwyd bod swyddogion gwasanaeth amddiffynnol mewn sefyllfa addas i ymgymryd â'r gwaith hwn. Sicrhawyd cyllid deuol rhwng y VPU a HMPPS ar gyfer swydd y gweithiwr prawf sy'n goruchwylio'r prosiect hefyd sy'n ychwanegu at gynaliadwyedd y rhaglen.

> *"Rwy'n meddwl os gallwn weithio ar aeddfedrwydd ac nid yn unig mynd i mewn gyda darnau o waith ar bobl, ond mae'n rhaid i ni ddechrau gyda'r pethau sylfaenol sy'n caniatáu i unigolion gael amser i fyfyrio arnynt eu hunain a sut maen nhw'n deall pethau. Hefyd cysylltu'n well â theuluoedd."* (Hwylusydd y Prosiect)

## 4.4 Eiriolwyr Nyrsio

### Trosolwg

Gyda hanes cryf o gydweithio ag asiantaethau eraill, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rôl bwysig o fewn y VPU o ran darparu cymorth i bobl y mae trais yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Datblygwyd y fenter Eiriolwyr Nyrsio mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r VPU, i gynyddu nifer y troseddau treisgar sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu. Mae'r astudiaeth achos hon yn defnyddio cyfweliadau gyda'r Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a dau ymarferydd, gan weithio yn rôl Eiriolwr Nyrsio.

Mae Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rheoli tîm o gynghorwyr nyrsio diogelu a Chynghorydd Annibynnol ar Drais yn y Cartref (IDVA), ac yn cydweithio ag asiantaethau eraill yng Nghaerdydd. Gofynnodd yr heddlu i'r tîm a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r VPU, am gyfnod o chwe mis i ddechrau.

Mae'r fenter Eiriolwyr Nyrsio yn cynnwys dwy nyrs, a gyflogir gan y tîm diogelu, sydd wedi'u lleoli yn yr Adran Achosion Brys (ED). Mae'r fenter yn seiliedig ar dystiolaeth nad yw pawb sy'n dioddef trais yn adrodd hyn i'r heddlu, a bod staff meddygol yn teimlo na allent dorri cyfrinachedd cleifion wrth adrodd am y digwyddiadau hyn.

> *"Roeddem yn gwybod bod diffyg cysylltiad ag atgyfeiriadau o droseddau'n cael eu hadrodd i'r heddlu ac mae hynny'n mynd yn ôl yn hanesyddol lle teimlai staff meddygol na allent dorri cyfrinachedd cleifion, heb sylweddoli er ei fod yng nghanllawiau'r GMC os yw er mwyn trosedd ac er lles pennaf y cyhoedd dylent fod wedi bod yn ei adrodd beth bynnag. Felly roeddem yn gwybod bod llawer mwy o achosion yn dod i mewn i'r adran achosion brys nag yr oedd yr heddlu'n ymwybodol ohonynt mewn gwirionedd. Felly dyna oedd y diben cyntaf sef cau'r bwlch hwnnw, ac rydym wedi bod yn gwbl lwyddiannus wrth wneud hynny. Felly, ym mhob achos nawr, mae cant y cant o'r achosion sy'n dod drwy'r adran achosion brys yn cael eu hadrodd i'r heddlu".* (Pennaeth Diogelu)

> *"Rydym wedi cael nifer o achosion lle mae pobl wedi dod i mewn gydag anafiadau trywanu, sy'n gysylltiedig â chyllyll ac maent yn dod i mewn, cael eu gweld a chael eu rhyddhau. Does neb arall yn gwybod eu bod nhw wedi bod i mewn. Felly nid oedd unrhyw ddiogelu, ni wnaeth neb hysbysu'r heddlu, ni hysbyswyd neb arall yn y Bwrdd Iechyd felly roedd yn rhywbeth y tynnais sylw ato pan oedd gennym ddyn a gafodd ei drywanu yn yr wyneb -nad oedd ymwelydd iechyd ei blant yn ymwybodol ei fod ef, dyma'r ail dro iddo gael ei drywanu"* (Eiriolwr Nyrsio)

Pan fydd dioddefwr trais yn cyrraedd yr ED, caiff hyn ei 'nodi' ar unwaith ar y cerdyn claf. Unwaith yr aed i'r afael â'r anghenion iechyd uniongyrchol, ac unwaith y bydd y claf yn sefydlog, mae Nyrs Eiriolwr yn ymweld â'r claf. Gall ymgysylltu â'r cleifion yn aml gymryd nifer o ymweliadau.

> *"Bydd yn cymryd mwy nag un sesiwn gyda chlaf iddynt ymgysylltu. "Yr hyn rydym wedi'i weld yw bod y claf yn aml yn y categori ugeiniau hwyr neu dridegau cynnar ac mae rhai ohonynt yn ddynion ifanc caled nad ydynt am ddatgelu unrhyw wybodaeth. Felly mae'r dull sydd ganddynt yn golygu tipyn o ddyfalbarhad... gwthio a thynnu mewn gwirionedd. Felly byddan nhw'n mynd i gwrdd â nhw ychydig o weithiau ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn y mwyafrif o achosion, maen nhw wedi gallu chwalu rhai rhwystrau gyda'r unigolion yna lle maen nhw'n gallu eu cefnogi."(Pennaeth Diogelu)*

Cymerodd y tîm gyngor cyfreithiol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ac mae wedi addysgu staff nyrsio am eu dyletswydd i roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau treisgar. Mae'r Eiriolwyr Nyrsio wedi cynnal sesiynau hyfforddi i roi gwybod i staff ED am eu rôl a'r VPU.

> *"Felly mae staff sydd wedyn yn gweld y cleifion sy'n dod i mewn gydag anafiadau yn meddwl am atal trais, felly mae hynny'n gweithio'n dda iawn".* (Pennaeth Diogelu)

## Ffactorau hwyluso

Ariennir y fenter Eiriolwyr Nyrsio yn gyfan gwbl gan y VPU, gyda'r ddwy nyrs yn cael eu cyflogi o fewn y tîm diogelu. Roedd pwysigrwydd cael nyrsys gyda phrofiadau o ddiogelu a gweithio mewn ED yn hanfodol i lwyddiant y fenter. O ran pwysigrwydd cael eiriolwr gyda phrofiad diogelu, disgrifiodd y Pennaeth Diogelu:

> *"Felly mae gennym [enw] sy'n Brif Nyrs band 6 sydd ar secondiad o'r adran achosion brys ac roeddwn i'n meddwl y byddai hynny'n gweithio'n dda iawn oherwydd ei bod yn adnabod yr adran ac wedi gweithio yno ers nifer o flynyddoedd ac adran achosion brys ardal anodd iawn i ymgysylltu â hi am eu bod mor brysur yno ac mae gennych rywbeth fel 160 o staff nyrsio yn gweithio ar gylchdro. ....ac mae ceisio torri i mewn fel yna i ardal newydd yn anodd iawn, felly dyna pam roeddwn i'n meddwl y byddai'n dda iawn cael nyrs a oedd eisoes yn gweithio yn yr adran honno ac yn gwybod sut i ymgysylltu â'r staff... Felly dyna fu'r llwyddiant yn cael [enw] gyda'i holl gysylltiadau yn yr adran achosion brys a chael y wybodaeth am sut i gysylltu â'r staff a'u cynnwys oherwydd ei bod yn un ohonynt"* (Pennaeth Diogelu)

Cytunodd un o'r Eiriolwyr Nyrsio y byddai wedi bod yn amhosibl dod i mewn i'r ED pe na bai'r eiriolwr nyrsio arall eisoes wedi bod yn ei swydd yno.

> *"Byddwn wedi cael trafferth mawr i ddod i mewn i'r adran hon, gan geisio cael, dim ond ceisio dod o hyd i'm ffordd o gwmpas, heb sôn am geisio ymgysylltu gan staff oherwydd cryn dipyn o'r amser, yr wythnosau cyntaf roeddwn i'n cael pwy ydych chi? A bydden nhw'n dal fy lanyard... dyna'r ochr gadarnhaol o wybod sut mae'r ED yn gweithio a gwybod cymhlethdodau pryd sy'n dda i fynd i mewn, pryd nad yw'n dda mynd i mewn a'r holl fath o bethau hynny oherwydd hebddo byddai wedi achosi llawer o rwystrau"* (Eiriolwr Nyrsio)

O ran pwysigrwydd cael eiriolwr gyda phrofiad ED, disgrifiodd y Pennaeth Diogelu:

> *"Ac yna mae gennych arbenigedd [enw] sydd â'r cymwysterau IDVA ac ISVA a'i sgiliau cyfathrebu a'i bod yn gwybod hefyd pa wasanaethau eraill sydd ar gael yn y gymuned oherwydd ni fyddai [enw] yn gwybod hynny oherwydd pan fyddwch yn nyrs yn yr adran achosion brys yna byddwch yn gwybod am yr hyn sy'n digwydd y tu mewn i ysbyty ond nid oes ganddi reswm i wybod beth sy'n digwydd yn y gymuned na pha wasanaethau y gallwch gysylltu â hwy a chyfeirio atynt, ond mae'r ddwy wedi dysgu oddi wrth ei gilydd dros y chwe mis hwnnw ac maent wedi defnyddio sgiliau ei gilydd mewn gwirionedd ac yn ffodus maent yn bwrw ymlaen yn dda iawn."* (Pennaeth Diogelu)

Barnwyd bod pwysigrwydd cael eich lleoli yn yr ED yn arbennig o bwysig o ran ymgysylltu â staff a darparu cymorth effeithiol.

> *"Bydd yn cymryd llawer o amser i ymgorffori hynny'n llawn ond rydym wedi gwneud cynnydd enfawr. Gyda ni wedi'n lleoli yn yr adran achosion brys ei hun mae hynny'n anodd oherwydd mae'n rhaid i chi ddod o hyd i le i ddechrau, ac mewn adran achosion brys sefydledig mae'n eithaf anodd cael lle i ddesg ond gyda'r cysylltiadau oedd gan [enw] o weithio yno, roeddem yn gallu negodi'r gofod desg hwnnw ac mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr gan eu bod yn y fan a'r lle. .. Yr hyn a welwch yw, pan fyddwch yn y fan a'r lle mewn gwirionedd, mae mwy o gyfle i wneud ymholiadau felly bydd staff yn curo ar y drws ac yn dweud... ond os ydych chi'n fwy anghysbell na hynny dydych chi ddim yn cael pobl yn bwrw heibio ac rydych yn colli cryn dipyn o bethau, felly gyda nhw yn y fan a'r lle maen nhw wedi gallu ymgysylltu â staff y dderbynfa lle mae pobl yn cyflwyno ac yn gwella ansawdd y wybodaeth a geir gan gleifion sy'n cyrraedd am y tro cyntaf, sy'n nodi pryder"* (Pennaeth Diogelu)

O safbwynt yr Eiriolwyr Nyrsio, roedd yn bwysig sicrhau bod y staff ehangach yn yr ED dan sylw yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod rolau'r Eiriolwyr Nyrsio yn cael eu hystyried yn wahanol iawn i'r ED ac roedd hynny'n rhwystr posibl i gyflawni. Siaradodd yr Eiriolwyr Nyrsio am allu ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill yn yr ED a rhoi wybodaeth ddiweddaraf iddynt o ran yr hyn a oedd yn digwydd, ond teimlai nad oeddent yn rhoi unrhyw fewnbwn nac awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r ymyriad.

## Rhwystrau

Disgrifiwyd yr heriau o weithio mewn ED, yn enwedig o ran yr adnoddau a'r potensial i'r staff a secondiwyd i rolau'r Eiriolwyr Nyrsio gael eu tynnu oddi yno; roedd hyn yn bryder penodol ar adeg y cyfweliad, a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19.

> *"Gallwn daro ar her gan yr adran achosion brys oherwydd bod angen yr holl staff cymwysedig arnynt a gallwch ddychmygu bod pawb yn gorfod torchi llewys ar hyn o bryd. Hyd yn oed pan fyddwn yn cyrraedd y cam lle mae pethau'n hamddenol, mae her bob amser y gallai'r adran achosion brys ddweud na allwn gynnal y secondiad mwyach."* (Pennaeth Diogelu)

Dywedodd y cyfwelai pe bai hyn yn digwydd, y byddent yn teimlo'n hyderus y byddai'r Bwrdd Iechyd yn rhoi eu cefnogaeth i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd.

## Canlyniadau ac effeithiau

Disgrifiodd y Pennaeth Diogelu sut yr oedd yr ymyriad wedi arwain at fwy o adrodd am droseddau treisgar, mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i adrodd am droseddau treisgar ymhlith staff sy'n gweithio o fewn yr ED, a rhannu gwybodaeth ar lefel strategol.

Mae'r dull partneriaeth o ymdrin â'r fenter Eiriolwyr Nyrsio yn un o gryfderau penodol yr ymyriad hwn, gan ddarparu effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r bobl a gefnogir gan yr ymyriad hwn. Mae'r Eiriolwyr Nyrsio yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, o'r staff yn y ED, i sefydliadau allanol gan gynnwys Ymddiriedolaeth St Giles a Gweithredu dros Blant.

> *"Rwy'n gwybod ein bod wedi cael unigolion nad ydynt wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu. Maent (yr Eiriolwyr Nyrsio) wedi rhoi cyngor iddynt ar sut i gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu. Maent wedi gallu eu cyfeirio at gyngor cyfreithiol, cyngor ar dai hefyd gan nad yw llawer o bobl ifanc wedi cael llety a ... roeddent yn gallu cysylltu â'r gweithiwr o Ymddiriedolaeth St Giles a fyddai wedyn yn cysylltu ag addysg ar gyfer dysgu a thai, felly roedd y cyfan gyda'i gilydd." (Pennaeth Diogelu)*

Teimlwyd bod gallu atgyfeirio cleifion i sefydliad cymunedol yn bwysig.

*"Mae angen hynny arnynt oherwydd unwaith y byddant yn cael eu rhyddhau maent yn colli'r elfen honno o allu cadw mewn cysylltiad â nhw rywfaint ond wedi dweud hynny maen nhw wedi cael pobl ifanc sy'n dal i'w tecstio ac felly maen nhw'n cadw mewn cysylltiad hefyd."* (Pennaeth Diogelu)

### Cynaliadwyedd a'r camau nesaf

Disgrifiodd y Pennaeth Diogelu sut na fyddai'r fenter Eiriolwyr Nyrsio yn bosibl heb gyllid y VPU.

*"Ni fyddwn wedi gallu gwneud yr ymyriad sydd gennym heb yr arian parod hwnnw. Dydw i ddim yn meddwl y byddai adnoddau'r ymrwymiad ar gael gan wahanol adrannau oherwydd bod [enw] ac [enw] wedi dod ar secondiad i ddechrau a'r rheswm y cytunwyd arno oedd eu bod yn cael eu hariannu'n llawn. Yn amlwg, mae atal trais yn bwysig i'r bwrdd iechyd ond er mwyn gallu sefydlu rhywbeth yn y ffordd yr ydym wedi'i wneud, mae angen ymrwymiad, ac oherwydd y meysydd yr oeddem yn chwilio am yr ymrwymiad gan leoedd fel yr adran achosion brys, ni fyddai ganddynt yr adnoddau dim ond i roi staff yn y swyddi hynny."* (Pennaeth Diogelu)

O ran cynaliadwyedd, barnwyd bod cyllid yn y dyfodol ar gyfer swyddi'r Eiriolwyr Nyrsio yn bwysig, o ran sicrhau bod gan y fenter ddigon o amser i ymgorffori ac integreiddio yn y llwybrau derbyn a rhyddhau ED. Yn ogystal, barnwyd bod pwysigrwydd cynyddu'r adnodd IDVA o fewn yr ED yn bwysig, yn enwedig gan fod cam-drin domestig yn flaenoriaeth i'r VPU.

*"Mae un person yn ceisio rheoli'r holl ddatgeliadau ar draws y bwrdd iechyd yn enfawr ac rwy'n credu y gallwn wneud gwaith llawer mwy effeithiol yn yr adran achosion brys pe bai gennym arian ychwanegol i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yno."* (Pennaeth Diogelu)

## 4.5 Dysgu gan Randdeiliaid Ehangach

Mae dysgu ychwanegol o ymyriadau ehangach wedi'i gynnwys yn y gwerthusiad hwn, er mwyn llywio datblygiad y VPU a gweithgareddau cysylltiedig yn y dyfodol. Elusen yn y DU yw StreetGames sy'n arbenigo mewn dull chwaraeon ar gyfer datblygu o ymdrin â gweithgareddau ymyrryd. Nod cyffredinol y sefydliad yw "newid *bywydau a thrawsnewid cymunedau drwy bŵer chwaraeon".* Ffurfiwyd StreetGames yn 2007, a chafodd ei hysbrydoli gan lwyddiant gwaith ar y cyd a wnaed gan yr FA, y Sefydliad Pêl-droed ac asiantaethau eraill sy'n gweithio mewn ardaloedd difreintiedig; lleoedd lle'r oedd pobl ifanc bron 50% yn llai tebygol o fod yn gorfforol egnïol na'u cyfoedion mwy cefnog. Ar hyn o bryd mae StreetGames yn helpu i gynghori panel VPU Cymru am rôl chwaraeon o ran atal trais, a sut i weithredu llwybrau atgyfeirio gyda hyn mewn golwg. Nod un o'u prosiectau cymunedol allweddol, y rhaglen 'Chwaraeon Carreg Drws' yw darparu chwaraeon yn y lleoliadau mwyaf anghenus, mewn dull sydd wedi'i deilwra i anghenion y gymuned. Mae profiadau StreetGames wrth ddarparu Darpariaeth Chwaraeon Carreg Drws yn ddefnyddiol o ran deall sut i wneud y gorau o ran effeithlonrwydd y mathau hyn o ddulliau.

Nod Rhaglen Chwaraeon Carreg y Drws yw darparu gweithgareddau chwaraeon lled-ffurfiol unwaith yr wythnos, i bobl ifanc mwyn perygl yn eu hardal leol. Yn atodol i hyn, mae'r rhaglen yn rhoi cyngor ac arweiniad i ymarferwyr rheng flaen lleol sy'n helpu'r sefydliadau sy'n ymgysylltu i ddeall y ffactorau risg y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, heriau gweithredu, a sut i ymateb iddynt. Mae hyn hefyd yn

helpu i feithrin gallu drwy ddigwyddiadau rhwydweithio anffurfiol gan eu galluogi i gydweithio, rhannu a hysbysu ei gilydd. Bydd hyfforddiant i'r gweithlu hefyd yn cael ei gynnal fel rhan o hyn gyda'r gobaith y bydd hyn yn galluogi'r hwyluswyr i deimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi wrth weithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu lefel uchel o risg neu fod yn agored i niwed. Nod y sefydliad hefyd yw rhoi pwyslais a chydnabyddiaeth ar weithwyr sefydliadau lleol i sicrhau nad ydynt yn cael eu hystyried yn hyfforddwyr chwaraeon yn unig, a bod pobl yn deall eu rôl fel mentor y gellir ymddiried ynddo, a bydd sut olwg sydd ar eu rôl hefyd yn cael ei harchwilio yn y sesiynau hyn.

> *"Nid y chwaraeon yw'r flaenoriaeth, yr ethos a'r ymgysylltu sy'n bwysig."*
> Swyddog Polisi

Mae sefydliadau fel canolfannau cymunedol lleol, YMCA, Gwasanaethau ieuenctid, a grwpiau eraill sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn darparu elfen chwaraeon carreg drws y rhaglen. Dewisir y chwaraeon a wneir gan y bobl ifanc dan sylw, ac mae'r hwyluswyr wedi cael eu hyfforddi o ran sut i ymgysylltu â'r gweithgareddau a'r cyfranogwyr yn y sesiwn honno. Fel hyn, nid chwaraeon yn unig yw ffocws yr ymyriad, ond mae'n ymwneud â chael pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgaredd. Mae StreetGames yn cynghori'r hwyluswyr drwy'r amser, i'w helpu i ymgorffori egwyddorion datblygu personol drwy unrhyw gamp, gan helpu i sicrhau hyblygrwydd yn y rhaglen.

Mae StreetGames yn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl 7-24 oed, gyda'r mwyafrif o'r rhai sy'n derbyn ymyriadau yn 11-16 oed. Mae llawer o'r unigolion sy'n cymryd rhan yn yr ymyriad yn hunanatgyfeiriadau, neu wedi'u nodi drwy'r sefydliadau dan sylw.

> *"Mae llwybrau atgyfeirio traws-sector ac mae'r parodrwydd yno ond gall gweithredu atgyfeirio fod yn wael, efallai am nad yw'n rhan o'r busnes craidd na sut maen nhw'n gwneud atgyfeiriadau yn gyffredinol. Ymddengys hefyd fod 'Dewislen' atgyfeirio lle mae pawb yn mynd am yr un sefydliadau yn hytrach na theilwra i'r unigolyn."* Swyddog Polisi

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhywbeth sy'n ganolog i effeithiolrwydd y rhaglen. Tynnodd StreetGames sylw at bwysigrwydd mecanweithiau atgyfeirio clir a thryloyw, er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu teilwra'n benodol i anghenion unigolion. Dywedwyd bod cyfleu gwerth ymyriad sy'n seiliedig ar chwaraeon, yn enwedig i asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn heriol ar adegau. Disgrifiodd Swyddog Polisi StreetGames sut y gallai weithiau fod yn anodd goresgyn syniadau rhagdybiadol o'r hyn y dylai ymyriad fod i berson sydd mewn perygl, ac yna gallu dangos effaith gadarnhaol ymyriadau sy'n seiliedig ar chwaraeon ar y person ifanc. Mae'r mewnwelediad a gasglwyd o gyflwyno'r math hwn o ymyriad, a'r profiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn darparu gwybodaeth bwysig a all lywio gwaith y VPU wrth symud i Gam 2 a thu hwnt.

# 5. Mapio Rhaglen Waith VPU Cymru

Mapio rhaglen waith VPU Cymru mewn perthynas â systemau ehangach, atal trais ac iechyd a llesiant ledled Cymru oedd un o amcanion allweddol y gwerthusiad hwn. Er mwyn cael rhagor o dystiolaeth i ategu cyfweliadau'r partneriaid (a gyflwynwyd yn Adran 3), cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu gwell dealltwriaeth o weithgarwch atal trais ledled Cymru. Yn ystod y digwyddiadau, gofynnwyd i bartneriaid o'r VPU a'r rhai a fynychodd gynhadledd y VPU roi eu barn ar ganlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy y gweithgareddau atal trais sy'n cael eu cynnal ledled Cymru. Dadansoddwyd y wybodaeth hon yn thematig a'i defnyddio i gynhyrchu cadwyni canlyniadau (model 1).

Model 1: Canlyniadau tymor byr, canolig a thymor hwy y VPU, a nodwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid




Yna defnyddiwyd y wybodaeth hon i gyd-gynhyrchu model rhesymeg a theori newid ar gyfer atal trais ledled de Cymru (2019/20), i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith gwerthuso safonol VPU Cymru, a bydd yn llywio'r gwaith o ddarparu, gwerthuso a monitro VPU yn y dyfodol.

Mae'r model yn dangos sut y gallai'r ystod o weithgareddau strategol a gweithredol, a ddarperir ar lefelau unigol, teuluol, cymunedol a system ehangach gydweithio i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau tymor byr, canolig a hirdymor. Mae'r model rhesymeg hefyd yn darparu tystiolaeth o sut mae gwerthoedd craidd VPU Cymru yn cael eu hymgorffori ar draws y system gyfan, yn enwedig o ran sicrhau bod y gymuned wrth wraidd y VPU a sicrhau bod mentrau'n cael eu llywio gan drawma. Bydd parhau i werthuso a monitro yn archwilio a yw'r system yn gweithio ar y cyd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a sut y mae'n gwneud hynny.

## 6. Ystyriaethau ar gyfer gweithredu a chynaliadwyedd gweithgareddau VPU

Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn wedi dangos bod VPU Cymru wedi dechrau creu newidiadau ar lefel system o ran atal trais, gan annog sefydliadau i ganolbwyntio ar atal trais fel mater iechyd cyhoeddus. Mae dyheadau rhanddeiliaid a'r model rhesymeg yn awgrymu y dylai parhau â'r gwaith hwn adeiladu ar lwyddiannau cynnar o ran atal trais yng Nghymru. Mae'r astudiaethau achos wedi tynnu sylw at dystiolaeth o'r effaith y mae rhai ymyriadau'n ei chael ar atal trais ieuenctid a chefnogi pobl ifanc i fynd i'r afael ag anghenion a all weithredu fel ffactorau risg o gyflawni trais a/neu erledigaeth. Ar adeg y gwerthusiad hwn, roedd y VPU yn sefydlu ei hun i gydweithio â phartneriaid i alluogi atal trais ar draws sectorau. Bydd gwerthuso pellach yn mesur effaith yr ymyriadau a gweithgarwch ehangach y VPU ar atal trais yng Nghymru.

Mae gallu VPU Cymru i gyflawni'r newid arfaethedig yn dibynnu ar sefydlu'r seilwaith i ysgogi'r gweithgareddau strategol a gweithredol. Mae'n amlwg bod y VPU yn awyddus i fuddsoddi mewn ymyriadau arloesi a chefnogi. Er y gwelwyd bod yr arian a ddyrannwyd i'r VPU ar gyfer buddsoddi yn fach, gwelwyd bod y gefnogaeth i'r dull iechyd y cyhoedd wedi denu llawer o bartneriaid, a oedd am weithio gyda'i gilydd yn hytrach nag mewn seilo. Teimlwyd bod gwaith y VPU yn helpu i ysgogi'r dull iechyd y cyhoedd o atal trais, gan gydweithio i ddarparu dulliau ataliol a oedd yn lliniaru trais, llwybrau amgen i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'r cyfleoedd a oedd ar gael iddynt.

> *"... felly yr hyn sydd gennym yw swm cymharol fach o arian ond mae'n ymwneud yn bennaf ag annog gweithgarwch, profi a dysgu, cael fframwaith gwerthuso o amgylch yr hyn sy'n gweithio fel bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth." (Partner VPU 1)*

Tynnodd nifer o'r cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd buddsoddi mewn arloesi ac na fyddai llawer o ymyriadau'n bosibl heb hyn. Mae'r buddsoddiad a wnaed gan y VPU yn creu ymgysylltu ar draws y system ehangach. Disgrifiodd partneriaid bwysigrwydd mesur gwerth y buddsoddiad hwn: *"[dydyn ni] ddim yn siŵr iawn o'r gwerth rydyn ni'n ei ychwanegu ac mae angen i ni."* Teimlwyd y byddai hyd yn oed 'cynnydd cymedrol' yn y trefniadau ariannu yn golygu y gallai'r VPU fod yn llawer mwy effeithiol ledled Cymru yn ogystal â gallu ysgogi gweithgarwch lle mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn gweithio.

Trafododd partneriaid yr heriau o ddysgu o'r mentrau a ariannwyd yng Ngham 1 a chynyddu'r ymyriadau llwyddiannus y tu allan i dde Cymru. Er bod cyllid y Swyddfa Gartref yn benodol ar gyfer ardaloedd o weithgarwch yn ne Cymru, roedd y VPU wedi ymrwymo i ddatblygu dull Cymru gyfan o atal trais a chadw pobl yn ddiogel.

> *"Os yw'n werthusiad y mae'r Swyddfa Gartref... a yw'n cael effaith, a yw'n gwneud gwahaniaeth, a yw'n helpu i atal niwed, a yw'n helpu partneriaid i gydweithio dydw i wir ddim yn siwr am hynny. Mae'n bendant yn gwneud gwahaniaeth ac mae'n fuddsoddiad gwych. Rwy'n credu y gallem wneud mwy, heb lawer mwy." (Partner VPU 1)*

Roedd cynaliadwyedd mentrau VPU yn canolbwyntio ar y gallu i ddarparu parhad cyllid i ddarparwyr a mwy o ddiogelwch i staff. Awgrymwyd y dylid darparu cyllid am dair blynedd, ar yr amod eu bod yn darparu adroddiadau blynyddol o'u menter a'i heffaith. Disgrifiwyd natur tymor byr y cyllid fel

cyfyngiad, gyda chydnabyddiaeth y byddai parhau â chyllid yn y tymor hwy yn fuddiol, yn enwedig i ariannu mentrau sy'n bodoli eisoes.

> *"Felly rydych chi'n cyrraedd diwedd y flwyddyn ariannol ac efallai y bydd arian yno hyd at ddiwedd mis Mawrth ond mewn gwirionedd, bydd pobl sydd â morgeisi i dalu ac ati yn edrych am swyddi eraill pan nad oes ganddynt y sicrwydd hwnnw. Felly, y cyfle i mi fyddai rhywfaint o barhad o ran cyllid... hyd yn oed pe bai ar gyfer yr elfen ymyriadau yn unig, byddai hyd yn oed hynny'n ddefnyddiol iawn." (Partner VPU 1)*

Pan ofynnwyd a yw'r VPU mewn sefyllfa i ddechrau nodi'r ymyriadau hynny a fyddai'n parhau, teimlai un o bartneriaid y VPU fod ei un ef yn 'hanner a hanner'. Teimlai'r rhanddeiliad hwn y byddent yn gallu darparu tystiolaeth ar gyfer y rhaglenni/ymyriadau hynny a ariannwyd gan y VPU, ond ar ôl gwneud ymarfer mapio mwy cyffredinol o weithgarwch, roedd yn amlwg bod bylchau ac anghysondebau o ran dull gweithredu a bod angen cael strwythurau llywodraethu cliriach ar waith.

> *"Bydd y manylion hynny gan y cydgysylltydd PCC ar gyfer y rhai yr ydym yn eu comisiynu neu'n ariannu, ac mae'n debyg y byddant yn gallu darparu effaith hynny er bod angen ei rannu a'i nodi fel y VPU. Rydym wedi gwneud ymarfer mapio a chredaf ei fod yn y bôn yn dangos dull cwbl anghyson ar draws a bylchau enfawr ac mae pawb wrthi'n gwneud pethau heb unrhyw lywodraethu clir o'i amgylch." (Partner VPU 4)*

Disgrifiodd un partner bwysigrwydd uwchsgilio staff i sicrhau y gellid cynnal ymyriadau, pe bai'r cyllid yn cael ei leihau neu os nad oedd ar gael mwyach.

> *"Yr hyn rydym am ei wneud drwy'r gwaith hwn yw cynyddu ymwybyddiaeth staff ychydig ac yna'r cynllun, gobeithio, yw y byddai'n fusnes fel arfer. Felly, efallai y byddai'n edrych ar y lle gorau ar gyfer troseddwyr treisgar ifanc. Mae hynny'n mynd i fod yn y garfan IOM* [rheoli troseddwyr integredig], gan edrych o bosibl ar gael swyddogion prawf sydd wedi'u hyfforddi'n benodol, sydd wedi'u huwchsgilio i'w rheoli felly gobeithio y bydd hynny i gyd ar waith yn ystod y flwyddyn ac yna os nad yw'r VPU yn ariannu ymhellach, dylai eisoes fod yn y ffordd rydym yn gweithio. Yn amlwg, os oes rhagor o arian gallwn edrych ar beth arall y gallwn ei wneud â hynny." (Ymarferydd Rheng Flaen 4)*
>
> * Daw IOM ag ymateb trawsasiantaeth i'r bygythiadau troseddu ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf cyson a phroblemus yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd. Mae IOM yn helpu i wella ansawdd bywyd mewn cymunedau drwy: leihau effaith negyddol troseddu ac aildroseddu; lleihau nifer y bobl sy'n dioddef trosedd; helpu i wella hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol (https://www.gov.uk/guidance/integrated-offender-management-iom)

Disgrifiodd ail gyfranogwr sut y cefnogwyd eu hymyriad gan lwyfan ar-lein i ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth i gynyddu ymwybyddiaeth (i weithwyr proffesiynol a phlant a phobl ifanc) o amgylch gwahanol fathau o droseddu a sut y gellir adrodd amdano. Teimlwyd bod hyn yn gwella cynaliadwyedd, os nad oeddent bellach yn gallu ariannu eu gweithwyr ieuenctid. Teimlwyd, fodd bynnag, na fyddai hyn yn disodli manteision y gweithwyr ieuenctid yn mynd i ysgolion ac yn gallu ymgysylltu wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

> *"Mae ein helfen gynaliadwyedd yn cyrraedd cynifer o weithwyr proffesiynol â phosibl mai hwn yw Fearless yn ogystal â gwella ein gwaith ieuenctid. Y rhan ieuenctid fydd y rhan gyntaf i fynd ac yna a ydym yn parhau, os nad oedd modd ariannu'r gwaith ieuenctid, yna byddem yn parhau i edrych ar ffyrdd fel y gwnes i cyn i mi gael y tîm hwnnw i ddatblygu ffilmiau ac adnoddau." (Ymarferydd Rheng Flaen 3)*

Teimlai un cyfranogwr fod cynaliadwyedd cyllid yn bwysig er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl cadw staff arbenigol ar waith a oedd â'r wybodaeth a'r arbenigedd o weithio mewn trais oherwydd bod y risg ynghlwm yn rhy uchel. Teimlai'r cyfranogwr hwn ei bod yn berthnasol dechrau archwilio cost-effeithiolrwydd ymyriadau i ddangos/cefnogi gwerth y rolau hyn a'r ymyriadau y maent yn gweithio oddi mewn iddynt.

> *"Mae'r cynaliadwyedd yn rhywbeth na allaf sôn amdano mewn gwirionedd gan nad wyf yn ariannwr strategol, ond rwy'n meddwl os ydych chi'n gwneud y fathemateg ac rwy'n meddwl os ydych chi'n gwneud y garfan beilot o bobl ifanc am aildroseddu neu'n edrych yn ôl ar brofiadau bywyd rhieni a phlant, rydyn ni'n mynd i wybod bod pethau wedi gwella. Felly un o'r pethau y mae angen i ni ei wneud fel cymdeithas sy'n gweithio yn y maes hwn yw gwneud rhyw fath o ddadansoddiad arbedion cost. Beth mae'n ei gostio i ddarparu ar gyfer pob teulu a'r hyn y mae'n ei arbed fesul teulu." (Ymarferydd Rheng Flaen 2)*

## 6.1 Effaith ac Ymateb VPU i COVID-19

Cynhaliwyd y gwerthusiad hwn cyn ac yn ystod pandemig COVID-19. Disgrifiodd llawer o'r cyfweleion (heb eu hannog) effaith COVID-19 ar eu sefydliad a chefnogaeth y cymunedau. Mae'r adran hon yn cynnwys canfyddiadau rhanddeiliaid o effaith COVID-19 ar eu profiadau ac nid yw'n grynodeb cynhwysfawr o effaith lawn COVID-19.

### Yr effaith ar drais

Disgrifiodd un cyfranogwr COVID-19 a'r effaith ar ddiogelu a thrais yn y cartref, gan ddisgrifio sut yr oedd pob math o ddiogelu yn ymddangos yn 'gymharol dawel' (ar adeg cynnal y cyfweliad) ac unwaith y codir y mesurau cyfyngiadau symud roedd pryder y gallai fod 'tswnami enfawr' o ddatgeliadau. Fodd bynnag, soniodd y cyfranogwr hwn am edrych ar ffyrdd o weithredu ymholiadau rheolaidd, drwy wahanol ymarferwyr iechyd, yr ystyriwyd rhai ohonynt yn fanteisgar oherwydd yr hinsawdd bresennol lle'r oedd pobl, er enghraifft, yn mynychu apwyntiadau meddygol ar eu pennau eu hunain.

> *"Rwy'n gwybod ein bod yn cael rhai adroddiadau gan yr heddlu drwy PPN, ond nid ydym yn cael y nifer yn dod i'r adran achosion brys fel y byddem fel arfer yn eu cael ac nid ydym yn cael y datgeliadau y byddem fel arfer yn eu cael. Mae ymholiadau rheolaidd yn digwydd beth bynnag gyda bydwreigiaeth er enghraifft ac rydym wedi cael gwell cyfle gyda'r ymholiadau arferol gan fod menywod yn dod i apwyntiadau ar eu pennau eu hunain ac yn ddiddorol cysylltodd ein hadran radioleg â'r swyddfa ddiogelu a dweud bod gennym gyfle, rydym yn gweld bod cleifion ar eu pennau eu hunain a oes mwy y dylem fod yn ei wneud, felly rydym wedi eu cael i wneud yr un llwybr yn rhoi'r ymholiadau arferol. Mae adrannau achosion brys yn gwneud yr un peth.....mae ymweliadau iechyd yn gwneud ymholiadau rheolaidd fel mater o drefn hefyd, felly rydym wedi addasu ychydig ein ffyrdd o ofyn y cwestiynau yn y cyd-destun." (Ymarferydd Rheng Flaen 5)*

### Effaith ar ddarparu gwasanaeth

Dywedodd partneriaid nad oeddent yn gallu ymgysylltu wyneb yn **wyneb â chleientiaid/defnyddwyr gwasanaethau** neu **rwydweithio â darparwyr gwasanaethau/gweithwyr proffesiynol** ac roedd pryderon y gallai hyn effeithio ar ddarparu'r ymyriadau. Er enghraifft, disgrifiodd un cyfranogwr ar hyn o bryd mai dim ond un aelod o staff a oedd yn cyflawni eu hymyriad a'r posibilrwydd y gallai'r aelod hwn o staff gael ei 'dynnu'n ôl' at ddyletswyddau rheng flaen. Dywedodd ail gyfranogwr, er bod angen i fusnesau barhau yn bendant, yn enwedig y gwaith sy'n cael ei wneud ar atal trais; yr oeddent yn dod i delerau â sut y byddai hynny'n edrych, beth yn union yr oeddent yn mynd i'w wneud, ac yn ei dro sut y gallai hynny gyfyngu ar effeithiau eu hymyriad o leiaf yn y tymor byr.

Tynnodd rhai partneriaid sylw at heriau'r cyfyngiadau symud o ran cyfyngu ar gyfathrebu a thrafodaethau anffurfiol.

> *"... Cyn-COVID, cawsom yr allweddi ar gyfer swyddfa yng nghanol dinas Caerdydd ac roeddem yn aros iddi gael ei dodrefnu a'i gwella. Ond rwy'n credu mai'r briffio ffurfiol o geisio cael, neu rannu'r wybodaeth honno, ond hefyd y trafodaethau anffurfiol hynny rydym yn eu cael gyda phobl ac rwy'n credu ein bod yn colli tric yno." (Partner VPU 4)*


Er gwaethaf yr heriau posibl o beidio â chael lleoliad canolog, roedd partneriaid wedi tynnu sylw at yr effaith a gafodd **COVID-19** ar gydweithio, gan esbonio y bu nifer o achosion lle bu'n **haws cysylltu â phobl** a chael sgyrsiau am nad oeddent yn mynychu cynifer o gyfarfodydd eraill. Teimlwyd, fodd bynnag, fod llawer o waith yn digwydd o hyd, a bod llawer o ddarparwyr wedi addasu i'r sefyllfa'n gyflym drwy ddatblygu ffyrdd arloesol o gwmpas, er enghraifft, sut y maent yn cysylltu â phobl ifanc (e. e., drwy Skype a WhatsApp) a symud tuag at gael mwy o bresenoldeb ar-lein. Soniodd un o'r cyfranogwyr am edrych ar fwy o opsiynau digidol ar gyfer darparu eu hymyriad i blant a phobl ifanc a gwella sgiliau gweithwyr proffesiynol a oedd nid yn unig yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol organig, am ddim, ond a oedd hefyd yn talu am hysbysebu mewn meysydd wedi'u targedu i weld sut y gallent ennyn diddordeb pobl yn wahanol.

> *"Mae ein dwylo'n llawn i fod yn onest oherwydd mae cymaint o gyfleoedd allan yno rydym yn helpu i'w datblygu, felly llawer o gyfleoedd, ond mae'n teimlo fel dyddiau cynnar... Mae wedi cymryd llawer o amser i recriwtio pobl i swyddi, adeiladu ein rhwydweithiau, adeiladu ein strwythurau llywodraethu... Rwy'n edrych ymlaen at yr adeg pan fydd y cyfyngiadau symud yn cael eu codi i fod yn onest oherwydd mae llawer o'm rôl i yn arbennig yn ymwneud â rhwydweithio, o gwmpas cymryd rhan mewn grwpiau a strwythurau eraill fel y byrddau cyfiawnder ieuenctid a'r byrddau plismona a phethau fel hynny ac yn aml yn cynnig mynd â gwaith i ffwrdd ac mae bod yn weithredol o ran darparu y tu allan i'r cyfarfodydd hynny yn ddefnyddiol iawn ond wrth gwrs maent i gyd wedi'u gohirio ar hyn o bryd. (Partner VPU 1)*

### Ymateb VPU

Mae'r VPU wedi defnyddio'r system VSS i gasglu ac adrodd am wybodaeth am COVID-19 ac wedi dosbarthu adroddiadau wythnosol i gysylltiadau sy'n rhanddeiliaid drwy e-bost. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys ystadegau ynghylch trais a cham-drin yn y cartref (gan gynnwys galwadau i rif llinell gymorth cam-drin yn y cartref Cymru a data ED Bwrdd Iechyd De Cymru); trais rhywiol a cham-drin (gan ddefnyddio data'r heddlu); cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (gan gynnwys niferoedd CSEA a gofnodwyd ac ystadegau'r NSPCC); stelcian ac aflonyddu (gan ddefnyddio data'r heddlu); llinellau sirol a throseddau cyfundrefnol difrifol; trosedd casineb; risg a niwed i grwpiau sy'n agored i niwed a data ar economi'r nos. Mae'r adroddiadau'n darparu argymhellion allweddol ar gyfer rhanddeiliaid, gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol a thystiolaeth am gysylltiadau rhwng COVID19 a thrais.

## Darn enghreifftiol o adroddiad VPU COVID19



Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

Sector responses:

Changes observed in volume of violence/violence demand within your sector since the start of the Covid-19 pandemic.

COVID 19 VPU monitoring survey: Professional insight and soft intelligence as of 10th July 2020

**Key thoughts and observations from professionals:**

Changes observed in the volume of violence since the pandemic:

While I have not seen an increase in violence, people's mental health has deteriorated as the services they usually rely on are not there to support them. [Family Support, Council Services]

[Volume of violence has increased across all forms]. Violence towards Public Sector Workers appears to have risen and is rightly attracting media coverage. [WG, Anti-Slavery]

Actual cases remain at a similar level of severity, however, we have seen a nearly 30% increase in cases since lockdown. [SWGfL/Revenge Porn Helpline]

There appears to be a reduction related to a 50% decrease of people attending Emergency Department with injuries and disclosures of violence. [C&VUHB]

There has been a decrease in custodial sentencing due to a decrease in court attendance. [Police]

Through the Blaenau Gwent Marac meetings there has been an increase in Domestic Abuse across the Borough .....we have seen a 64% increase in recorded ASB post lockdown (24.03-30.04) compared to the same period last year. [Community Housing, Third Sector]

Overall, violent crime occurrence from the 10th March to the present have reduced across all the measured areas of violent crimes with a modest increase during the week of 14-20 April but still remaining the pre-'lockdown' levels. As an example most serious sexual violent offence reports have reduced by over 30 % and violence with injury reports have reduced by around 33%. [SW Police]

Important to clarify that (as police we have seen...) a reduction in reporting which does not equate to a reduction in the actual acts of violence. [Police]

We have noticed more episodes of violence in the home whereby the child is the perpetrator and parent is the victim. [Youth Offending Service]

What impact is the pandemic having on people's experience of violence?

There may be reluctance for people to report violence when they previously have under the misapprehension that processes are not in place currently to deal with it. e.g. Domestic Abuse. I also feel that levels of violence against vulnerable children are not being reported due to school closures and lack of third party involvement in the lives of vulnerable children. [Police]

Appears to be less 'serious violence', but increase in minor assaults between drug addicts - possibly due to the difficulties in getting hold of drugs. [Operation Sceptre, SW Police]

Being in the same environment as their perpetrator 24/7 is exacerbating the situation for the victims of DA/SV. The situation has been compared to being kept in prison. [Welsh Women's Aid]

Some people, especially those self-isolating or in shielding are becoming fearful of venturing from their homes and reporting on the violence may heighten their fear. [WG, Anti-Slavery]

Impact is more significant as victims have fewer resources for support. Also, more vulnerable if locked down with perpetrator, more isolated if not. [SWGfL/Revenge Porn Helpline]

Young people are struggling to abide by Government restrictions by staying at home. An increase in presence in the family home has brought on an increase in disputes between family members who wouldn't normally spend so much time together and a reduction in options for housing outside of the family home. [Youth Offending Service]

# 7. Argymhellion

## 7.1 Argymhellion i wella darpariaeth ac effaith y VPU

### Ehangu a dyfnhau cydweithio

Tîm bach yw'r VPU ond mae'n cynnwys aelodau allweddol sy'n ymroddedig i atal trais, gyda'r dylanwad a'r brwdfrydedd i yrru'r agenda atal trais yn ei blaen. Mae pob aelod yn barod i gydweithio ac fel grŵp ar y cyd. Gellid gwella hyn drwy gynnwys pobl allweddol eraill. Yn ystod y cyfweliadau â phartneriaid, argymhellwyd y byddai'n fuddiol i nifer o sefydliadau eraill gydweithio â'r VPU:

- Cymorth mewn ysgolion: gan gynnwys Nyrsys Ysgol i ddarparu cyfleoedd diogelu o amgylch datgeliadau, gan weithio gyda Fearless; a'r Heddlu, i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu rhoi i blant a phobl ifanc ac i sicrhau bod ystod o gymorth ar gael i blant, pobl ifanc ac ysgolion, yn dibynnu ar eu hanghenion.
- Ymarferwyr o'r YOT/YOS, seicoleg fforensig a chymorth iechyd meddwl: teimlwyd y byddai'r rolau hyn yn helpu gwasanaethau i ymgysylltu'n well â dioddefwyr a chyflawnwyr trais yn y cartref.
- Cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol: i ddarparu cymorth gyda thai a lles.
- Cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg: i ddarparu arbenigedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gwaharddiadau.

Mae angen gwaith i benderfynu sut y dylid cynnwys partneriaid e.e. fel partner, aelod cyswllt, neu sefydliad sy'n cael arian i weithredu ymyriad.

### Datblygu consensws cymunedol

Ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu consensws cymunedol ymhellach. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ymarferwyr rheng flaen sy'n cael cyfle i ddatblygu ymddiriedaeth gyda phobl a allai fod yn anodd ymgysylltu â hwy fel arall. Mae enghreifftiau o arfer gorau a gasglwyd o'r gwerthusiad hwn yn cynnwys:

- Mae'r Eiriolwyr Nyrsio yn gallu datblygu ymddiriedaeth gydag unigolion ar adeg 'y gellir eu haddysgu' a hefyd cadw mewn cysylltiad ag unigolion ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae angen archwilio pellach (drwy werthuso parhaus) i archwilio'r effaith y mae hyn yn ei gael ar unigolion a'r potensial i'r Eiriolwyr Nyrsio gasglu tystiolaeth i lywio datblygiad a ffocws parhaus gweithgareddau VPU yn y dyfodol.
- Gwaith Barnardos yn ymgysylltu â phobl ifanc a datblygu cyd-gynhyrchu mewn cymunedau.
- Pwysigrwydd ymgysylltu â phlant a'u rhieni a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael arnynt hwy a'r gymuned ehangach.

### Datblygu cyd-gynhyrchu

Mae'r VPU yn ymrwymedig i werthoedd cyd-gynhyrchu, i sicrhau bod anghenion y defnyddwyr gwasanaeth yn llywio'r gwaith o ddatblygu a darparu ymyriadau. Amlygwyd nifer o enghreifftiau o arfer da drwy'r gwerthusiad hwn. Gellid gwneud rhagor o waith i adeiladu ar yr enghreifftiau presennol hyn a datblygu hyn ar gyfer ail gam y VPU. Mae'r gwaith gyda HMPPS yn gyfle gwych i ymgorffori'r egwyddor o gyd-gynhyrchu.

## Cynaliadwyedd

Mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar drais yng Nghymru, y DU a ledled y byd. O'r herwydd, addasodd y VPU eu hymateb i'r lefelau newidiol o drais yng Nghymru ac i gefnogi partneriaid i fod yn fwy ymatebol i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r gwerthusiad hwn wedi nodi cyfleoedd posibl lle mae cyllid VPU wedi ysgogi newid y gellid ei ymgorffori mewn prosesau o ddydd i ddydd, gan sicrhau newid cynaliadwy (er enghraifft, lle defnyddiwyd cyllid i hyfforddi staff). **Dylid archwilio enghreifftiau o weithgarwch o'r fath mewn gwerthusiadau yn y dyfodol er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd** i sefydliadau eraill.

Disgrifiodd llawer o'r sefydliadau bwysigrwydd sicrhau cyllid i sicrhau bod ymyriadau'n parhau i gael eu darparu. **Mae angen ymgysylltu â phartneriaid ehangach yng Nghymru** (fel Llywodraeth Cymru er enghraifft) er mwyn **dangos tystiolaeth o effaith y VPU a gwella cynaliadwyedd ymyriadau a dull hirdymor iechyd y cyhoedd o atal ledled Cymru.** Mae gan y VPU rôl allweddol o ran cyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn atal trais ar draws partneriaid lleol, ac yn 2019/20, comisiynodd y VPU astudiaeth i amcangyfrif costau trais ar draws y system gofal iechyd yng Nghymru. Dengys yr astudiaeth fod costau blynyddol trais i bartneriaid ledled Cymru yn sylweddol [12]:

- Amcangyfrifir mai'r costau i'r system gofal iechyd yng Nghymru o ran mynd i'r afael â chanlyniadau tymor byr trais **yw £46.6 miliwn** (blwyddyn yn diweddu mis Mawrth 2019).
- Cafodd costau blynyddol o **£151.3 miliwn** eu gwario ar fynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd hirdymor sy'n gysylltiedig ag amlygiad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ar gyfer y flwyddyn yn diweddu mis Mawrth 2019).

Gwnaeth yr astudiaeth nifer o argymhellion allweddol ar gyfer cyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn atal trais (gweler Blwch 5), a allai, ynghyd â'r costau amcangyfrifedig ar gyfer trais i'r system gofal iechyd, fod yn arf defnyddiol i gynnwys partneriaid ehangach yn y VPU.

**Blwch 5: Argymhellion ar gyfer cyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn atal trais** [12]

Herio unrhyw gamargraffiadau a chredoau a allai fod gan lunwyr polisi a darparwyr systemau gofal iechyd am werth buddsoddi mewn atal trais.

Gwrth-ddadlau bod ymyriadau iechyd cyhoeddus yn costio mwy yn y hirdymor drwy nodi ymyriadau sydd â manteision tymor byr, yn ogystal â'r manteision tymor canolig i hirdymor a rhwng cenedlaethau.

Nodi amcanion a nodau cyffredin posibl a thynnu sylw at sefyllfaoedd lle mae pawb yn ennill, lle mae iechyd a sectorau eraill yn elwa o fuddsoddi mewn atal trais.

Rhoi 'wyneb dynol' i fuddiolwyr posibl camau atal trais.

Dylid **gwerthuso** ymyriadau sy'n derbyn cyllid VPU **i archwilio cynaliadwyedd a nodi lle y gellid cyflawni mentrau ar raddfa fwy.**

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar sefydliadau a systemau mewn sawl ffordd. Mae'r gwerthusiad hwn wedi amlygu rhai o'r heriau a wynebir a'r newid sefydliadol sydd ei angen i addasu. Mae angen gwneud rhagor o waith i **ddeall effaith bosibl COVID-19 ar drais**, er mwyn llywio blaenoriaethau atal trais (gan ddefnyddio adroddiadau VSS COVID-19). Mae angen gwaith hefyd **i ddeall sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gynaliadwyedd sefydliadau partner a nodi bregusrwydd posibl o** fewn sefydliadau.

## 7.2 Argymhellion ar gyfer Monitro a Gwerthuso

### Monitro a dadansoddi data

Mae monitro a gwerthuso effeithiol wedi bod yn thema allweddol drwy gydol y gwerthusiad hwn. Disgrifiodd Partneriaid y VPU **yr angen i ddatblygu dull safonol o ddangos tystiolaeth o'r effaith**. Mae angen i weithgarwch VPU gael ei arwain gan ddata i raddau helaeth, sy'n cyd-fynd â'r dull iechyd y cyhoedd ond hefyd â thrawsnewid yr heddlu sy'n ei gwneud yn ofynnol i heddluoedd ddefnyddio gwybodaeth i lywio gweithrediad eu gwasanaethau.

Mae'r angen i wella dulliau casglu data yn rhan annatod o ddeall yn llawn lefel a natur trais yng Nghymru, ac i lywio arferion strategol a gweithredol. Disgrifiodd partneriaid heriau sy'n gysylltiedig â chasglu a rhannu data, gan nodi bod materion yn ymwneud â strwythurau llywodraethu ac absenoldeb staff allweddol yn eu hatal rhag gwneud hynny. Cydnabyddir bod angen newidiadau diwylliannol i newid agweddau a'i gwneud yn haws cael gafael ar ddata lefel unigol. **Newidiadau bach a fyddai'n cyfrannu at hyn fyddai cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision rhannu data lefel unigol ar draws sawl asiantaeth er mwyn gallu nodi patrymau trais mewn meysydd penodol; byddai hyn yn galluogi'r VPU i ddefnyddio dull mwy ataliol o ran mynd i'r afael â thrais yn hytrach na bod yn adweithiol ar ôl digwyddiad**. Rhaid i'r VSS ddwyn ynghyd yr holl ddata i ddatblygu darlun cyffredinol a manwl, er mwyn osgoi gwneud tybiaethau arwynebol.

Un argymhelliad allweddol yw **sicrhau bod unrhyw fonitro, gwerthuso ac ymchwil yn cynhyrchu tystiolaeth ymarferol sy'n cael ei throsglwyddo i'r VPU mewn amser real**, lle bynnag y bo modd.

### Gwerthuso

Mae angen gwerthuso prosesau a chanlyniadau yn barhaus i archwilio a yw'r VPU yn gwneud gwahaniaeth o ran gweithredu mesurau atal trais ledled Cymru, ac yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir, gan gyfeirio at y gweithgareddau y mae'r VPU eisoes wedi'u cyflawni. Disgrifiodd partneriaid bwysigrwydd gallu deall sut y defnyddiwyd y gweithgareddau mapio a gynhaliwyd yn 2019/20 i lywio cyllid ac ymyriadau.

Mae angen i werthuso yn y dyfodol sicrhau bod data lefel poblogaeth a gesglir gan y VPU yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â data sylfaenol.

Rhaid cynnwys dadansoddiad economaidd o fewn unrhyw broses o wneud penderfyniadau er mwyn deall pa mor effeithlon yw mentrau'r VPU, ac i lywio cynaliadwyedd gweithgareddau.

Nid oes dull systemau safon aur tuag at werthuso iechyd y cyhoedd ac ni argymhellir defnyddio un dull [9]. Argymhellir bod dull systemau yn fwyaf effeithiol lle y mesurir mwy nag un prif nod a bod theori newid yn cael ei harchwilio [9].

Byddem yn argymell bod VPU Cymru yn gweithredu dull ar draws systemau o werthuso gweithgareddau yn y dyfodol. Byddai gwerthuso'r VPU fel hyn yn galluogi nodi ystod eang o ganlyniadau bwriadedig ac anfwriadol. Ni fyddai gwerthuso'r VPU heb gyfeirio at y cyd-destun ehangach yn cipio manylion integreiddio VPU i sefydliadau, polisïau a phrosesau ehangach.

Gellir defnyddio nifer o ddulliau gwerthuso systemau; byddem yn argymell ymgorffori'r canlynol mewn gwerthusiadau VPU Cymru yn y dyfodol (wedi'u haddasu o argymhellion i ddatblygu safbwyntiau systemau ar gyfer ymyriadau iechyd cyhoeddus lleol [13]):

- **Ymchwil ansoddol gyda lens systemau:** Samplu cyfranogwyr o wahanol rannau o'r system, archwilio effaith y VRP ar berthnasoedd a newid, a deall sut mae gwahanol rannau o'r system yn effeithio ar ei gilydd. Defnyddir persbectif systemau i enghreifftio sut mae rhanddeiliaid yn profi ac yn ymateb i'r VRP a'i weithgareddau.

- **Addasu dulliau gwerthuso traddodiadol gyda safbwynt systemau:** Gweithredu dulliau gwerthuso traddodiadol (e.e. cyfweliadau proses, arolygon) i ddeall newidiadau cyn ac ar ôl, a ddadansoddwyd o fewn persbectif systemau. Byddem hefyd yn argymell archwilio gweithgareddau allweddol i ddeall hwyluswyr i newid ymddygiad, rhwystrau a heriau, yn ogystal â deall beth sy'n gweithio'n dda, i bwy ac o dan ba amgylchiadau.
  Byddai'r dull hwn yn cynnwys datblygu Fframwaith Gwerthuso Safonedig, er mwyn sefydlu dull cyson o gasglu data ar draws ymyriadau.
- **Mapio cysyniadau:** Deall problemau, heriau ac atebion drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Deall y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar weithgareddau atal trais yng Nglannau Merswy a chyflwyno cyfleoedd i newid. Gall datblygu model rhesymeg yn barhaus adlewyrchu'r ffactorau y mae rhanddeiliaid yn eu hystyried yn bwysig.
- **Dadansoddiad rhwydwaith:** Gall gwneud gwaith i fapio sut mae gwahanol bobl neu sefydliadau yn cysylltu â'i gilydd fod yn ddull defnyddiol o nodi dylanwadwyr allweddol o fewn rhwydwaith (sefydliadau sydd â mwy o ddylanwad nag eraill) ac a yw rhai rhannau o'r rhwydwaith wedi'u hynysu neu'n gweithio mewn seilo. Yma, gofynnir cwestiynau i randdeiliaid am eu perthnasoedd ar draws y system. Gellir mapio ac ailadrodd y data hwn er mwyn deall newidiadau dros amser.

## 7.3 Argymhellion lefel system ac ehangach

### Atal trais ym mhob polisi

Mae canlyniadau a dyheadau canolradd a thymor hwy VPU Cymru yn darparu tystiolaeth am sut y bydd y system gyfan yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu dull mwy cydweithredol a chydgysylltiedig o atal trais. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig bod atal trais yn cael ei adlewyrchu ym mlaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Dylid canolbwyntio hefyd ar ddatblygu tystiolaeth ar gyfer rhaglenni ataliol sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Dylid argymell pwysigrwydd targedu ffactorau risg allweddol a ffactorau amddiffynnol ar gyfer trais ar draws yr holl bolisïau a sefydliadau. Yn yr un modd, dylai buddsoddiad y VPU fod mewn ymyriadau sy'n targedu ffactorau risg ac amddiffynnol, gan ddefnyddio dull gweithredu wedi'i lywio gan drawma. Dylid defnyddio naratif cyffredin ar draws yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r VPU sy'n adlewyrchu'n benodol y dull strategol, y gwerthoedd craidd a'r gwrth-naratif, gan ddarparu negeseuon cadarnhaol a datblygu amgylcheddau amddiffynnol.

### Rôl y VPU wrth lywio'r system ehangach

Gwnaeth un o'r partneriaid bwynt allweddol am bwysigrwydd y VPU o ran cymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir gan gyrff ariannu eraill i weithredu gweithgareddau atal trais yng Nghymru. Mae hyn yn bwysig, a byddai'n lleoli'r VPU fel arweinydd dylanwadol. O safbwynt strategol, mae hyn yn hanfodol, er mwyn sicrhau dull cyson o atal trais ledled Cymru, yn enwedig o ran datblygu'r gwrth-naratif a dilyn dull sy'n seiliedig ar drawma.

Yn gysylltiedig â hyn mae pwysigrwydd sicrhau bod gweithgareddau atal trais yn cael eu mapio'n aml; mae'n anodd iawn ac yn defnyddio llawer o adnoddau i fapio mentrau'n gywir, ond byddai gweithgareddau ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid yn cefnogi'r gweithgaredd hwn.

### Brandio'r VPU

Disgrifiodd partneriaid bwysigrwydd sicrhau eglurder ynghylch yr ymyriadau sydd wedi'u hariannu'n benodol gan y VPU. Mae hyn nid yn unig yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o 'frand' y VPU ond yn hyrwyddo tryloywder ar draws y system. Disgrifiodd partneriaid hefyd bwysigrwydd sicrhau bod

nodau a dyheadau'r ymyriadau hyn yn glir, yn fewnol ac yn allanol i'r VPU. Gall y VPU archwilio'r ffordd orau o gael gafael ar ddata mawr a datblygu sgiliau o amgylch theori annog i deilwra cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau marchnata.

# 8. Atodiad 1 Digwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Tabl A1 Manylion Diben Digwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

| Sesiwn | Mynychwyr | Ffocws |
|---|---|---|
| **1**<br><br>(Cynhaliwyd 10$^{fed}$ Mawrth 2020) | Aelodau craidd a chyswllt VPU Cymru<br><br>Ymarferwyr rheng flaen a chynrychiolwyr o sefydliadau a oedd wedi derbyn cyllid gan VPU Cymru (n~30) | Casglu gwybodaeth am ganlyniadau disgwyliedig y VPU, deall sut mae gweithgareddau'r VPU yn cyfrannu at leihau trais ac ystyried bylchau a blaenoriaethu ar gyfer strategaethau yn y dyfodol. |
| **2**<br><br>(Cynhaliwyd 11$^{eg}$ Mawrth 2020) | Pawb a fynychodd Gynhadledd Atal Trais Cymru (n~150) | Casglu gwybodaeth am y dull cwrs bywyd, gan archwilio ble yn y cylch bywyd mae gweithgareddau wedi'u canolbwyntio, gan nodi bylchau a chryfderau'r VPU fel sefydliad cyfunol. |
| **3**<br><br>(Cynhaliwyd 11$^{eg}$ Mawrth 2020) | Pawb a fynychodd Gynhadledd Atal Trais Cymru (n~150) | Ystyried gweithgareddau blaenoriaeth i'w cynnwys yn strategaeth y VPU yn y dyfodol a nodi rolau a chyfrifoldebau wrth ysgogi hyn. |

# Cyfeiriadau


[1] Sefydliad Iechyd y Byd (2014). Cynghrair Atal Trais. [Ar-lein]. Ar gael: https://www.who.int/violenceprevention/approach/public_health/en/. [Cyrchwyd 12 1 2020]

[2] Krug E, Mercy J, Dahlberg L, Zwi A. (2002). The world report on violence and health. *The Lancet,* vol. 360, pp. 1083-8

[3] Swyddfa Gartref (2018). Serious Violence Strategy. [Ar-lein]. Ar gael: https://www.gov.uk/government/publications/serious-violence-strategy .

[4] Center for Disease Control and Prevention (2020). The Socio-Ecological Model: A Framework for Prevention. [Ar-lein]. Ar gael: https://www.cdc.gov/violenceprevention/publichealthissue/social-ecologicalmodel.html. [Cyrchwyd 4 4 2020]

[5] Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop (2020) The 10 Essential Public Health Operation. [Ar-lein]. Ar gael: https://www.euro.who.int/en/health-topics/Health-systems/public-health-services/policy/the-10-essential-public-health-operations/epho5-disease-prevention,-including-early-detection-of-illness2.

[6] Public Health England (2019). A Whole-System Multi-Agency Approach to Serious Violence Prevention. A Resource for Local System Leaders in England. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/862794/multi-agency_approach_to_serious_violence_prevention.pdf. [Cyrchwyd 12 11 2019]

[7] Florence C, Shepherd J, Brennan I, et al. (2011). Effectiveness of anonymised information sharing and use in health service, police, and local government partnership for preventing violence related injury: experimental study and time series analysis. *British Medical Journal,* vol. 342.

[8] Florence C, Shepherd J, Brennan I, et al. (2014). An economic evaluation of anonymised information sharing in a partnership between health services, police and local government for preventing violence-related injury. *Injury Prevention,* vol. 20, pp. 108-114.

[9] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [Ar-lein]. Ar gael: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf. [Cyrchwyd 2 7 2020]

[10] M. McManus, E. Barton, A. Newbury a J. Roderick (2018). Adverse Childhood Experiences: Breaking the Generational Cycle of Crime. An overview; Cardiff.

[11] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014). Gwneud i Ofal Iechyd Darbodus Weithio. [Ar-lein]. Ar gael: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/866/PHW%20Prudent%20Healthcare%20Booklet%20Final%20English.pdf. [Cyrchwyd 2 7 2020]

[12] L. Jones, C. Bigland a Z. Quigg (2020). Costs of Violence to the Healthcare System in Wales. Public Health Institute, LJMU.

[13] M. Egan (2019). Guidance of Systems Approaches to Local Public Health Evaluation. National Institute for Health Research.

Public Health Institute, Liverpool John Moores University

3rd Floor Exchange Station, Tithebarn Street, Liverpool L2 2QP

Tel: 0151 231 4511 | phi@ljmu.ac.uk | www.ljmu.ac.uk/phi | @LJMUPHI